

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU



## NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY

Bydd cyfarfod o'r **PANEL GWEITHREDOL** yn cael ei gynnal  
**DDYDD LLUN 17 MAWRTH 2025** am **14:00 o'r gloch**  
yn rhithiol **drwy Zoom**

Yr eiddoch yn gywir,  
Gareth Owens  
Clerc

---

### AGENDA

#### 1. Ymddiheuriadau

#### 2. Datganiad o Fuddiannau

#### 3. Hysbysiad o Faterion Brys

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

#### 4. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2024

#### 5. Materion yn Codi

#### 6. Adolygiad Diwylliannol Annibynnol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

#### 7. Adroddiad Monitro Perfformiad Ch3 2024-25

#### 8. Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 25/26 - i'w gymeradwyo

#### 9. Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

#### 10. Materion Brys

Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 3 uchod.

### RHAN II

Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

#### 11. Penodi Swyddog Monitro a Thrysorydd

**PANEL GWEITHREDOL**  
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion **Panel Gweithredol** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 16 Rhagfyr 2024 yn rhithwir dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 14.00 o'r gloch.

**Cynghorydd**

Y Cyng. Dylan Rees (Cadeirydd)  
Y Cyng. Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd)  
Y Cyng. Alan Hughes  
Y Cyng. Chris Hughes  
Y Cyng. John Ifan Jones  
Y Cyng. Gareth A Roberts  
Y Cyng. Paul Rogers  
Y Cyng. Gareth Sandilands

**Yn Cynrychioli**

Cyngor Sir Ynys Môn  
  
Cyngor Sir y Fflint  
Cyngor Sir Ddinbych  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Cyngor Sir Ynys Môn  
Cyngor Gwynedd  
Cyngor Sir Wrecsam  
Cyngor Sir Ddinbych

**Hefyd yn bresennol:**

Dawn Docx  
Stewart Forshaw  
Helen MacArthur  
Justin Evans  
Anthony Jones  
Tracey Williams  
Elgan Roberts  
Dafydd Edwards  
Gareth Owens  
George Jones  
Lisa Allington

Prif Swyddog Tân  
Dirprwy Brif Swyddog Tân  
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol  
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol  
Rheolwr Ardal  
Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol  
Pennaeth Cyllid a Chaffael  
Trysorydd  
Clerc a Swyddog Monitro  
Atebol - Cyfieithydd  
Cynorthwydd Gweithredol

**1.0 YMDDIHEURIADAU**

**Cynghorydd**

Y Cyng. Carol Beard  
Y Cyng. Dale Selvester  
Y Cyng. Rob Triggs

**Yn Cynrychioli**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Cyngor Sir y Fflint  
Cyngor Gwynedd

**ABSENNOL**

**Cynghorydd**

Y Cyng. Rondo Roberts

**Yn Cynrychioli**

Cyngor Sir Wrecsam

**2.0 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

### **3.0 HYSBYSIAD O FATERION BRYD**

- 3.1 Nid oedd hysbysiad o faterion brys.
- 3.2 Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle hwn i ddiolch i holl gydweithwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) am eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb drwy gydol storm Darragh. Cafodd yr Ystafell Reoli dros 200 o alwadau o ganlyniad uniongyrchol i'r storm.

### **4.0 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 MEDI 2024**

- 4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Medi 2024 i'w cymeradwyo.

#### **4.2 PENDERFYNWYD:**

- i) cymeradwyo bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

### **5.0 MATERION YN CODI**

- 5.1 Mewn perthynas â pharagraff 7.4, a oedd yn cyfeirio at Safecall, llinell ffôn annibynnol ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw faterion sy'n peri pryder, nodwyd bod cais wedi'i wneud am fanylion pellach am ei defnydd. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Safecall wedi'i gyflwyno ym mis Mehefin 2023 a hyd yma cafwyd 17 adroddiad unigol, gyda 10 ohonynt yn ddienw, dau yn lled-anhysbys a phump wedi'u henwi. Roedd pob un o'r galwadau hyn wedi cael sylw llawn.

### **6.0 PENNU CYLLIDEB 2025-26**

- 6.1 Rhoddodd PSTC MacArthur wybodaeth gefndir i'r Aelodau ynghylch sefydlu'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb a chyfranogiad MIAA yn y broses o bennu cyllidebau, a rhoddodd drosolwg o'r ffigurau lefel uchel a gynhwysir yn yr adroddiad. Cadarnhaodd hyn ofyniad cyllideb gros o £52.389m a'r cynnig i ddefnyddio £0.6m o gronfeydd wrth gefn ar gyfer gwariant anghylchol. Y gofyniad ardoll net ar gyfer 2025/26 fyddai £51.588m sy'n adlewyrchu cynnydd o 7%, ac yn ymgorffori costau o tua 2% yn llawn sy'n deillio o'r cynnydd diweddar i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr. Gan addasu ar gyfer y cyfraniad yswiriant gwladol, y cynnydd o flwyddyn i flwyddyn fyddai 5%.
- 6.2 Yna cyflwynodd Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael, bapur Pennu Cyllideb 2025-26 i'r Aelodau, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr asesiad cynllunio ariannol cyfredol i bennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26, a cheisio cymeradwyaeth i gadarnhau'r ardoll ddangosol gydag awdurdodau lleol cyfansoddol.
- 6.3 Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb am eu cyfraniad amhrisiadwy i'r broses o bennu'r gyllideb.

- 6.4 Gofynnodd Aelod a oedd hi'n bosibl cael grantiau ar gyfer prosiectau amgylcheddol, ac a oedd unrhyw grantiau neu gyfleoedd lleol drwy asiantaethau partner a allai fod ar gael. Gofynnwyd hefyd a oedd unrhyw awgrym ynghylch maint y setliad cyflog.
- 6.5 Ymatebodd PSTC MacArthur fod Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd y Gwasanaeth yn hynod o ragweithiol a'i fod eisoes wedi sicrhau grantiau o dros £200,000. Byddai cyllid Salix yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol.
- 6.6 Cadarnhaodd y Trysorydd, er bod elfen o risg o ran chwyddiant ac nad oedd byth unrhyw warant, ei fod yn teimlo bod yr amcangyfrifon ar gyfer y dyfarniad cyflog yn gadarn. Byddai cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio pe bai'r sefyllfa yn y pen draw yn codi lle'r oedd y dyfarniad cyflog yn fwy na'r 3% y cyfrifwyd amdano. Nodwyd hefyd bod swm ar wahân wedi'i gynnwys ar gyfer staff y System Dyletswydd Ar Alwad (RDS).

#### **6.7 PENDERFYNWYD:**

- i) Nodi canfyddiadau'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, gan gynnwys y rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2025/26;**
- ii) nodi'r asesiad cynllunio ariannol presennol o ofyniad cyllideb o £52.389m ar gyfer 2025/26;**
- iii) nodi'r cynnig i ddefnyddio £0.601m o gronfeydd wrth gefn ar gyfer 2025/26; a**
- iv) cymeradwyo rhoi gwybod am yr ardoll ariannol ddrafft o £51.788m gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol.**

#### **7.0 ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD CH2 2024-25**

- 7.1 Cyflwynodd y Rheolwr Ardal Anthony Jones bapur Adroddiad Monitro Perfformiad Ch2 2024-25 i'r Aelodau, a oedd â'r nod o roi data cymharol yn ymwneud ag 'Ein 5 Egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel' Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar gyfer hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys sylwadau am weithgarwch, a'r gweithgarwch arfaethedig, sy'n gysylltiedig â'r egwyddorion.
- 7.2 Gofynnodd Aelod beth oedd y data yn ei ddangos o ran larymau tân maleisus, ac ymatebodd y Rheolwr Ardal Jones fod gwaith yn cael ei wneud gyda'r Timau Atal a Diogelu i leihau galwadau yn y maes hwn.
- 7.3 Holwyd ymhellach a fu unrhyw erlyniadau am larymau tân maleisus, ac ymatebodd nad oedd yr ymchwil gychwynnol a gynhaliwyd yn nodi bod unrhyw erlyniadau wedi'u gwneud yn y maes hwn.

- 7.4 Nododd un Aelod y cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn ffigurau absenoldeb salwch a gofynnodd pa fesurau lliniaru a gymerwyd yn y maes hwn.
- 7.5 Cadarnhaodd PSTC MacArthur fod llawer iawn o waith yn cael ei wneud gyda staff i'w galluogi i barhau i weithio lle bo modd, megis dyletswyddau wedi'u haddasu a mynediad at wasanaethau lechyd Galwedigaethol. Roedd sawl ffactor ynghlwm â'r rhesymau dros absenoldebau, a 50% o'r achosion yn ymwneud â staff a oedd yn absennol oherwydd rhesymau iechyd meddwl. Edrychwyd ar yr absenoldebau hynny a oedd yn ymwneud â materion yn y gweithle ac ymdriniwyd â nhw ac roedd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) yn edrych ar ddulliau ychwanegol ar gyfer cymorth. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd bod mynediad at gymorth y GIG yn arbennig o broblemus a bod hyn yn cael effaith andwyol ar absenoldeb salwch.
- 7.6 Gofynnodd Aelod am gael cymhariaeth â Gwasanaethau Tân ac Achub (GTA) eraill Cymru a Gwasanaethau Tân ac Achub ledled y DU yn y dyfodol er mwyn rhoi rhywfaint o gyd-destun ehangach.
- 7.7 Gofynnodd y PST i'r Aelodau nodi, gan fod y Gwasanaeth yn un cymharol fach, mai dim ond niferoedd isel o staff oedd angen bod yn absennol i'r canrannau ymddangos yn uchel. Roedd canlyniad anhysbys yr Adolygiad Diwylliant hefyd wedi cael effaith negyddol ar rai staff.
- 7.8 Nodwyd y cynnydd o 61% mewn tanau yng Ngharchar y Berwyn, a gofynnwyd beth oedd y staff yn y carchar yn ei wneud er mwyn lleihau nifer y tanau. Ymatebodd y Rheolwr Ardal Jones fod cyfraddau llwyddiant y rhaglen bresennol yn cael eu hystyried, a bod y carchar yn treialu cynllun i ddisodli eitemau trydan neu fatri mewn ymdrech i atal carcharorion rhag cynnu tanau yn fwriadol.

## **7.9 PENDERFYNWYD:**

- i) nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

## **8.0 MEINCNODI CYFLOG Y PRIF SWYDDOG TÂN BOB TAIR BLYNEDD**

- 8.1 Trafodwyd yr eitem hon ar yr agenda ar ôl eitem 9 ar yr agenda a gofynnwyd i Aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli adael y cyfarfod. Rhoddodd Gareth Owens, Clerc yr Awdurdod, wybod i'r Aelodau am ganlyniad yr ymarfer meincnodi a gynhelir bob tair blynedd ar gyflog y Prif Swyddog Tân (PST).

## **8.2 PENDERFYNWYD:**

- i) Cadarnhau i'r Awdurdod, drwy'r Panel Gweithredol, eu bod wedi cyflawni eu dyletswydd i gynnal ymarferiad meincnodi bob tair blynedd yn unol â'r dull "dau drac " ar gyfer pennu lefelau tâl ar gyfer Rheolwyr Brigâd fel y mae'r Cyd-gyngor Cenedlaethol yn rhagnodi; a**
- ii) nodi nad oedd angen unrhyw newidiadau i'r cyflog.**

## **9.0 RHEOLI RISG STRATEGOL**

- 9.1 Cyflwynodd y Rheolwr Ardal Anthony Jones y papur Rheoli Risg Strategol, a oedd â'r nod o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ddatblygiad ar y broses rheoli risg; amlinelliad o'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg drafft; a throsolwg o Gofrestr Risg Strategol yr Awdurdod.
- 9.2 Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Gofrestr Risg wedi cael ei hadolygu ganddo ef ei hun a'r Dirprwy Gadeirydd yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Roedd cynlluniau hefyd ar waith i wella'r broses gwerthuso risg a byddai hyfforddiant yn cael ei roi yn y maes hwn. Argymhellwyd bod yr Aelodau hefyd yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant hwn er mwyn gallu gwerthuso risg yn well wrth symud ymlaen.

## **9.3 PENDERFYNWYD:**

- i) Nodi datblygiad y broses rheoli risg;**
- ii) cymeradwyo'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg drafft; a**
- iii) nodi'r Gofrestr Risg Strategol.**

## **10.0 MATERION BRYN**

- 10.1 Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle hwn i gynghori'r Aelodau, pe dymument, y gellid symud i gyfarfodydd hybrid ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol; fodd bynnag, ni fyddai'r cyfleusterau ar gael i gynnal cyfarfodydd hybrid ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod llawn oherwydd cyfyngiadau ar le.
- 10.2 Nodwyd bod darpariaeth o fewn y gyllideb o hyd ar gyfer costau teithio Aelodau.
- 10.3 Cytunwyd y dylai cyfarfodydd aros ar-lein, drwy bleidlais fwyafrifol.

Daeth y cyfarfod i ben am: 14:53.

Adroddiad i	<b>Y Panel Gweithredol</b>
Dyddiad	<b>17 Mawrth 2025</b>
Swyddog Arweiniol	<b>Dawn Docx, Prif Swyddog Tân</b>
Swyddog Cyswllt	<b>Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol</b>
Pwnc	<b>Adolygiad Diwylliannol Annibynnol o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru</b>



## **PWRPAS YR ADRODDIAD**

- 1 Cyflwyno adroddiad yr adolygiad diwylliannol annibynnol o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) i Aelodau Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a chadarnhau'r camau nesaf ar daith ddiwylliannol GTAGC.

## **ARGYMHELLIAD**

- 2 Argymhellir bod yr Aelodau'n:
  - i) **Cydnabod derbyn adroddiad yr adolygiad diwylliannol annibynnol; a**
  - ii) **chyperadwyo'r camau nesaf ar daith ddiwylliannol GTAGC.**

## **CEFNDIR**

- 3 Ar 3 Ionawr 2024, cyhoeddwyd Adolygiad Diwylliant Annibynnol o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC). Ar 5 Chwefror 2024, mewn ymateb i'r canfyddiadau, cyhoeddodd Hannah Blythyn, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar y pryd, fod Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi'i ddileu a bod pedwar Comisiynydd annibynnol wedi'u penodi i sicrhau bod argymhellion yr adolygiad a'r rhai a wnaed gan y Prif Gyngorydd Tân ac Achub yn cael eu gweithredu.
- 4 Yn dilyn y camau gweithredu hyn gan y Gweinidog, cyfarfu'r Cyngorydd Dylan Rees a'r Prif Swyddog Tân Dawn Docx â'r Dirprwy Weinidog ar y pryd a'i swyddogion ar 19 Chwefror a 4 Mawrth 2024 i drafod y cynnydd a wnaed o ran diwylliant o fewn GTAGC. Ar ôl cael y cyfle i gwrdd â staff a chan ei bod yn gyfarwydd â GTAGC, cydnabu'r Dirprwy Weinidog fod GTAGC a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) mewn man gwahanol ar eu teithiau diwylliannol o'u cymharu â GTADC.

- 5 Er hynny, bu GTAGC a GTACGC yn cydweithio i gynnig comisiynu adolygiad allanol o'r ddau Wasanaeth, i'w gynnal gan arbenigwr diwylliant annibynnol. Cymeradwywyd y syniad hwn gan y Dirprwy Weinidog ac roedd yn sail i'w datganiad ar 11 Mawrth 2024. Cytunwyd ar Gylch Gwaith yr adolygiad yn seiliedig ar ddatganiad y Dirprwy Weinidog ac yn dilyn ymarferiad caffael ar y cyd, cytunwyd ar y contract gyda Crest Advisory ar 4 Mehefin 2024.

## **GWYBODAETH**

- 6 Rhwng mis Gorffennaf 2024 a mis Tachwedd 2024 cynhaliodd Crest Advisory y gwaith adolygu. Fe wnaethant gynnal adolygiad llenyddiaeth, adolygiad dogfennau a data, arolwg staff, cynnal cyfweiliadau a grwpiau ffocws a derbyn cyflwyniadau ysgrifenedig a sain.
- 7 Roedd cymryd rhan yn yr adolygiad yn gwbl wirfoddol, a'r bwriad oedd casglu barn gweithwyr presennol a staff a weithiodd i GTAGC ar ôl Mehefin 2021 ond a allai fod wedi gadael GTAGC wedi hynny.
- 8 Cynhyrchodd Crest adroddiad drafft ar 23 Rhagfyr 2024 a ddarparwyd i nifer fach o swyddogion er mwyn ei wirio am gywirdeb ffeithiol a therminoleg. Roedd dyddiad cyhoeddi'r adroddiad wedi'i drefnu ar gyfer 5 Chwefror 2025 i ganiatáu ar gyfer cyfieithu ac i gyd-fynd â chyhoeddi'r adroddiad ar gyfer GTACGC.
- 9 Hysbyswyd Aelodau'r Awdurdod a rhanddeiliaid allweddol ymlaen llaw bod yr adroddiad i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod ar 5 Chwefror, a gwahodddwyd yr Aelodau i sesiwn frifio anffurfiol gan Crest Advisory ar 10 Chwefror 2025.

## **CAMAU NESAF**

- 10 Cyfarfod y Panel Gweithredol ar 17 Mawrth 2025 yw'r cyfle cyntaf i gyflwyno [Adroddiad Adolygiad Diwylliant Annibynnol Crest](#) yn ffurfiol i Banel Gweithredol yr Awdurdod ar gyfer cwestiynau a sylwadau. Yn ogystal, mae crynodeb o'r adroddiad wedi'i gynhyrchu â deallusrwydd artifisial (AI) wedi'i atodi fel [Atodiad A](#).
- 11 Mae Crest Advisory wedi gwneud cyflwyniadau i Aelodau'r Awdurdod, i Dîm Arweinyddiaeth GTAGC, i Arweinwyr Canol ac mewn digwyddiadau sydd wedi bod yn agored i bob gweithiwr yn ystod mis Chwefror. Fe wnaethant hefyd gyflwyno eu canfyddiadau i swyddogion Llywodraeth Cymru ar 11 Mawrth 2025.



- 12 Trafodwyd yr adroddiad yn helaeth yn ystod seminar yr Arweinwyr Canol ar 12 Chwefror 2025 ac mae pob arweinydd Canol wedi cael eu hannog i'w drafod gyda'u timau, ac i roi adborth ar y themâu hynny yr oeddent hwy'n credu oedd y rhai pwysicaf i fynd i'r afael â nhw a'r camau ymarferol y gellid eu rhoi ar waith yn y tymor byr a'r tymor canolig. Mae cyfeiriad e-bost penodedig wedi'i greu i dderbyn yr awgrymiadau hynny a bydd yn parhau ar agor tan ddiwedd mis Mawrth.
- 13 Yn y cyfamser, sefydlwyd Bwrdd Diwylliannol a bydd yn cael ei gadeirio gan y PST. Bydd yn gweithio'n agos gyda'r rhwydweithiau staff, y Fforwm Ymgysylltu â Staff, Grŵp Prosiect yr Arolwg Staff Teulu Tân yn ogystal â'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a fydd hefyd yn cael ei gadeirio gan y PST. Y nod yw sicrhau bod y broses hon mor gydweithredol a chynhwysol â phosibl, lle mae gan bawb lais wrth lunio dyfodol GTAGC.
- 14 Y bwriad yw llunio a chyflwyno'r Cynllun Gweithredu sy'n deillio o argymhellion yr adroddiad i'r Awdurdod llawn yn ei gyfarfod ar 28 Ebrill 2025.
- 15 Disgwylir y bydd cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu yn cael ei adrodd yn rheolaidd a bydd y perfformiad yn cael ei reoli gan yr Awdurdod.

## GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Gellid effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol os nad eir i'r afael â'r pryderon a amlygwyd gan yr adolygiad.
Cyllideb	Cost yr adolygiad oedd £150,000 ac fe'i hariannwyd yn llawn o gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod.
Cyfreithiol	Mae GTAGC yn gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
Staffio	Cafodd Rheolwr Ardal ei secondio i'r prosiect hwn am 9 mis i gydlynu, a rheoli contract y prosiect.
Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / Y Gymraeg	Cynhaliwyd y prosiect yn ddwyieithog, ac roedd y cyfranogiad ar sail wirfoddol, hunanddewisol.
Risgiau	Mae'r adroddiad yn nodi gwelliannau cadarnhaol a phethau sy'n peri pryder. Rhaid mynd i'r afael â'r pryderon i sicrhau bod GTAGC yn parhau i fod yn gyflogwr o ddewis ac yn gallu denu talent i ddarparu gwasanaethau o safon.

## ATODIAD A


### Pwyntiau cadarnhaol sy'n adlewyrchu cynnydd

1. **Gwell diwylliant ers 2021:** mae'r diwylliant yn GTAGC wedi gwella'n sylweddol ers mis Mehefin 2021, a phriodolir hynny'n bennaf i benodi Prif Swyddog Tân (PST) newydd. Mae'r arweinyddiaeth newydd wedi pwysleisio cyfathrebu agored, tryloywder, ac ymgysylltu rhagweithiol sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar y diwylliant
2. **Balchder ac ysbryd fîm:** Mynegodd staff GTAGC a chyn-staff falchder mawr yn eu gwaith ac roeddent yn mwynhau gweithio mewn timau cefnogol a chynhwysol. Mae ymdeimlad cryf o undod a phwrpas a rennir ymhlith cydweithwyr.
3. **Effaith gadarnhaol arweinyddiaeth newydd:** mae pwyslais y PST newydd ar gyfathrebu agored, tryloywder, ac ymgysylltu rhagweithiol wedi arwain at well amlygrwydd a hygyrchedd ymhlith uwch arweinwyr. Adlewyrchwyd hyn yn yr adborth cadarnhaol gan staff ynghylch y cyfleoedd i roi adborth ar werthoedd, diwylliant, tegwch ac amrywiaeth GTAGC.
4. **Amgylchedd gwaith cefnogol:** roedd y mwyafrif o staff yn nodi cydweithwyr cefnogol a chydweithio a gwaith fîm da fel prif gryfderau diwylliant GTAGC. Rhoddwyd llawer o enghreifftiau o amgylcheddau a chyfeillgarwch cefnogol, lle'r oedd cydweithwyr yn annog ac yn codi ysbryd ei gilydd.
5. **Gwelliannau mewn hyfforddiant gweithredol:** Mae GTAGC wedi gwneud ymdrech ymwybodol i wella'r ddarpariaeth o hyfforddiant gweithredol, gyda chanlyniadau cadarnhaol. Mae'r adran hyfforddi wedi symud tuag at ddull cefnogol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ganolbwyntio ar anghenion datblygu ac arddulliau dysgu unigolion.
6. **Ymdrechion i gynyddu amrywiaeth:** Mae GTAGC wedi gweithredu strategaethau recriwtio wedi'u targedu o dan gamau gweithredu cadarnhaol i ddenu menywod i rolau gweithredol. Mae'r ymdrechion hyn wedi bod yn effeithiol, gyda menywod yn cynrychioli 15% o'r gweithlu gweithredol yn 2023-24, o'i gymharu â 10% yn 2020-2021.
7. **Ymrwymiad i newid diwylliannol:** Mae GTAGC wedi dangos ymrwymiad i newid diwylliannol drwy roi gwahanol fentrau ar waith i wella diwylliant y Gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y fforwm ymgysylltu diwylliannol i staff, cynllun 'Siop Siarad' ('Culture Cafe'), cyflwyno Safecall (gwasanaeth adrodd allanol dienw), a phecynnau hyfforddi amrywiol sy'n canolbwyntio ar ymddygiad derbyniol, rheoli pobl, a chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

## Pwyntiau negyddol sy'n adlewyrchu heriau parhaus

1. **Ymddygiadau negyddol ymhlith arweinwyr:** er gwaethaf gwelliannau, mae ymddygiad negyddol ymhlith lleiafrif o arweinwyr canol ac uwch arweinwyr yn rhwystro newid diwylliannol cadarnhaol. Mae'r unigolion hyn yn aml yn arddangos ymddygiad amhroffesiynol, gan gynnwys cam-drin pŵer ac ymddygiad bygythiol.
2. **Diffyg atebolrwydd:** mae yna ddiffyg atebolrwydd canfyddedig am gamymddwyn yn y gorffennol, arddull arweinyddiaeth wedi'i nodweddu gan osgoi, a gwneud penderfyniadau gwael mewn uwch arweinyddiaeth. Mae hyn wedi erydu ymddiriedaeth ledled GTAGC ac mae'n parhau i effeithio ar y diwylliant sefydliadol.
3. **Tensiynau mewn mentrau amrywiaeth:** mae tensiynau amlwg o gylch gweithredoedd a mentrau GTAGC i wella amrywiaeth. Mae'r dull gweithredu cadarnhaol o ran recriwtio wedi arwain at bryderon ynghylch gwahaniaethu cadarnhaol ac amheuon ynghylch cymhwysedd staff benywaidd.
4. **Y berthynas ag undebau dan straen:** er gwaethaf rhai gwelliannau, mae'r berthynas rhwng Undeb y Brigadau Tân (FBU) a staff corfforaethol perthnasol yn GTAGC yn parhau i fod dan straen. Mae yna ddiwylliant 'ni yn erbyn nhw' sydd wedi ymwreiddio, gyda chyhuddiadau o ddiffyg cydweithio a gelyniaeth gan y naill ochr a'r llall.
5. **Ffafiaeth a rhagfarn wedi ymwreiddio:** Ystyrir bod ffafiaeth a thuedd wedi ymwreiddio yn GTAGC, gan effeithio ar bron pob un o brosesau'r Gwasanaeth, gan gynnwys recriwtio, dyrchafu ac adleoli.
6. **Arddull arweinyddiaeth hierarchaidd:** mae'r arddull arweinyddiaeth yn GTAGC yn cael ei hystyried yn fwyaf cyffredin fel un hierarchaidd, rheolaethol, ac anhygyrch. Mae hyn wedi creu rhaniad amlwg rhwng rheolwyr a staff iau.
7. **Hyfforddiant a datblygu anghyson:** er bod hyfforddiant gweithredol wedi gwella, mae hyfforddiant anweithredol yn aml yn cael ei ystyried yn ymarfer ticio blychau. Nid oes digon o hyfforddiant ar ddulliau rheoli sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan adael rheolwyr heb eu paratoi ac achosi i fân broblemau waethygu.
8. **Bwlio ac aflonyddu ar raddfa eang:** mae bwlio ac aflonyddu yn digwydd ar raddfa eang, gyda dros ddwy ran o bump o ymatebwyr yr arolwg yn rhoi gwybod am brofiadau personol ers mis Mehefin 2021. Mae yna hefyd lawer iawn o achosion nas rhoddir gwybod yn eu cylch ac ymatebion anghyson i adroddiadau o ymddygiad annerbyniol.

9. **Pryderon iechyd a diogelwch:** mae newidiadau i safonau archwilio wedi arwain at bryderon ymhlith staff gweithredol am iechyd a diogelwch yn GTAGC. Hefyd, nid oes digon o bwyslais ar ddiogelu.
10. **Cymorth iechyd meddwl anghyson:** er bod pocedi da o gymorth iechyd meddwl, mae'r gefnogaeth i weithwyr ar absenoldeb iechyd meddwl hirdymor yn parhau i fod yn anghyson.

Adrodd i'r	<b>Panel Gweithredol</b>	
Dyddiad	<b>17 Mawrth 2025</b>	
Swyddog Arweiniol	<b>Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol</b>	
Swyddog Cyswllt	<b>Sandra Williams, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid</b>	
Pwnc	<b>Adroddiad Monitro Perfformiad Ebrill 2024 – Rhagfyr 2024</b>	

### **Pwrpas yr Adroddiad**

- 1 Darparu data cymharol sy'n ymwneud ag ymgyrch 'Ein 5 Egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel' Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar gyfer tri chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys sylwadau am weithgarwch, a'r gweithgarwch arfaethedig, sy'n gysylltiedig â'r egwyddorion.
- 2 Tynnu sylw at dueddiadau sy'n dod i'r amlwg o ran galw sydd ar gynnydd, sy'n gostwng neu sy'n newydd.
- 3 I fod yn sail i ddatblygu gweithgarwch newydd neu ddiwygiedig i liniaru unrhyw anghenion neu risgiau sydd ar gynnydd neu sy'n ymddangos o'r newydd.

### **Crynodeb**

- 4 Mae nifer y Digwyddiadau tân yn parhau i ostwng, gyda 1,252 o danau yr aethpwyd atynt - gostyngiad o 6.7% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.
- 5 Mae nifer y Galwadau Diangen yn parhau i godi, gyda 2,521 o ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt - cynnydd o 11.6% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.
- 6 Mae nifer y Tanau Damweiniol mewn Cartrefi yr aethpwyd atynt yn parhau i ostwng, gyda 231 o ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt - y nifer isaf a adroddwyd yn y pum mlynedd ariannol ddiwethaf.

### **Argymhelliad**

- 7 Argymhellir bod yr Aelodau'n:
  - i) **Nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

## Gwybodaeth

- 8 Oni nodir yn wahanol, mae'r holl ffigurau'n seiliedig ar dri chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol hon, a gwneir cymariaethau â'r un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

Amcanion Llesiant	Maent yn helpu'r Awdurdod i fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant sydd yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-25.
Cyllideb	Dim goblygiadau cyllidebol uniongyrchol. Fodd bynnag, mae adrodd yn caniatáu i'r Awdurdod ystyried unrhyw effeithiau posibl ar y gyllideb yn sgil digwyddiadau annisgwyl.
Cyfreithiol	Yn cefnogi'r Awdurdod, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i ddangos sut y mae'n cymryd pob cam rhesymol, wrth arfer ei swyddogaethau, i fodloni ei amcanion llesiant.
Staffio	Dim goblygiadau staffio. Fodd bynnag, bydd cysoni adrodd â Chynllun Rheoli Risg Cymunedol yr Awdurdod yn fwy effeithlon.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau.
Risgiau	Dim goblygiadau risg



Gwasanaeth Tân ac Achub  
Fire and Rescue Service

# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Adroddiad Monitro: Ebrill 2024 – Rhagfyr 2024



**Our five principles for keeping communities safe**

**PEOPLE**

**PREVENTION**

**PROTECTION**

**RESPONSE**

**ENVIRONMENT**

## Cynnwys

<b>Ein Hegwyddor Pobl .....</b>	<b>2</b>
1 Absenoldeb Salwch .....	2
1.1 Pob Absenoldeb Salwch .....	2
1.2 Salwch Tymor Byr .....	4
1.3 Salwch Hirdymor .....	5
<b>Ein Hegwyddor Atal .....</b>	<b>7</b>
2 Yr Holl Ddigwyddiadau .....	7
3 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliant .....	8
4 Tanau Damweiniol yn y Cartref (TDC) .....	10
5 Prif achos tanau damweiniol yn y cartref .....	11
6 Marwolaethau ac Anafiadau o Danau Damweiniol yn y Cartref .....	12
7 Larymau Mwg – Tanau Damweiniol yn y Cartref .....	13
8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig (GGA) .....	14
9 Archwiliadau Diogel ac Iach .....	17
<b>Ein Hegwyddor Diogelu .....</b>	<b>19</b>
10 Galwadau Diangen .....	19
11 Galwadau Larwm Tân Awtomatig Masnachol .....	20
12 Galwadau Larwm Tân Awtomatig Ysbytai .....	21
13 CEF Berwyn .....	21
<b>Ein Hegwyddor Ymateb .....</b>	<b>23</b>
14 Argaeledd Gorsaf System dyletswydd ar alwad .....	23
15 Argaeledd 18 Pwmp wedi'i Gynllunio .....	23
16 Technolegau Datblygol .....	24
17 Tanau glaswellfir, coetir a chnydau .....	25
18 Tanau gwyllt .....	25
19 Llifogydd .....	26
<b>Geirfa .....</b>	<b>27</b>



# Ein Hegwyddor Pobl



## 1 Absenoldeb Salwch

Nod y Gwasanaeth yw annog ei holl weithwyr i wneud y mwyaf o'u presenoldeb yn y gwaith ond gan gydnabod na fydd gweithwyr, o bryd i'w gilydd, yn gallu dod i'r gwaith oherwydd salwch.

Mae cyfanswm yr amser a gollwyd, ar gyfer GTAGC, oherwydd absenoldeb salwch wedi cynyddu i 5.67% yn ystod chwarter tri, sy'n gynnydd o'i gymharu â'r un chwarter yn ystod y flwyddyn flaenorol o 5.21%, ond yn ostyngiad o 6.15% yn chwarter dau ar gyfer 2024/25.

Roedd 940 o unigolion yn cael eu cyflogi gan GTAGC yn ystod chwarter tri, sy'n gynnydd o 30 o bobl o'r un cyfnod yn 2023/24.

Sylwer, drwy gydol yr adroddiad, na fydd nifer yr achosion yn y flwyddyn hyd yma yn gyfanswm y chwarteri gan y bydd absenoldebau rhai unigolion yn ymestyn ar draws chwarteri. Gall fod amrywiadau hefyd yn y niferoedd a adroddir o chwarter i chwarter o ganlyniad i newidiadau i ddata gweithwyr.

### 1.1 Pob Absenoldeb Salwch

	Blwyddyn 2023/2024			Blwyddyn 2024/2025			Amrywiant Cyfradd Absenoldeb
	Achosion Ch3	Diwrnodau Ch3 a gollwyd	Amser Ch3 a gollwyd %	Achosion Ch3	Diwrnodau Ch3 a gollwyd	Amser Ch3 a gollwyd %	
Salwch Hirdymor	143	792	0.95%	152	857	1.00%	↑ 0.05%
Salwch Tymor Byr	63	3572	4.27%	78	3991	4.67%	↑ 0.40%
Cyfanswm	206	4364	5.21%	230	4848	5.67%	↑ 0.46%

Yn ystod chwarter tri, mae nifer y diwrnodau absenoldeb tymor byr ac achosion wedi cynyddu o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, er bod gostyngiad cyffredinol wedi bod o'i gymharu ag absenoldeb chwarter dau. Roedd absenoldeb tymor byr yn cyfrif am 1.00% o'r amser a gollwyd ar draws pob math o ddyletswydd, sef cynnydd o 0.05% o'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

Mae nifer yr achosion o salwch hirdymor wedi cynyddu o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, gydag absenoldeb hirdymor bellach yn cyfrif am 4.67% o'r amser a gollwyd o 4.27%.

Mae **tymor byr** yn golygu cyfnodau unigol o salwch o 27 diwrnod calendr neu lai.

Mae **hirdymor** yn golygu cyfnodau unigol o 28 diwrnod calendr neu fwy.

Efallai y bydd rhai systemau dyletswydd yn gweld canran uwch o amser wedi ei golli er bod llai o achosion o absenoldeb yn cael eu cofnodi. Y rheswm am hyn yw bod llai o staff o fewn y system ddyletswydd honno. Mae'r cyfrifiad o ganran absenoldeb salwch yn gymesur â nifer y staff o fewn y system ddyletswydd honno.

## 1.2 Salwch Tymor Byr

Mae salwch tymor byr yn cyfateb i 1.00% o'r amser a gollwyd yn ystod chwarter tri.

	2023/24 – Achosion Ch3	2023/24 – Diwrnodau a gollwyd Ch3	2023/24 – Amser a gollwyd % Ch3	2024/25 – Achosion Ch3	2024/25 – Diwrnodau a gollwyd Ch3	2024/25 – Amser a gollwyd % Ch3
Amser Cyflawn*	55	299	1.17%	45	282	1.13%
System Dyletswydd Ar Alwad / Ar Alwad	62	344	0.80%	69	393	0.88%
Yr Ystafell Reoli	9	45	1.49%	10	28	1.06%
Adrannau Corfforaethol	17	104	0.83%	28	154	1.16%
<b>Cyfanswm</b>	<b>143</b>	<b>792</b>	<b>0.95%</b>	<b>152</b>	<b>857</b>	<b>1.00%</b>

(\*Amser cyflawn - mae'n cynnwys yr holl staff gweithredol, megis swyddogion mewn gorsafoedd, swyddogion gwledig a swyddogion dyletswydd hyblyg)

(Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth wedi ei rannu fel bod aelodau gweithredol y Tîm Arweinyddol yn cael eu cynnwys o fewn ffigurau amser cyflawn a Phenaethiaid Adrannau wedi'u cynnwys o fewn ffigurau'r Adrannau Corfforaethol).

### Y 3 Prif Reswm dros Absenoldeb Salwch Tymor Byr (Achosion)

	Rheswm Dros Absenoldeb	Achosion	Amser a gollwyd %
1	Annwyd, Ffliw	40	23.4%
2	Cyhyrysgerbydol - aelodau gwaelod y corff	10	7.7%
3	Cyhyrysgerbydol - aelodau ucha'r corff	7	5.4%

Mae amser a gollwyd % yn seiliedig ar y diwrnodau a gollwyd yn hytrach na nifer yr achosion

Mae'r rhesymau dros absenoldeb uchod ar draws pob math o ddyletswydd.

Roedd y nifer uchaf o achosion o absenoldeb tymor byr o ganlyniad i annwyd/ffliw, ac absenoldebau cyhyrysgerbydol oedd yr ail a'r trydydd uchaf.

### 1.3 Salwch Hirdymor

Mae salwch hirdymor yn cyfateb i gyfartaledd o 4.67% o'r amser a gollwyd yn ystod chwarter tri.

Salwch Hirdymor	2023/24 Achosion Ch3	2023/24 Diwrnodau a gollwyd Ch3	2023/24 Amser a gollwyd % Ch3	2024/25 Achosion Ch3	2024/25 Diwrnodau a gollwyd Ch3	2024/25 Amser a gollwyd % Ch3
Gorsafoedd system dyletswydd amser cyflawn	14	742	2.93%	24	1273	5.11%
System Dyletswydd Ar Alwad / Ar Alwad	38	2229	5.20%	46	2332	5.22%
Yr Ystafell Reoli	3	163	6.56%	1	57	2.16%
Adranau Corfforaethol	8	438	3.50%	7	329	2.48%
<b>Cyfanswm</b>	<b>63</b>	<b>3572</b>	<b>4.27%</b>	<b>78</b>	<b>3991</b>	<b>4.67%</b>

### Y 3 Prif Reswm dros Absenoldeb Salwch Hirdymor (Achosion)

	Rheswm Dros Absenoldeb	Achosion	Amser a gollwyd %
1	Cyhyrysgerbydol - aelodau gwaelod y corff	23	24.7%
2	Iechyd Meddwl - Straen	14	17.4%
3	Methu Archwiliad Meddygol / Prawf Ffitrwydd	6	8.2%

Mae amser a gollwyd % yn seiliedig ar y diwrnodau a gollwyd yn hytrach na nifer yr Achosion

Mae rhesymau absenoldeb salwch hirdymor yn ystod chwarter tri wedi aros yr un fath â chwarter dau.

**Cyhyrysgerbydol** – Mae absenoldeb oherwydd aelodau gwaelod y corff yn parhau i fod yn gyfrifol am y nifer uchaf o achosion ac amser a gollwyd. Mae absenoldebau oherwydd y rheswm hwn yn cynnwys gweithwyr sy'n aros am ymyriad llawfeddygol neu'n gwella ar ôl llawdriniaeth ond oherwydd natur gorfforol rolau gweithredol, rhaid i weithwyr fod wedi gwella'n llwyr cyn dychwelyd i'r gwaith er mwyn osgoi gwaethygu'r anaf neu achosi anaf arall.

**Absenoldeb hirdymor oherwydd iechyd meddwl** - mae straen yn parhau i fod o fewn y tri phrif reswm am absenoldeb salwch hirdymor yn ystod chwarter tri, gyda chynnydd bychan yn nifer yr achosion a'r amser a gollwyd o'i gymharu â chwarter dau y flwyddyn gyfredol. Er bod y gwasanaeth wedi gweld cynnydd mewn achosion iechyd meddwl, mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu ar draws y wlad, fel yr adroddwyd gan fwletin ystadegau misol y GIG. Mae oedolion sy'n cael cymorth iechyd meddwl wedi cynyddu o 1.1 miliwn ym mis Gorffennaf 2023 i 1.4 miliwn ym mis Gorffennaf 2024.

Mae cefnogaeth yn cael ei darparu i weithwyr sy'n absennol oherwydd rhesymau iechyd meddwl a chyhyrysgerbydol, gan gynnwys mynediad at iechyd galwedigaethol, rhaglen cymorth i weithwyr a thriniaeth ffisiotherapi. Mae gweithwyr hefyd yn cael eu cyfeirio at asiantaethau allanol, fel Elusen y Diffoddwyr Tân, Parabl a gwasanaethau penodol eraill.

## Cymhariaeth Cymru Gyfan

Nifer y diwrnodau sifft cyfartalog a gollwyd y person ar gyfer pob absenoldeb (tymor byr a hirdymor) ar sail Cymru gyfan oedd 11.62 diwrnod sifft y person ar gyfer staff amser cyflawn mewn lifrai, 17.72 diwrnod sifft y person ar gyfer staff yr Ystafell Reoli, ac 14.76 diwrnod sifft y person ar gyfer staff Corfforaethol.

O'i gymharu â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru, Gogledd Cymru oedd â'r nifer isaf o ddiwrnodau sifft a gollwyd y person oherwydd absenoldebau hirdymor a thymor byr ar draws y tri math o ddyletswydd o blith y tri gwasanaeth.

Ar gyfer cyfanswm yr absenoldeb:

- collwyd 9.02 diwrnod sifft y person gan staff amser cyflawn mewn lifrai yng Ngogledd Cymru, o'i gymharu ag 13.54 diwrnod y person a gollwyd gan staff amser cyflawn mewn lifrai yn Ne Cymru a 9.54 diwrnod sifft y person yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru;
- collwyd 12.19 diwrnod sifft y person gan staff yr Ystafell Reoli yng Ngogledd Cymru, o'i gymharu â 23.7 diwrnod sifft y person yn Ne Cymru ac 16.66 diwrnod sifft y person yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru;
- collwyd 10.09 diwrnod sifft y person gan staff Corfforaethol yng Ngogledd Cymru, o'i gymharu â 21.24 diwrnod sifft y person yn Ne Cymru a 10.4 diwrnod sifft y person yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Sylwer, mae data Cymru gyfan ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, gyda'r diweddariad diweddaraf wedi'i gyhoeddi ym mis Hydref 2024, ac mae'n adrodd ar ddata absenoldeb ar gyfer staff amser cyflawn, staff yr ystafell reoli a staff corfforaethol yn unig ac nid yw'n cynnwys data am staff ar alwad.

# Ein Hegwyddor Atal




## 2 Yr Holl Ddigwyddiadau

**Pob Digwyddiad** - aethpwyd at **4,852** o ddigwyddiadau yn ystod tri chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol, sy'n gynydd o 4.1% o 4,660. Mae hyn hefyd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 4,440.

**Tanau** – **1,252**, gostyngiad o 6.7%. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 1,460.


**Galwadau Diangen** – **2,521**, cynnydd o 11.6%. Mae hyn hefyd yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 2,072.

**Galwadau Gwasanaeth Arbennig** - **1,079**, sef cynnydd o 1.9%. Mae hyn hefyd yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 909.



### 3 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliant

Aethpwyd at **1,252** o danau; gostyngiad o 6.7% o 1,342.



#### Prif Danau - 652


- **Damweiniol: 526**, 80.7%.
- **Bwriadol: 126**, 19.3%.

#### Tanau Eilaidd - 541

- **Damweiniol: 282**, 52.1%.
- **Bwriadol: 259**, 47.9%.

#### Tanau Simdde

- **59**, 4.7% o'r holl danau yr aethpwyd atynt - mae hyn yn gynnydd o 34.1% o 44.



## **Camau gweithredu a gymerwyd hyd yma:**

Nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd ar ddiwedd chwarter tri oedd **15,055**. Rydym o flaen y targed ar gyfer y flwyddyn; fodd bynnag, byddwn yn parhau i weithio gyda'n hasiantaethau cyfeirio i sicrhau bod atgyfeiriadau o'r safon uchaf yn cael eu derbyn.

Yn ystod chwarter tri, datblygwyd proses newydd sy'n galluogi criwiau gweithredol i ganfod adeiladau sydd wedi dirywio ac sydd wedi denu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r criwiau'n anfon yr wybodaeth ymlaen at y tîm atal, sy'n hysbysu'r awdurdodau priodol.

Roedd ymgyrchoedd tymhorol ac ymgyrchoedd wedi'u targedu ar y cyfryngau cymdeithasol drwy ein Tîm Cyfathrebu Corfforaethol yn cynnwys: diogelwch coelcerthi a thân gwyllt, diogelwch trydanol, diogelwch simneiau, a diogelwch y Nadolig.

Cynhaliwyd sesiynau addysgol pwrpasol ar y cyd â grwpiau awdurdodau lleol ac elusennau i geiswyr lloches. Roedd cyfieithwyr mewn pedair iaith wahanol yn bresennol yn y sesiynau hyn. Mae gweithgarwch parhaus yn y maes hwn yn cael ei ddatblygu.


Yn ystod chwarter tri, dechreuodd menter newydd gyda Banc NatWest. Mae'r sesiynau hyn wedi'u hanelu at yr henoed ac maent yn gynhyrchol iawn, gan ein galluogi i gynnig Archwiliadau Diogel ac Iach i'n prif gynulleidfa darged.

Digwyddodd llawer iawn o ymgysylltu a gweithgarwch amlasiantaethol wedi'i dargedu dros gyfnod y Nadolig.



## 4 Tanau Damweiniol yn y Cartref (TDC)

Aethpwyd i **231** o danau damweiniol mewn cartrefi, gostyngiad o 13.2% o 266. Mae hyn hefyd yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 280.



## 5 Prif achos tanau damweiniol yn y cartref

Roedd nifer o brif achosion tanau damweiniol mewn cartrefi yn ystod tri chwarter y flwyddyn ariannol. Gallai'r rhai sydd wedi dangos cynnydd y chwarter hwn fod yn gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, a'r costau sydd ynghlwm â gwresogi cartrefi erbyn hyn.


Er mai'r mwyaf cyffredin oedd 'Eitemau llosgadwy yn rhy agos at ffynhonnell gwres (neu dân)', roedd hyn yn dal i ddangos gostyngiad o 29.5% o 61 i **43**.

Roedd y prif achosion eraill lle gwelwyd gostyngiad yn cynnwys:

- 'Coginio – coginio arall' a oedd yn dangos gostyngiad o 16.7% o 48 i **40**.
- 'Nam ar offer neu beiriant', a oedd yn dangos gostyngiad sylweddol o 40.0% o 35 i **21**.

Er gwaethaf hyn, gwelodd ychydig o brif achosion gynydd yn ystod y chwarter hwn. Roeddent yn cynnwys:


- 'Cyflenwad tanwydd diffygiol – trydan', a gynyddodd 30.0% o 20 i **26**.
- 'Arall', a gynyddodd 10.5% o 19 i **21**.
- 'Defnydd esgeulus o offer neu ddyfais (ffynhonnell gwres)', a gynyddodd 130.0% o 10 i **23**.



## 6 Marwolaethau ac Anafiadau o Danau Damweiniol yn y Cartref

Cafodd cyfanswm o **35** o bobl anafiadau mewn **29** o Danau Damweiniol mewn Cartrefi lle cofnodwyd anaf o unrhyw fath. Ni chofnodwyd unrhyw farwolaethau yn ystod y cyfnod.

Mae nifer y bobl a anafwyd (gan gynnwys marwolaethau) o ganlyniad i Danau Damweiniol mewn Cartrefi wedi gostwng 43.5% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Mae nifer y Tanau Damweiniol mewn Cartrefi lle cofnodwyd anaf hefyd wedi gostwng 40.8%.



O'r **35** a anafwyd, roedd **23** (65.7%) wedi eu 'Llethu gan nwy, mwg neu fygdarthau gwenwynig; mygu', cafodd **pedwar** fân anafiadau llosgi, cafodd **tri** anafiadau llosgi difrifol, cafodd **dau** 'Anawsterau anadlu (heblaw 'llethu gan nwy, mwg neu fygdarthau gwenwynig; mygu)', cafodd **un arall** 'Gyfuniad o losgiadau a'u llethu gan nwy/mwg', ac roedd **un arall** wedi dioddef 'Sioc/Sioc Anaffylactig'. Cofnodwyd math o anaf yr **un** sy'n weddill fel 'Arall'.


## 7 Larymau Mwg – Tanau Damweiniol yn y Cartref

**Synwryddion:** roedd synwryddion mwg/gwres yn bresennol mewn **200** (86.6%) o danau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt.

Roedd larymau'n gweithredu ac wedi rhoi rhybudd mewn **139** (60.2%) o Danau Damweiniol mewn Cartrefi.

Nid oedd larymau wedi eu gosod mewn **31** o'r Tanau Damweiniol mewn Cartrefi yr aethpwyd atynt.

O'r **231** o Danau Damweiniol mewn Cartrefi yr aethpwyd atynt, roedd **206** wedi'u cyfyngu i'r ystafell lle cychwynnodd y tân, a **25** heb eu cyfyngu.



### Camau a gymerwyd i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i dân yn eu cartrefi:

Ymgysylltu'n helaeth â grwpiau penodol dros gyfnod y Nadolig: er enghraifft, cydweithio ag elusennau i ddanfôn anrhegion i bobl oedranus sy'n byw ar eu pennau eu hunain, trefnu nifer o foreau coffi ar draws yr ardal, mynd i fanciau bwyd, digwyddiadau elusennol ac ymgysylltu mewn canolfannau siopa penodol.

Cyflwynwyd neges diogelwch tân y Nadolig drwy gystadleuaeth gwneud poster hynod lwyddiannus gyda'r nod o ymgysylltu ag aelodau iau ein cymdeithas, a derbyniwyd dros 900 o geisiadau o bob rhan o ardal y Gwasanaeth.

Mae ailgysylltu parhaus ag asiantaethau cyfeirio yn parhau er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn derbyn atgyfeiriadau sydd wedi'u hanelu at y bobl hynny sydd fwyaf bregus o ran tanau.

Gweithgarwch ac ymgysylltiad helaeth gyda myfyrwyr prifysgol ar draws ardal y Gwasanaeth - mae hyn yn cynnwys "Sgyrsiau Cegin" gorfodol a ddarperir gan griwiau gweithredol o Orsaf Dâd Bangor. Mae gwaith yn mynd rhagddo i efelychu hyn yn Wrecsam.

Mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd wedi parhau i weithio gyda'r adran Cyfathrebu Corfforaethol i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo diogelwch tân, diogelwch ar y ffyrdd a diogelwch dŵr ar draws pob plattform cyfryngau.

### **Ymweliadau Addysgol ag Ysgolion**

- Ysgolion Cynradd yr ymwelwyd â hwy = 17 → 1,240 o ddisgyblion
- Ysgolion Uwchradd yr ymwelwyd â hwy (Criw Craidd) = tair → 450 o ddisgyblion
- Unedau Anghenion Arbennig yr ymwelwyd â hwy = un → chwech o ddisgyblion

### **Ffenics**

- Chwe chwrs gyda 46 yn bresennol.

### **Ymyriadau Cyneuwyr Tanau**

- Cyflwynwyd chwe sesiwn Firesafe gan Pentre Peryglon
- Cyflwynwyd un sesiwn Cynllun Ymwybyddiaeth Tân i Blant (FACE) yn fewnol


### **PentrePeryglon**

Bu 5,669 o bobl ifanc yn bresennol yn sgil y senario Diogelwch yn y Cartref hyd at ddiwedd chwarter tri.

## 8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig (GGA)

Aethpwyd i gyfanswm o **1,079** o alwadau gwasanaeth arbennig (gan gynnwys gwrthdrawiadau ar y ffordd). Mae hynny'n cynnydd o 1.9%.

Gostyngodd nifer y Gwrthdrawiadau ar y Ffordd yr aethpwyd atynt 6.6% i **185**.



Heblaw am Wrthdrawiadau ar y Ffordd, roedd y categorïau a welodd y **cynnydd** mwyaf o ran ein presenoldeb yn cynnwys:

- **394** o ddigwyddiadau 'Cynorthwyo asiantaethau eraill' - cynnydd o 14.9% o 343.
- **77** digwyddiad 'Achub/rhyddhau personau arall' – cynnydd o 54.0% o 50.
- **58** digwyddiad 'Rhyddhau o Liff' - cynnydd o 61.1% o 36.

Er gwaethaf hyn, gwelodd categorïau eraill **ostyngiad** yn nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt. Roeddent yn cynnwys:

- **65** digwyddiad 'Llifogydd' - gostyngiad o 37.5% o 104.
- **56** digwyddiad 'Sicrhau mynediad/allanfa' - gostyngiad o 35.6% o 87.

## **Camau gweithredu a gymerwyd hyd yma:**

### **Ymgyrch Ugain**

Yn ystod chwarter tri, rhoddwyd y cyflwyniad diogelwch ar ochr y ffordd i 622 o bobl a gafodd eu dal yn gyrru dros y terfyn cyflymder 20mya. Y ffigwr ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn yw 2,240.

### **Stori Olivia**

Cyflwynwyd Stori Olivia trwy gydol chwarter tri i brentisiaid Airbus, ac i fyfyrwyr yng Ngholeg Cambria, Llandrillo, Glynllifon, a Dolgellau.

Mae Stori Olivia yn parhau i gael ei chyflwyno gan Reolwyr Gwylfa Diogelwch Tân ac mae'n parhau i fod yn gyfredol ac yn hynod o effeithiol. Mae'r sesiynau yn aml yn cael eu cefnogi gan Heddlu Gogledd Cymru.

## 9 Archwiliadau Diogel ac Iach


Cwblhawyd cyfanswm o **15,055** o Archwiliadau Diogel ac Iach, ac o'r rhain:

- Roedd **3,742** (24.9%) yn archwiliadau Blaenoriaeth uchel, gyda **2,020** (54.0% o'r archwiliadau blaenoriaeth uchel a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner;
- Roedd **3,163** (21.0%) yn archwiliadau Blaenoriaeth ganolig, gyda **362** (11.4% o'r archwiliadau blaenoriaeth ganolig a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner.
- Roedd **8,150** (54.1%) yn archwiliadau Blaenoriaeth isel, gyda **527** (6.5% o'r archwiliadau blaenoriaeth isel a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner;

Cafodd cyfanswm o **2,909** o Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd eu cyfeirio at y Gwasanaeth gan Asiantaeth - mae hyn yn gyfystyr ag 19.3% o'r Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd.

Er y bu cynnydd o **4.1%** yn nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, bu gostyngiad o **17.3%** yn nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach blaenoriaeth uchel a gwblhawyd. Dyma'r nifer isaf o archwiliadau blaenoriaeth uchel a gynhaliwyd yn ystod y pum mlynedd ariannol ddiwethaf.

Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, mae'n amlwg bod yr Archwiliadau Diogel ac Iach blaenoriaeth isel a chanolig a gwblhawyd yn dal i fod yn werthfawr, ac mae cyfanswm yr archwiliadau blaenoriaeth isel a chanolig wedi tyfu o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd (cynnydd o 2.1% a 61.9% yn y drefn honno). Dyma'r nifer uchaf o archwiliadau isel a chanolig a gofnodwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf.





## **Camau gweithredu a gymerwyd hyd yma:**

Er mwyn cefnogi a datblygu rhagor ar y gwaith o ddarparu Archwiliadau Diogel ac Iach gan ein criwiau gweithredol, dechreuodd proses newydd yn ystod chwarter tri. Bydd aelodau'r fim atal yn awr yn mynd i o leiaf un sesiwn bob blwyddyn yn ystod y gweithgarwch atal dyddiol sydd wedi'i bennu ar gyfer yr Wylfa. Bydd hyn yn cynorthwyo wrth rannu gwybodaeth ac yn helpu i hyrwyddo'r arfer gorau.

Parhaodd staff atal gyda'u sesiynau ail-ymgysylltu gyda phartneriaid allanol – mae hyn er mwyn helpu i sicrhau mai dim ond yr atgyfeiriadau mwyaf penodol rydym yn eu derbyn ar gyfer Archwiliadau Diogel ac Iach. Mae enghreifftiau o'r rhai yr ymgysylltwyd â nhw yn ystod chwarter tri yn cynnwys Baywater, Therapyddion Galwedigaethol, cymdeithasau tai, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Age Connect, a Gofal a Thrwsio.

Bu cryn dipyn o weithgarwch atal cynhwysfawr dros gyfnod y Nadolig gan ymgysylltu â grwpiau penodol. Er enghraifft, boreau coffi ac ymweliadau â chanolfannau siopa penodol. Cefnogwyd banciau bwyd hefyd, yn ogystal â gweithgaredd ar y cyd ag elusennau yn helpu i ddanfôn arhegion i bobl fregus.

Mae datblygiad ein staff atal yn parhau yn unol ag Amcanion yr Adran gydag o leiaf 2 sesiwn 30 munud bob mis gan ddefnyddio darparwyr allanol a mewnol.

## **Camau Gweithredu Pellach:**

Bydd yr holl Reolwyr Partneriaethau yn parhau i ymgysylltu â gwylfeydd gweithredol.


# Ein Hegwyddor Diogelu




## 10 Galwadau Diangen

Aethpwyd at gyfanswm o **2,521** o alwadau diangen, sy'n gynnydd o 11.6%.

Cofnodwyd cynnydd ar draws pob categori o alwadau diangen, gyda chynnydd o 16.7% mewn Larwm Tân oherwydd cyfarpar (1,332 i **1,555**), cynnydd o 54.5% mewn Galwadau Diangen Maleisus (33 i **51**), a chynnydd o 2.3% mewn Galwadau Diangen Diffuant (894 i **915**). Mae'r holl categorïau galwadau diangen bellach ar eu lefelau uchaf o'i gymharu â'r pum mlynedd diwethaf.




Mae Tîm Rheoli'r Ystafell Reoli yn parhau i ddarparu canllawiau i Wylfeydd yr Ystafell Reoli ar yr arferion y mae angen cadw atynt wrth gofnodi'r categori o alwadau diangen.



## 11 Galwadau Larwm Tân Awtomatig Masnachol


Derbyniwyd **1,480** o alwadau System Larwm Awtomatig Masnachol yn ystod y cyfnod adrodd, sef y nifer uchaf o alwadau a dderbyniwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, aethpwyd i lai nag 1.0% ohonynt.

Er yr aethpwyd at 13 digwyddiad System Larwm Awtomatig Masnachol, cadarnhawyd gan Dîm Rheoli'r Ystafell Reoli bod pob un ac eithrio un o'r digwyddiadau yr aethpwyd atynt yn eiddo eithriedig h.y. safleoedd Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH) neu'r rhai â risg o gwsg ac ati. Yr un eithriad i hyn oedd eiddo a oedd yn cael ei ystyried yn wreiddiol yn ddomestig, ond fe'i nodwyd fel un masnachol tra oedd y peiriant ar y ffordd - felly caniatwyd i un peiriant barhau a mynd i'r digwyddiad. Mae digwyddiadau System Larwm Awtomatig Masnachol yr aethpwyd atynt yn cael eu gwirio'n fisol gan Dîm Rheoli'r Ystafell Reoli, ac fe gadarnhawyd, os yw'r Gwasanaeth yn mynd i ddigwyddiad System Larwm Awtomatig Masnachol, y bydd hynny naill ai oherwydd ei fod wedi'i eithrio neu oherwydd bod yr wybodaeth wedi newid ar ôl anfon peiriant allan.




## 12 Galwadau Larwm Tân Awtomatig Ysbytai

Derbyniwyd **275** o alwadau System Larwm Awtomatig Ysbyty, sy'n ostyngiad o 31.3% a'r nifer isaf o alwadau System Larwm Awtomatig ysbyty a dderbyniwyd yn y pum mlynedd diwethaf. Aethpwyd at **99**, gostyngiad o 42.8% o 173.



## 13 CEF Berwyn

Cafodd **48** o brif danau eu cynnau'n fwriadol yng Ngharchar y Berwyn, ac aethpwyd at **34** o'r rhain. Mae hyn 70.0% yn fwy na'r llynedd.



## **Camau gweithredu a gymerwyd hyd yma:**

### **GIG**

Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r GIG ar 22.01.2025 gyda'r Uwch Swyddog Ystadau ar gyfer Deddfwriaeth a Tân, ynghylch pob digwyddiad gan gynnwys larymau tân diangen. Cafwyd trafodaeth ar sut i leihau rhyngweithiadau dynol gan fod rhai rhyngweithiadau hawdd eu lleihau ar y galwadau a gawsom. Cynhaliwyd trafodaeth hefyd ar ddeddfwriaeth HTM a chydymffurfio â materion system a allai arwain at bresenoldeb GTAGC. Ar hyn o bryd mae tuedd tuag i lawr o ran galwadau, ond gellir lleihau'r rheini ymhellach drwy ddull cydweithredol a thrwy gydweithio. Cytundeb ar y cyd ar ffordd ymlaen i gyflwyno gweithio ar y cyd a phartneriaethau ar hyfforddiant DPP ac o bosibl hyfforddiant ffurfiol os bydd yr amgylchiadau'n caniatáu.

### **CEF Berwyn**

Cynhaliwyd cyfarfod ar 04.02.2025 gydag Arolygwr Ystadau'r Goron i drafod cynnydd yn nifer y digwyddiadau yng Ngharchar y Berwyn, a hefyd i drafod y rhaglen archwilio a rhan GTAGC yn y rhaglen honno.

Gellir priodoli y cynnydd mewn digwyddiadau i nifer o ffactorau, ond mae hyn yn bennaf oherwydd yr elfen ddynol ac yna'r ffactorau eilaidd yn amgylchedd y carchar megis cyfle/dioddefiaeth/eisiau symud carchardai/fêps ac eitemau trydanol eraill o fewn y gell y gellir eu defnyddio i ddod yn bwynt cynnau tân.

Rydym hefyd wedi cytuno, fel rhan o'r broses archwilio, ein bod yn cyflwyno mwy o swyddogion Cydymffurfiaeth a swyddogion Gweithredol i'r eiddo fel nad oes gennym un pwynt methiant/mwy o gydnerthedd rhyngom ni ac Ystadau'r Goron gan fod hyn wedi bod yn broblem ers nifer o flynyddoedd yn flaenorol.

Yn ystod y broses archwilio byddwn hefyd yn gofyn i Bennaeth Gorsaf Wrecsam gwrdd â'r fîm rheoli tân i drafod unrhyw faterion a sicrhau ansawdd yr arferion presennol i sicrhau gweithdrefnau gweithredu safonol cywir.

# Ein Hegwyddor Ymateb



## 14 Argaeledd Gorsaf System dyletswydd ar alwad

Mae'r tabl isod yn dangos faint o bympiau oedd ar gael ar gyfartaledd ar gyfer pob Gorsaf System dyletswydd ar alwad rhwng 06:00 a 18:00. Mae'r argaeledd wedi'i rannu fesul mis, ac yn dangos argaeledd yn ystod dyddiau'r wythnos ac ar benwythnosau/gwyliau banc.

Mae'r tabl yn cynrychioli'r holl wylfeydd system dyletswydd ar alwad nad ydynt wedi'u lleoli mewn gorsafoedd criwiau amser cyflawn neu griwiau dydd.

Argaeledd Gorsafoedd System dyletswydd ar alwad ar gyfartaledd 06:00-18:00				
Diwrnod/Mis	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr	Ch.3
Dyddiau yn yr Wythnos	4	5	6	5
Penwythnos (gan gynnwys Gwyliau Banc)	11	12	14	12
Cyfartaledd Cyffredinol	6	7	9	7

D.S. Mae'r niferoedd oedd ar gael wedi'u talgrynnu i lawr i'r rhif cyfan agosaf.

## 15 Argaeledd 18 Pwmp wedi'i Gynllunio

■ Argaeledd Pwmp 100% wedi'i gyraedd ■ Argaeledd Pwmp 100% heb ei gyraedd



Nifer y Diwrnodau Argaeledd Wedi'i Gynllunio a Gyflawnwyd	
<b>Bodlonwyd Nifer y Pymplau Oedd ar Gael 100%</b>	
Dyddiau yn yr Wythnos	64
Penwythnos/Gŵyl Banc	28
<b>Ni Fodlonwyd Nifer y Pymplau Oedd ar Gael 100%</b>	
Amh	0


## 16 Technolegau Datblygol

Wrth i dechnoleg esblygu a'n dibyniaeth gymdeithasol arni gynyddu, mae wedi dod yn amlwg bod y Gwasanaeth Tân yn wynebu risgiau newydd a chymhleth. Gall technolegau datblygol fod ar sawl ffurf, gan gynnwys pethau megis:

- Cerbydau Trydan
- Ffermydd Gwynt
- Dyfeisiau sy'n cynnwys Batris Ïon-Lithiwm

Gan nad yw llawer o'r technolegau hyn wedi'u cynnwys ar hyn o bryd o fewn System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) y Swyddfa Gartref, cynhelir chwiliadau geiriau allweddol ar logiau digwyddiadau er mwyn dod o hyd i'r digwyddiadau perthnasol. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Swyddfa Gartref a'r Gwasanaethau Tân ac Achub ledled y DU i integreiddio'r technolegau hyn i'w system cofnodi digwyddiadau newydd, y Llwyfan Data Tân ac Achub (FaRDaP), gyda'r bwriad o gasglu'r data hwn o ddechrau Ch2 yn 2025/26. Bydd dal angen defnyddio chwiliadau geiriau allweddol i dynnu gwybodaeth am ddigwyddiadau a gofnodwyd cyn y cyfnod hwn.

Mae'r tabl isod yn crynhoi digwyddiadau yr aethpwyd atynt yn ymwneud â thechnolegau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r data hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Hydref 2024 a Rhagfyr 2024 ac mae'n cynnwys pob categori o ddigwyddiad.




D.S. Mewn rhai achosion, mae'r achos wedi'i ragdybio yn hytrach na'i gadarnhau oherwydd natur y digwyddiad.

# Ein Hegwyddor Amgylcheddol




## 17 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau

Cofnodwyd **162** o danau glaswelltir, coetir a chnydau, gostyngiad o 21.4% o 206. Mae hyn 45.8% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd, sef 299.



## 18 Tanau gwyllt


Aethpwyd at **bum** tân gwyllt, gostyngiad o 61.5%, a 75.0% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 20. O ganlyniad, gostyngodd yr amser a dreuliwyd yn monitro digwyddiadau tanau gwyllt i ychydig dros 232.5 awr, o'i gymharu â bron i 477 awr yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol.





## 19 Llifogydd

Aethpwyd at **65** o ddigwyddiadau llifogydd, gostyngiad o 37.5% o'i gymharu â 104, a dau yn llai o ddigwyddiadau na'r cyfartaledd 3 blynedd o 67.




Rhoddwyd cyngor mewn **30** digwyddiad, ac fe aethpwyd at **12** o ddigwyddiadau er mwyn gwneud y lleoliad yn ddiogel.

## Geirfa

Tanau	Mae pob tân yn perthyn i un o dri chategori – prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai.
Prif Danau	<p>Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simnai, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau a threlars, storfeydd awyr agored, peiriannau ac offer, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr agored eraill megis pontydd, blychau post, twneli, ac ati.</p> <p>Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categoreiddio'n brif danau os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achub neu ddianc, yn ogystal â thanau mewn unrhyw leoliad yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân atynt.</p>
Tanau Eilaidd	<p>Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.</p> <p>Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a byddai pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.</p> <p>Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, mewn coeden unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried – yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth – i fod yn brif danau), dodrefn awyr agored, goleuadau traffig, ac ati.</p>
Tanau Simnai	<p>Tanau mewn adeiladau a ddefnyddir gan bobl yw'r rhain, a'r tân wedi'i gyfyngu i strwythur y simnai, hyd yn oed os yw gwres neu ddifrod mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.</p> <p>Nid yw tanau simnai yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a byddai pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.</p>
Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig	<p>Digwyddiadau heb dân yw'r rhain lle mae angen presenoldeb peiriant tân neu swyddog ac maent yn cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Argyfyngau lleol, e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffordd, achub personau, 'gwneud yn ddiogel' ac ati;</li> <li>Trychinebau mawr;</li> <li>Digwyddiadau domestig, e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati;</li> <li>Trefniadau blaenorol i fynd at ddigwyddiadau, a all gynnwys rhoi cyngor a chynnal archwiliadau.</li> </ol>
Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol)	<p>Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i leoliad yn credu bod digwyddiad, ond ar ôl cyrraedd yn darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, neu wedi bodoli.</p> <p>Sylwer: os yw'r peiriant tân yn cael ei 'droi rownd' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, nid yw'n cael ei ystyried fel un mae'r gwasanaeth wedi mynd ato ac nid oes angen rhoi gwybod amdano.</p>

Galwadau Diangen – Maleisus	Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd at ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys bwriadau maleisus bwriadol ac amheus.
Galwadau Diangen – Diffuant	Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda phob ewyllys da, gan gredu y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd at dân go iawn neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig.
Galwadau Diangen – LTA	Mae'r rhain yn alwadau sydd wedi'u cychwyn gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm wedi'i gychwyn yn ddamweiniol neu pan fo larwm yn gweithredu a pherson yn galw'r GTA yn rheolaidd fel rhan o drefniant sefydlog, h.y. heb unrhyw 'farnu', er enghraifft galwad gan ganolfan alwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad.
Adeilad – Cartrefi	Eiddo sy'n fan preswyllo, h.y. sy'n aelwyd lle mae pobl yn byw, ac eithrio gwestai, hosteli a strwythurau preswyllo nad ydynt yn barhaol.
Adeilad – Dibreswyl	Eiddo megis ysbytai, swyddfeydd, siopau, ffatrioedd, warysau, bwytai, sinemâu, adeiladau cyhoeddus, adeiladau crefyddol, adeiladau amaethyddol, gorsafoedd rheilffordd, siediau, neu garchardai.
Adeilad – Preswyl Arall	Eiddo megis gwestai, hosteli a sefydliadau preswyl, busnesau gwely a brecwast, cartrefi nyrsio/gofal, neuaddau preswyl myfyrwyr.
Cerbyd (Ffordd a Thrafnidiaeth Arall)	Cerbyd ffordd, cerbyd rheilffordd, cerbyd awyr, cwch.
Awyr agored	Caeau, glaswelltir, coetir, cynwysyddion sbwriel, blychau post.
Tanau gwyllt	Tân glaswelltir, coetir a chnydau lle'r aeth 4 cerbyd neu fwy at y digwyddiad, neu le bu'r Gwasanaeth yn bresennol am 6 awr neu fwy, neu le amcangyfrifwyd bod ardal difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr.
Salwch Tymor Byr (STS)	Absenoldebau 27 diwrnod calendr a llai.
Salwch Hirdymor (LTS)	Absenoldebau 28 diwrnod calendr a mwy.

Adroddiad i	<b>Y Panel Gweithredol</b>	
Dyddiad	<b>17 Mawrth 2025</b>	
Swyddog Arweiniol	<b>Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol</b>	
Swyddog Cyswllt	<b>Sandra Williams, Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid</b>	
Pwnc	<b>Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025/26</b>	

## PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi trosolwg o'r adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025/26 a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cysylltiedig ac i geisio cymeradwyaeth i'r fersiwn derfynol o'r dogfennau uchod.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 O dan Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru 2016, un o'r prif amcanion ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yw i fynd ati'n barhaus ac mewn modd cynaliadwy i leihau risg a gwella diogelwch dinasyddion a chymunedau.
- 3 Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wneud trefniadau ar gyfer gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau, drwy osod amcanion gwella iddo'i hun ym mhob blwyddyn ariannol yn erbyn o leiaf un o saith swyddogaeth. Mae'n rhaid ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch yr amcanion hyn.
- 4 Mae'n ofyniad statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i Gyrff Cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant blynyddol ac adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion llesiant.
- 5 Mae Cylchlythyr Tân ac Achub Llywodraeth Cymru W-FRSC(2024)06 yn cadarnhau y gellir cyflawni'r dyletswyddau o dan Fesur 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy gyhoeddi un adroddiad.

- 6 Dyma'r ail Gynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol a ddatblygwyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yr Awdurdod 2024-2029. Nod y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yw nodi risgiau sy'n wynebu'r gymuned ac mae'n disgrifio sut y bydd yr Awdurdod yn rheoli'r risgiau hynny, ac yn parhau i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill. Ysgrifennwyd yr amcanion i ystyried gofynion y ddau ddarn o ddeddfwriaeth y cyfeiriwyd atynt uchod.
- 7 Roedd y lefelau ymateb 25% yn uwch (223 i 279) nag ymgynghoriad cyhoeddus 2024-25, er bod llai o ymatebwyr (7 i lawr o 48) wedi datgan eu bod yn aelodau o staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).
- 8 Roedd y gefnogaeth ar gyfer yr amcanion gwella a llesiant arfaethedig yn gyson uchel ar draws pob un o'r pum egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel, gan amrywio rhwng 99% a 96%.
- 9 Rhannwyd sylwadau gair am air gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad gyda'r Penaethiaid Adran perthnasol, neu'r arbenigwr pwnc, i'w hadolygu ac i ystyried pa effaith, os o gwbl, a gaiff yr adborth ar eu hamcanion arfaethedig ar gyfer 2025-26.
- 10 Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i unrhyw un o'r amcanion o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus.
- 11 Mae undebau llafur wedi bod yn ymwneud â datblygu'r amcanion llesiant fel rhan o'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol ac yn y Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi ym mis Chwefror 2025 cytunodd cynrychiolwyr yr Undebau Llafur a oedd yn bresennol fod consensws wedi'i gyrraedd ar yr amcanion.

## **ARGYMHELLIAD**

- 12 Argymhellir bod yr Aelodau'n:
  - i) **Nodi cynnwys yr adroddiad adborth; ac yn**
  - ii) **cymeradwyo Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025-26 sydd wedi'i atodi a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cysylltiedig i'w cyhoeddi.**

## **CEFNDIR**

- 13 Bydd yr Awdurdod yn adrodd ar ei gynnydd yn erbyn amcanion Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-25 yn ei Asesiad Perfformiad Blyneddol yn Hydref 2025.

## **GWYBODAETH**

- 14 Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod ar gyfer 2025-26 ar agor rhwng 21 Hydref ac 16 Rhagfyr 2024.
- 15 Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol drafft 2025-26, a fersiwn hawdd ei ddarllen, yn y Gymraeg ac yn Saesneg, ar wefan y Gwasanaeth. Cyhoeddwyd hefyd Asesiad o Effaith y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol ar Gydraddoldeb.
- 16 Cafodd ymatebwyr wahoddiad i lenwi holiadur yn nodi a oeddent yn cytuno y byddai'r amcanion arfaethedig yn cyflawni yn erbyn 'Ein Pum Egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel' ai peidio. Gwahoddwyd ymatebwyr i ychwanegu sylwadau i gefnogi eu barn.
- 17 Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ar-lein, yn fewnol ar Hwb Tân, ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy hysbysebion y talwyd amdanynt yn y wasg ysgrifenedig.
- 18 Argraffwyd taflenni dwyieithog gyda Chod QR arnynt, gan hwyluso mynediad uniongyrchol a hawdd i holiadur yr arolwg ar-lein, ac fe'u dosbarthwyd yn ystod ymweliadau Archwiliad Diogel ac Iach a digwyddiadau ymgysylltu.
- 19 Crëwyd cyfeiriad e-bost dwyieithog pwrpasol i hwyluso ceisiadau am wybodaeth ychwanegol neu holiaduron papur. Crëwyd rhif ffôn symudol pwrpasol i ymateb i unrhyw ymholiadau na ellid eu cyflwyno drwy e-bost.
- 20 Anfonwyd llythyrau, yn enw'r Cadeirydd, at bawb ar y Gofrestr Rhanddeiliaid yn eu gwahodd i gymryd rhan.
- 21 Trefnodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ddigwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb penodol gyda gwahanol grwpiau buddiant ym maes cydraddoldeb.
- 22 Gellir gweld y sylwadau gair am air yn atodiadau Adroddiad yr Ymgynghoriad.

## GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025-26 yn cynnwys datganiad Llesiant fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.
Cyllideb	Amherthnasol
Cyfreithiol	Mae Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025-26 wedi'i baratoi yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.
Staffio	Dim
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i baratoi a'i ddiweddarau yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.
Risgiau	Mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yn cefnogi trefniadau rheoli risg yr Awdurdod.



Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol

Amcanion Llesiant a Gwella  
2025 – 2026



Ein pum egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel – dweud eich dweud

POBL

ATAL

DIOGELU


YMATEB

AMGYLCHEDD



# Cynnwys

Cyflwyniad	3
Ein Gwasanaeth	3
Ein Staff	4
Ardal Ein Gwasanaeth	4
Ein Llywodraethu a Deddfwriaeth	5
Ein Risgiau a'r Galw	7
Ein Hegwyddorion	7
Ein Hegwyddor Pobl	8
Ein Hegwyddor Atal	10
Ein Hegwyddor Diogelu	11
Ein Hegwyddor Ymateb	12
Ein Hegwyddor Amgylcheddol	13
Nodau Llesiant Cymru – Sut rydym yn cyfrannu	14
Sut i Roi Adborth	17



Pobl

Atal

Diogelu

Ymateb

Amgylchedd

# Cyflwyniad



Un o'r prif amcanion ar gyfer gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru yw mynd ati'n barhaus ac mewn modd cynaliadwy i leihau risg ac i wella diogelwch dinasyddion a chymunedau.

Nod y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) yw nodi'r risgiau sy'n wynebu'r gymuned, ac mae'n disgrifio sut y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn rheoli'r risgiau hynny ac yn parhau i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill.

Ym mis Gorffennaf 2024, cafodd ein CRMP pum mlynedd ei gyhoeddi, yn sgil ymgynghoriad â'r cyhoedd, yn ogystal â'n Cynllun Gweithredu ar gyfer 2024-25, a oedd yn cynnwys amcanion gwella a llesiant a fyddai yn ein galluogi i gyflawni yn erbyn ein hamcanion hirdymor. Mae'r ddau gynllun i'w cael [yma](#).

Y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol ar gyfer 2025-26 yw'r ail gynllun blynyddol i gynnwys amcanion sy'n cyflawni yn erbyn amcanion CRMP 2024-29.

## Ein Gwasanaeth

Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn cynnwys 28 o gynghorwyr etholedig o chwe awdurdod unedol Gogledd Cymru, gyda nifer y cynrychiolwyr yn cael eu pennu gan boblogaeth yr ardal. Ein cenhadaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn ardal ddiogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi. Gallwch ddarllen mwy am ein strwythur a'n trefniadau llywodraethu, gan gynnwys rôl yr Awdurdod Tân ac Achub, [yma](#).

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei arwain gan Brif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Mae'r tîm hwn yn cynnwys uwch swyddogion a rheolwyr sy'n gyfrifol am adrannau sy'n gofalu am swyddogaethau gweithredol a chorfforaethol allweddol ein Gwasanaeth.



Pobl

Atal

Diogelu

Ymateb

Amgylchedd

# Ein Staff

Mae ein diffoddwyr tân yn ymateb i danau, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd ac argyfyngau eraill o 44 o orsafoedd tân ar draws Gogledd Cymru. Mae gennym 54 injan dân. Mae gan rai o'n gorsafoedd tân ddwy injan dân. Mae gan orsafoedd eraill gerbydau arbenigol fel peiriannau ag ysgol ac esgynlawr, cerbydau cefnogi digwyddiadau neu gychod, yn dibynnu ar y risg yn eu hardal.


Gallwch ddarllen mwy am waith y rhai sy'n ymateb i argyfyngau a'r bobl sy'n sicrhau bod y Gwasanaeth yn rhedeg yn dda, boed nhw'n ddiffoddwyr tân neu'n arbenigwyr busnes, [yma](#).



# Ardal Ein Gwasanaeth

Mae Gogledd Cymru yn ardal o 6,172 cilomedr sgwâr sydd â phoblogaeth o 687,000, ac sydd â chryn amrywiaeth yn ei thirwedd, gan gynnwys mynyddoedd Parc Cenedlaethol Eryri, ardaloedd arfordirol, cymunedau gwledig ac ardaloedd trefol mawr.

Mae gogledd Cymru'n cynnwys chwe sir: Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r A55 yn rhedeg trwy bump o'r chwe sir, ac mae'n ffordd sy'n rhan o un o'r llwybrau hiraf yn Ewrop, gan ymestyn o Gaerdybi i Ddwyrain Ewrop. Gallwch ddarllen mwy am ein daearyddiaeth a'n demograffeg [yma](#).



# Ein Llywodraethu a Deddfwriaeth

Fel pob corff arall yn y sector cyhoeddus, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru weithredu yn unol â nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth. Gallwch ddarllen mwy am y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu ein Gwasanaeth [yma](#).

Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wneud trefniadau ar gyfer gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau, a hynny trwy osod amcanion gwella iddo'i hun ym mhob blwyddyn ariannol yn erbyn o leiaf un o saith swyddogaeth.

Ymhellach, mae'n rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ymgynghori â'r cyhoedd ar ei amcanion gwella arfaethedig. Roedd y cynllun hwn yn agored i'r cyhoedd a rhanddeiliaid ymgynghoriad rhwng 21 Hydref a 16 Rhagfyr 2024.


Mae asesiad o'n perfformiad yn erbyn ein hamcanion llesiant a gwella blaenorol i'w gael yn ein Hasesiad Perfformiad Blynyddol 2023-24, [yma](#).

Mae ein hamcanion ar gyfer 2025-26 hefyd wedi'u datblygu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Datganiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Rydym wedi ymroi i gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan groesawu'r dyletswyddau a'r gwaith a ddaw o fod yn bartner statudol ar draws tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Rydyn ni'n deall diben a nod y Ddeddf, ac rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn ystyried effaith hirdymor ein penderfyniadau ar gymunedau ardal y Gwasanaeth.

O ganlyniad, pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau, byddwn yn ystyried effeithiau posibl y penderfyniadau hyn ar y bobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru, yn awr ac yn y dyfodol. Hefyd, byddwn yn cofio bod angen ystyried amrywiaeth cyfoethog y bobl sy'n byw, sy'n gweithio, ac sy'n ymweld â Gogledd Cymru, a byddwn yn parhau i gydweithio ag eraill er mwyn helpu'r Awdurdod i wireddu ei Amcanion a, pan fo'n berthnasol, i helpu eraill i wireddu eu hamcanion hwy.



# Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

Daeth Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 i rym ar 1 Ebrill 2024 ac mae'n gosod partneriaeth gymdeithasol ar sail statudol yng Nghymru, gan ategu'r dyletswyddau llesiant presennol.

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub geisio consensws neu gyfaddawdu â'u hundebau llafur cydnabyddedig, wrth osod eu hamcanion llesiant a gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

Er mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i'r ddeddfwriaeth fod ar waith, mae staff wedi cael eu hannog o'r blaen i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Y Cydbwyllgor Ymgynghori a Thrafod (JCNC) yw'r fforwm lle mae'r Undebau Llafur cydnabyddedig yn cwrdd â'r Prif Swyddog arweiniol yn chwarterol ac yng nghyfarfod mis Awst trafodwyd yr amcanion ac ymgynghorodd cynrychiolwyr ar gam ffurfiannol y broses.

Cafwyd diweddariadau pellach yn dilyn diwedd yr ymgynghoriad cyhoeddus a rhoddwyd digon o wybodaeth i gynrychiolwyr undebau llafur ystyried yr amcanion arfaethedig a digon o amser iddynt ymateb.

Cyflwynwyd fersiwn ddrafft derfynol y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol i JCNC ar 8 Ionawr ar gyfer consensws ffurfiol cyn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar 17 Mawrth 2025.



Pobl

Atal

Diogelu

Ymateb

Amgylchedd



## Cymru Lewyrchus

Trwy ein **Hegwyddorion Atal a Diogelu**, byddwn yn gwneud gwaith arloesol i gadw pobl yn fwy diogel yn eu cartrefi a'u busnesau. Trwy leihau'r costau sy'n gysylltiedig â marwolaethau, difrod, anafiadau a tharfu yn sgil tân, byddwn yn gwella ein cefnogaeth i economïau lleol Gogledd Cymru.



## Cymru Gydnerth

Mae ein **Hegwyddor Amgylcheddol** a'n hamcanion sylfaenol yn cyfrannu tuag at greu Cymru Gydnerth trwy fabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon. Trwy ein **Hegwyddor Amddiffyn** byddwn yn ymdrechu i leihau'r nifer o danau gwyllt, a thrwy hynny wella ansawdd aer a gwarchod cynefinoedd naturiol ac ecosystemau.



## Cymru Sy'n Fwy Cyfartal

Gyda'n **Hegwyddor Pobl**, byddwn yn recriwtio, yn datblygu ac yn cadw gweithlu medrus, dwyieithog, llawn cymhelliant sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Byddwn hefyd yn nodi potensial staff ac yn gwneud y mwyaf ohono drwy reoli a datblygu pobl yn effeithiol, gan arwain at ddiwylliant o berfformiad uchel, lle mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn parchu ei gilydd, a thrwy hynny gyfrannu at Gymru sy'n fwy Cyfartal. Byddwn yn parhau i ymgynghori â staff, undebau llafur a'r cyhoedd ar faterion a chynigion statudol a allai gael effaith sylweddol ar y gwasanaethau a ddarparwn i'r cyhoedd.



## Cymru Iachach

Byddwn yn cyfrannu at greu Cymru Iachach gyda'n **Hegwyddor Atal**, trwy ddarparu archwiliadau diogel ac iach i'r dinasyddion sydd fwyaf agored i niwed, a thrwy wneud i bob cyswllt gyfrif trwy rannu unrhyw bryderon iechyd a llesiant a nodir gyda phartneriaid perthnasol.

Trwy gynnal ymgyrchoedd aml-asantiaethol, ar sail gwybodaeth, sy'n targedu'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod mewn Gwrthdrawiadau ar y Ffordd neu ddigwyddiadau boddi mewndirol, byddwn yn lleihau'r risg o farwolaeth ac anafiadau difrifol.

Trwy ein **Hegwyddor Pobl** byddwn yn cefnogi ein gweithlu i fod yn ffit yn gorfforol ac yn wydn yn feddyliol, a thrwy ein **Hegwyddor Ymateb** byddwn yn gwella darpariaeth frys yn ein hardaloedd mwy gwledig a llai poblog.



## Gymru o Gymunedau Cydlynus

Trwy ein **Hegwyddorion Atal, Diogelu, Ymateb ac Amgylcheddol** byddwn yn cyfrannu at greu Cymru o Gymunedau Cydlynus, gan sicrhau bod tanau mewn cartrefi, busnesau neu ar dir agored naill ai'n cael eu hatal, neu trwy leihau eu heffaith cymaint ag sy'n bosibl.



Pobl

Atal

Diogelu

Ymateb

Amgylchedd



## Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Bydd ein **Hegwyddor Pobl** yn cyfrannu at greu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a hynny trwy gynnig mynediad at ein gwasanaethau trwy'r Gymraeg a thrwy ganiatáu i bobl gyfathrebu â ni yn y Gymraeg, gan gefnogi ein staff i siarad eu hiaith ddewisol yn y gweithle a chynnig cyfleoedd i staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg.



## Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Trwy ein **Hegwyddor Amgylchedd**, byddwn yn chwarae ein rhan mewn Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang. Byddwn yn lleihau ein hallyriadau carbon ein hunain trwy newid ein ffylod o Injanau Tân diesel fel eu bod yn rhedeg ar Olew Llysiau wedi'i Drin â Hydrogen, trwy brynu ceir a faniau allyriadau sero neu isel iawn yn unig, a thrwy gael gwared ar wres nwy a Nwy Petrolwim Hylif o'n hystad yn raddol.

Gyda'n **Hegwyddorion Atal a Diogelu**, byddwn yn sicrhau bod Gogledd Cymru yn ddiogel drwy gynnal gweithgareddau ataliol, a hynny gan flaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau a thrwy fod yn barod i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn y Gofrestr Risg Cymunedol.

Trwy ein gwaith **Diogelu**, byddwn yn ceisio osgoi neu gyfyngu ar allyriadau o nwyon niweidiol i'r atmosffer o ganlyniad i danau gwastraff diwydiannol neu amgylcheddol.

Trwy ein **Hegwyddor Diogelu**, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid lleol i gadw safleoedd ac adeiladau treftadaeth yn ddiogel rhag tân.

# Ein Risgiau a'r Galw

Mae'r gwaith o gyflawni ein hamcanion blwyddyn wedi'i gynllunio i liniaru rhai o'r risgiau a nodwyd fel rhan o ddatblygiad ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol. Gallwch ddarllen am sut rydym yn asesu risg a galw [yma](#).

# Ein Hegwyddorion

Mae ein Gwerthoedd Craidd wedi ein tywys tuag at fabwysiadu pum Egwyddor. Trwy'r egwyddorion hyn, byddwn yn darparu gwasanaethau arloesol o ansawdd uchel i'n cymunedau ac i'r bobl sy'n ymweld â Gogledd Cymru ac yn gweithio yma. Datblygwyd ein Hegwyddorion yn dilyn ymgynghoriad mewnol a byddant yn ein cynorthwyo i liniaru'r risgiau i'n cymunedau ac yn ein helpu i ganolbwyntio ar wella o fewn ein Gwasanaeth dros y pum mlynedd nesaf. Gallwch ddarllen mwy am ein Hegwyddorion [yma](#).



Pobl

Atal

Diogelu

Ymateb

Amgylchedd

## Ein Hegwyddor Pobl



***Bod yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, gyda'r sgiliau cywir.***

Sicrhau gweithlu medrus iawn drwy recriwtio, datblygu a chadw gweithlu dwyieithog, llawn cymhelliant sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

### **Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2025–26?**

- Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys darparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a thrwy hyrwyddo gweithgareddau, yn unol â'n hymrwymiad i fod yn sefydliad dwyieithog.
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu ar gyfer gwella, yn dilyn arolwg staff Teulu Tân 2023.
- Cynllunio a chynnal arolwg staff Teulu Tân 2025.
- Cyfathrebu canfyddiadau adolygiad diwylliannol annibynnol CREST i staff a rhanddeiliaid allanol, a gweithio gyda staff i ddatblygu a gweithredu sut rydym yn ymateb, yn seiliedig ar argymhellion yr adroddiad, i gryfhau a gwella ein diwylliant yn y gweithle ymhellach.
- Parhau i gynnal proses gadarnhaol a chefnogol i wella presenoldeb, a hynny trwy ddarparu cymorth iechyd a lles galwedigaethol rhagorol.
- Trawsnewid y Gwasanaeth a'i adnoddau er mwyn llywio'r galw am bobl a sgiliau yn y dyfodol, ac i alluogi'r Gwasanaeth i ddatblygu ac i adeiladu yn effeithlon ar y gweithlu presennol ac ar lwyfannau presennol er mwyn ateb y galw hwnnw.
- Mynd i'r afael â phroffil seiberddiogelwch systemau'r Gwasanaeth a'i gynnal, gan alinio â bygythiadau seiber sy'n esblygu.
- Darparu hyfforddiant technegol, sy'n cynnwys cyflwyno ymgyrch gwe-rwydo, hyfforddiant seiber, a hyfforddiant TG pwrpasol.
- Ysgrifennu Adroddiad Partneriaeth Gymdeithasol a gaiff gymeradwyaeth yr Awdurdod Tân, a hynny er mwyn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru.





- Parhau â'r gwaith a wnaed gan y Grŵp Halogyddion mewn perthynas â'r halogyddion tân a grëir gan yr holl danau, ac i ddatblygu'r arferion gorau a geir o ddysgu Rhanbarthol a Chenedlaethol.
- Datblygu Strategaeth Hyfforddiant a Datblygu 2026-2029.
- Parhau i feithrin diwylliant cynhwysol yn y gweithle sy'n grymuso pob aelod o staff i ragori ac i fodloni anghenion amrywiol ein cymunedau yn effeithiol.
- Datblygu a chyflawni gofynion Deddf Caffael 2023.
- Nodi a gweithredu gwelliannau digidol i effeithlonrwydd swyddogaeth y gyflogres.
- Datblygu'r broses cynllunio ariannol.
- Monitro canlyniadau trawsnewid a rheoli newid.

### **Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009;**

- Effeithiolrwydd Strategol, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd



Pobl

Atal

Diogelu

Ymateb

Amgylchedd

# Ein Hegwyddor Atal



## ***Gweithio gyda phartneriaid i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel.***

Lleihau'r risgiau i'n cymunedau, yn enwedig i'r bobl hynny a allai fod yn fwy agored i niwed, drwy ein rhaglenni ymyrraeth sefydledig fel Archwiliadau Diogel ac Iach a Phrosiect Ffenics.

## **Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2025-26?**

- Defnyddio data uchel o ran ei ansawdd i gefnogi gweithgareddau diogelwch tân, yn enwedig y dull newydd sy'n seiliedig ar risg, i nodi ac i gynnal o leiaf 17,500 o Archwiliadau Diogel ac Iach lefel uchel.
- Darparu ymyriadau diogelwch yn y cartref sy'n seiliedig ar wybodaeth ac sy'n targedu'r preswylwyr mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Byddwn yn cyflawni 12 ymgyrch aml-asiantaethol wedi'u targedu ar draws Gogledd Cymru.
- Datblygu cynlluniau ar gyfer ardaloedd lleol yn unol â Chynllun Rheoli Risg Cymunedol 2025-29.
- Cynnal 12 o ymgyrchoedd aml-asiantaethol sy'n seiliedig ar wybodaeth ac sy'n targedu'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod mewn Gwrthdrawiadau ar y Ffordd neu ddigwyddiadau boddi mewndirol.
- Darparu pecynnau ymyrraeth gynnar pwrpasol sydd wedi'u hachredu gan Ymddiriedolaeth y Tywysog, gan ddefnyddio dull sy'n ystyriol o drawma er mwyn meithrin plant a phobl ifanc sy'n fwy diogel, sy'n gryfach ac yn fwy gwydn.
- Darparu 12 o ddigwyddiadau Datblygu Proffesiynol Parhaus i staff drwy gydol y flwyddyn, a hynny er mwyn meithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, gan eu galluogi i wasanaethu eu cymunedau lleol yn well.

## **Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009;**

- Effeithiolrwydd Strategol, Ansawdd y Gwasanaeth, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd.



# Ein Hegwyddor Diogelu



## **Gwneud busnesau'n fwy diogel gyda'n gilydd.**

Darparu canllawiau arbenigol i fusnesau ar ddiogelu rhag tân i helpu i sicrhau diogelwch adeiladau, gweithwyr a chwsmeriaid, a thrwy hynny gefnogi busnesau i dyfu. Mae adeiladau risg uchel yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiadau, gan gyfrannu at ddiogelwch y cyhoedd yn gyffredinol.

## **Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2025-26?**

- Datblygu pob swyddog goruchwyllo a swyddogion ar y system dyletswydd hyblyg i fod ar Lefel 2 mewn Diogelwch Tân Busnes.
- Parhau i ddarparu Rhaglen Arolygu Seiliedig ar Risg sy'n defnyddio gwybodaeth er mwyn lleihau'r nifer o anafiadau a marwolaethau sy'n digwydd o ganlyniad i danau mewn eiddo domestig ac annomestig.
- Cynnal ymgyrchoedd misol i roi sicrwydd ynghylch diogelwch tân i fusnesau er mwyn hyrwyddo diogelwch mewn eiddo masnachol.
- Gweithio gydag asiantaethau partner a chynnal ymyriadau a digwyddiadau tymhorol er mwyn rheoli ein tirwedd ac i leihau'r nifer o danau gwyllt sy'n digwydd.

## **Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009;**

- Effeithiolrwydd Strategol, Ansawdd y Gwasanaeth, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd.



# Ein Hegwyddor Ymateb



## **Darparu ymateb brys effeithiol.**

Bod yn barod i ymateb pan fydd arnoch ein hangen: i ddiogelu'r hyn sy'n bwysig i chi, i achub bywydau, lleihau niwed, ac amddiffyn cartrefi a busnesau.

## **Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2025-26?**

- Dylunio, caffael a dosbarthu offer diffodd tân gyda gwelliannau a fydd yn darparu datrysiad caban glân, gan leihau'r risg, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, o halogion yn dod i gysylltiad â'n diffoddwyr tân.
- Gosod Mesuryddion Llif ar beiriannau pwmpio, mewn ymateb i'r hyn a ddysgwyd yn sgil Grenfell, ac argymhelliad gan Brif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru.
- Arwain a chydlynu gwaith i uwchraddio systemau technoleg ar draws y Gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn seiber-ddiogel ac yn addas i'r diben.
- Cefnogi a gweithredu'r penderfyniadau a'r argymhellion a wneir gan Weithgor Darpariaeth Frys yr Awdurdod Tân.
- Cynyddu'r sefydliad o weithwyr ar alwad er mwyn gwella argaeledd peiriannau ar draws y rhanbarth.
- Creu amserlen o ymarferion yn unol â phroffil risg Gogledd Cymru y Fforwm Cydnerthedd Lleol.
- Cynnal adolygiad o'n fflyd o beiriannau arbennig i sicrhau eu bod yn parhau'n addas i gwrdd â'r proffil risg/galw yn awr ac yn y dyfodol.
- Parhau â'r ymateb ymgynghorol aml-asiantaethol ac i wneud gwaith rheoli risg ar gyfer systemau storio ynni a batris mawr.
- Parhau i gyflwyno'r achos busnes ar gyfer Canolfan Hyfforddiant a Datblygu Newydd.
- Adolygu a gweithredu argymhellion perthnasol adroddiad cam 2 ymchwiliad Tŵr Grenfell, i wella parodrwydd gweithredol ac ymateb, hyfforddiant diffoddwyr tân a diogelwch diffoddwyr tân.
- Parhau â'r rhaglen Tyrau Hyfforddi newydd.

## **Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009;**

- Effeithiolrwydd Strategol, Ansawdd y Gwasanaeth, Argaeledd y Gwasanaeth, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd.



Pobl

Atal

Diogelu

Ymateb

Amgylchedd

# Ein Hegwyddor Amgylcheddol



## **Diogelu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**

Mabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol eraill a chodi ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff a'n cymunedau.

## **Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2025–26?**

- Adolygu eitemau stoc a datblygu arferion gwaith gorau er mwyn gwella effeithlonrwydd a sut y rheolir lefelau stoc.
- Ehangu'r rhwydwaith presennol o Fannau Gwefru Cerbydau Trydan (EVCP) ar draws y Gwasanaeth.
- Caffael cerbydau ysgafn er mwyn cadw'r proffil oedran ar lefel resymol ac i sicrhau bod ein fflyd o gerbydau ysgafn yn ddibynadwy, yn cyrraedd y safonau diogelwch diweddaraf ar gyfer ein staff, ac mor effeithlon ag sy'n bosibl o ran yr amgylchedd.
- Newid y cerbydau presennol sy'n defnyddio diesel i ddefnyddio olew llysgiau sydd wedi'i drin â hydrogen (HVO).
- Uwchraddio'r System Rheoli Adeiladau er mwyn lliniaru effaith BT yn rhoi'r gorau i ddefnyddio llinellau copr.
- Monitro ac adrodd ar ddata ynni, dŵr a gwastraff, gan gynnwys adrodd i Lywodraeth Cymru ar adrodd ar garbon.

## **Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009;**

- Effeithiolrwydd Strategol, Cynaliadwyedd, Effeithlonrwydd ac Arloesedd



# Nodau Llesiant Cymru – Sut rydym yn cyfrannu

Dyma rai enghreifftiau o sut mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyfrannu at y saith nod Llesiant cenedlaethol:



## Cymru Lewyrchus

- Y nod wrth weithredu'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yw gwella'r ddarpariaeth frys mewn ardaloedd gwledig, gan greu cyfleoedd cyflogaeth newydd.
- Cynyddu'r sefydliad o ddiffoddwyr tân ar alwad ledled Gogledd Cymru, gan gynnig llwybrau at gyflogaeth lawn-amser.
- Hyfforddi pob aelod o staff i ddefnyddio Microsoft 365 ac i fod yn seiber-ymwybodol.



## Cymru Gydnerth

- Rydym eisoes yn sicrhau nad ydym yn torri gwair rhwng Mai a Medi bob blwyddyn ar ein hystad.
- Byddwn yn dal ati i addysgu tîrfeddianwyr am sut i ddefnyddio tir yn gyfrifol, gan gynnwys gadael i anifeiliaid bori a mesurau eraill sy'n atal tanau gwyllt.
- Rydym yn gosod blychau nythu ar gyfer gwenoliaid duon mewn lleoliadau priodol o amgylch ein hystad.
- Ein nod yw trosi ein Fflyd o Gerbydau Trwm i ddefnyddio Olew Llysiau wedi'i drin â Hydrogen (HVO) yn hytrach na Diesel.
- Byddwn yn ceisio trosi ein hystad fel nad oes yna systemau gwresogi sy'n defnyddio hydrocarbonau.
- Ein nod yw gosod paneli solar ffotofoltäig yn y mwyafrif o'n safleoedd erbyn 2030.



## Cymru sy'n Fwy Cyfartal

- Byddwn yn datblygu strategaeth hyfforddiant a datblygu 2026–2029 yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion hyfforddi, gan alluogi ein staff i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd arnyhau nhw eu hangen.
- Byddwn yn defnyddio ein hymgyngoriadau â'r cyhoedd, y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, a'r arolygon Teulu Tân a gynhelir bob dwy flynedd er mwyn rhoi cyfle i bobl gymryd rhan mewn penderfyniadau.
- Canlyniadau Cydraddoldeb Iechyd – diogelwch tan a diogelwch ar y ffyrdd – Profiadau Niweidiol mewn Plentynod (ACE's) ac ymyriadau ieuencid.



Pobl

Atal

Diogelu

Ymateb

Amgylchedd



## Cymru Iachach

- Byddwn yn parhau â'r gwaith o sefydlu prosesau cadarnhaol a chefnogol i wella presenoldeb, a hynny trwy ddarparu cymorth iechyd a lles galwedigaethol rhagorol.
- Byddwn yn parhau i gefnogi manau gwyrdd cymunedol drwy gymryd rhan mewn digwyddiadau fel rhai casglu sbwriel, mewn partneriaeth â chymdeithasau tai a chynghorau lleol.
- Byddwn yn cynnal dadansoddiadau o ansawdd uchel er mwyn cefnogi'r defnydd o ddulliau gwell o gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach rhagweithiol, yn seiliedig ar risg.
- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn dod i ddeall esblygiad y bygythiad gan Systemau Storio Ynni Batri, a byddwn yn cynnal ymgyrchoedd i wella ymwybyddiaeth er mwyn hysbysu'r cyhoedd.
- Rydym yn rhagweithiol wrth hyrwyddo'r cynllun beicio i'r gwaith, ynghyd ag ymgyrchoedd eraill sy'n annog ffyrdd iach ac egniol o fyw. Rydym yn annog ein staff i fyw mewn ffordd iach ac egniol, a hynny trwy hyrwyddo cynlluniau maetheg a thrwy bennu amseroedd i ddefnyddio ein hystafelloedd ffitrwydd.



## Cymru o Gymunedau Cydlynus

- Mae rhwydweithiau staff mewnol a grwpiau adnoddau yn creu llwyfannau diogel a chynhwysol lle gall pobl gael gafael ar gyngor, codi pryderon, rhannu syniadau a darparu adborth.
- Trwy ddefnyddio dylunio cynhwysol, mae ein pobl yn lleihau eu hól troed amgylcheddol trwy weithio'n ystwyth, yn hyblyg, ac o bell. Mae ein mentrau rhannu ceir yn effeithiol ac yn helpu ein pobl i leihau costau tanwydd ac yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.
- Mae natur y gwaith a wnawn i atal tanau yn golygu bod ein gwasanaeth yn ychwanegu llawer o werth i gymuned Gogledd Cymru, gan gynnig cyngor diogel ac iach sy'n cynnwys diogelwch, iechyd a llesiant. Trwy wneud gwaith ymgysylltu gweithredol yn y gymuned yn ystod 2025/26, bydd ein gwasanaeth yn cyflawni rhaglenni, prosiectau ac ymgyrchoedd sy'n meithrin cymunedau sy'n iachach ac yn fwy diogel. Mae cyngor a gwybodaeth yn cael eu cyfleu gan ddefnyddio ystod o wahanol fethodolegau cyfathrebu, gan wella mynediad i wahanol fudd-ddeiliaid, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed.
- Rydym yn ychwanegu gwerth sylweddol i gymuned Gogledd Cymru drwy gynnal archwiliadau diogel ac iach, gan gael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch personol, ar iechyd ac ar les.
- Rydym yn aelodau gweithgar o amrywiaeth o rwydweithiau a fforymau sydd wedi'u sefydlu gan sefydliadau pwysig yn y gymuned. Er enghraifft, mae Tîm Cydlyniant Cymunedol Gogledd Cymru wedi sefydlu Fforwm Rhyng-ffydd Gogledd Cymru.





## Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

- Byddwn yn parhau i ddarparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg ac yn hyrwyddo gweithgareddau yn unol â'n hymrwymiad i fod yn sefydliad dwyieithog, gan gynnig cyrsiau Cymraeg yn y gweithle i staff ar lefelau 2 a 3.
- Rydym yn sicrhau bod staff rheng flaen sy'n delio'n uniongyrchol â phobl agored i niwed, fel gweithwyr yr Ystafell Reoli a Gweithwyr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref, oll yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae hyn yn ein galluogi i gynnig dewis iaith rhagweithiol yn unol â'r gwerthoedd a geir yn fframwaith 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru.
- Drwy hyrwyddo ein gwasanaethau dwyieithog, rydym yn caniatáu i holl drigolion Gogledd Cymru ac ymwelwyr â'r ardal eu defnyddio yn eu hiaith ddewisol.
- Byddwn yn parhau i gydweithio â Mentrau Iaith ledled Gogledd Cymru i sicrhau ein bod yn amlwg mewn dathliadau neu ddigwyddiadau diwylliannol lle gall y Gwasanaeth wneud gwaith ymgysylltu.



## Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

- Byddwn yn adolygu eitemau stoc yn ein Storfeydd ac yn datblygu arferion gweithio sy'n lleihau gwastraff.
- Byddwn yn parhau i newid ein fflyd o gerbydau ysgafn er mwyn defnyddio cerbydau hybrid a thrydan.
- Byddwn yn parhau i ddadansoddi cyflenwyr ar sail sgôr datblygu Cynaliadwyedd a datblygu dwysedd Carbon.
- Rydym yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy parhaus ar gyflenwyr, gan gynnwys: cydymffurfiaeth â threth ac â'r gyfraith, caethwasiaeth fodern, a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth Cyflog Byw Cenedlaethol neu Isafswm Cyflog Byw, er mwyn sicrhau bod cyflenwyr yn gweithredu mewn modd moesegol.
- Defnyddio cyflenwyr o fewn fframweithiau sydd â Dangosyddion Perfformiad Allweddol moesegol a chynaliadwy sydd wedi'u pennu ymlaen llaw.
- Rydym wedi cyhoeddi datganiad Caethwasiaeth Fodern.
- Rydym yn cynnal gwiriadau DBS ar bob aelod o staff fel rhan o'n mesurau diogelwch, gan sicrhau ein bod yn cynnal amgylchedd diogel i'n gweithwyr ac i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.





# Sut i Roi Adborth

Ymgynghorwyd yn gyhoeddus y fersiwn ddrafft o'r ddogfen hwn o 21ain i Hydref tan 16eg o Rhagfyr 2024.

Er bod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben rydym yn parhau i edrych am ffyrdd i wella ein gwasanaeth ac i gyflwyno gwybodaeth sy'n ystyrlon. Er mwyn helpu ni i wneud hyn rydym eisiau sicrhau bod eich barn yn cael ystyriaeth wrth i ni ddarparu ein gweithgareddau a'ch hysbysu chi.

Felly, os oes gennych unrhyw sylwadau ar y cynllun hwn, neu sut y gallwn wella ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol, rydym eisiau clywed gennych chi.

## Ysgrifennwch atom:

Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) Pencadlys  
Ffordd Salesbury  
Parc Business Llanelwy  
Llanelwy  
Sir Ddinbych  
LL 17 0JJ

## Ffoniwch ni:

07717 516187

## Anfonwch e-bost atom ni ar:

EinPumEgwyddor@tangogleddcymru.llyw.cymru

## Gwneud Cais Am Archwiliad Diogelwch Tân Yn Y Cartref

Gallwch ofyn am archwiliad diogelwch tân yn y cartref i chi'ch hun, perthynas dibynnol neu gymydog, drwy gysylltu â'r Gwasanaeth ar **0800 169 1234**.

## Ein dilyn ni

 @northwalesfire

 @northwalesfireservice

 @northwalesfire

 @nwalesfireservice



Pobl

Atal

Diogelu

Ymateb

Amgylchedd





Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol

Adroddiad Ymgynghori 2025 - 2026



**Ein pum egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel - dweud eich dweud**

**POBL**

**ATAL**

**DIOGELU**

**YMATEB**

**AMGYLCHEDD**

This document is also available in English

# Cynnwys

Cefndir .....	2
Dull Gweithredu .....	2
Cyflwyniad .....	3
Methodoleg .....	3
Arsylwadau .....	4
Y Camau Nesaf .....	5
Ymatebion i'r Holidau .....	7
Risgiau Cymunedol.....	7
MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR POBL' .....	8
MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR ATAL' .....	10
MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR DIOGELU' .....	11
MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR YMATEB' .....	12
MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR AMGYLCHEDD' .....	13
Meysydd Eraill mewn Perthynas â'r Gwasanaethau rydyn ni'n eu Darparu .....	14
Materion Cydraddoldeb .....	15
Gwybodaeth Ychwanegol .....	16
Sylwadau ac Ymatebion ar y Cyfryngau Cymdeithasol .....	19
Atodiad A .....	20
Atodiad B .....	27
Atodiad C .....	33
Atodiad D.....	39
Atodiad E .....	43
Atodiad F.....	48
Atodiad G .....	50
Atodiad H.....	54
Atodiad I .....	57

## Cefndir

Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub wneud trefniadau ar gyfer gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau, drwy osod amcanion gwella iddo'i hun ym mhob blwyddyn ariannol yn erbyn o leiaf un o saith swyddogaeth. Mae'n rhaid ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch yr amcanion hyn.

Mae hefyd yn ofyniad statudol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i Gyrrff Cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant blynyddol.

Daeth Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 i rym ar 1 Ebrill 2024 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub geisio consensws neu gyfaddawdu â'u hundebau llafur cydnabyddedig wrth osod eu hamcanion llesiant, a gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

Gellir cyflawni'r dyletswyddau o dan Fesur 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 trwy gyhoeddi un adroddiad- Ffynhonnell: Cylchlythyr Tân ac Achub Cymru W-FRSC [W-FRSC\(2024\)06](#).

## Dull Gweithredu

Yn ystod mis Ebrill 2021 cymeradwyodd Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân y 'Cynllun Rheoli Risg Cymunedol' (CRhRC) fel Safon Tân ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Lloegr.

Er bod Gwasanaethau Tân ac Achub wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, mae pob Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi mabwysiadu canllawiau Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân i gyhoeddi CRhRC.

Fel rhan o'r '[Safon Tân](#)' dylai gwasanaeth tân ac achub 'ymgyngori'n effeithiol ac ymgysylltu (yn unol â'i drefniadau llywodraethu) â chymunedau, staff a rhanddeiliaid ar gamau priodol o'r broses cynllunio rheoli risg cymunedol'.

Mae'r ddogfen CRhRC yn ceisio nodi'r risgiau a'r heriau disgwylidig y gall y Gwasanaeth eu profi o fewn y pum mlynedd nesaf.

Mae CRhRC 2024-2029 yn gynllun pum mlynedd, gyda chefnogaeth cynlluniau gweithredu blynyddol, a dyma'r ail gynllun blynyddol (Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025-2026) a fydd yn cyfrannu at y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol pum mlynedd 2024-29.

# Cyflwyniad

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar yr amcanion gwella a llesiant arfaethedig o dan bum egwyddor allweddol a ddatblygwyd gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystod 2023-24:

- Ein Hegwyddor Pobl
- Ein Hegwyddor Atal
- Ein Hegwyddor Diogelu
- Ein Hegwyddor Ymateb
- Ein Hegwyddor Amgylchedd

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, cwblhawyd Asesiad Effaith Integredig.

## Methodoleg

Rhwng 21 Hydref ac 16 Rhagfyr, cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025-26 drafft, yn Gymraeg a Saesneg, ar wefan y Gwasanaeth Tân ac Achub ynghyd â dolenni uniongyrchol i holiadur yr arolwg.

Paratowyd a chyhoeddwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Gymraeg a Saesneg hefyd, ac roedd cwestiwn penodol am yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn holiadur yr arolwg.

Dilynwyd yr arfer gorau a fabwysiadwyd yn ystod ymgynghoriad yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys unwaith eto, gan gynnwys Egwyddorion Gunning.

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ar-lein, yn fewnol ar Hwb Tân, ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy hysbysebion taledig ac yn y wasg ysgrifenedig.

Argraffwyd taflenni dwyieithog gyda Chod QR arnynt, gan hwyluso mynediad uniongyrchol a hawdd i holiadur yr arolwg ar-lein, ac fe'u dosbarthwyd yn ystod ymweliadau Archwiliad Diogel ac Iach a digwyddiadau ymgysylltu.

Crëwyd cyfeiriad e-bost dwyieithog pwrpasol i hwyluso ceisiadau am wybodaeth ychwanegol neu holiaduron copi caled. Crëwyd rhif ffôn symudol pwrpasol i ymateb i unrhyw ymholiadau na ellid eu cyflwyno drwy e-bost.

Anfonwyd llythyrau, yn enw'r Cadeirydd, at bawb ar y Gofrestr Rhanddeiliaid yn eu gwahodd i gymryd rhan.

Trefnodd a hwylusodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ymgysylltiad ag ystod eang o grwpiau cynrychioliadol cymunedol, a thrwy hynny ddangos sylw dyledus o safbwynt cyfreithiol.

Cynhaliwyd ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol ychwanegol tua diwedd y cyfnod ymgynghori, i atgoffa pobl bod y dyddiad olaf iddynt ymateb yn agosáu.

O ran y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, y Cydbwyllgor Ymgynghori a Negodi (JCNC) yw'r fforwm lle mae'r Undebau Llafur cydnabyddedig yn cwrdd â'r Prif Swyddog arweiniol yn chwarterol ac yng nghyfarfod mis Awst y trafodwyd yr amcanion ac ymgynghorwyd â chynrychiolwyr ar gam ffurfiannol y broses.

Rhodddwyd diweddariadau pellach i'r Cydbwyllgor Ymgynghori a Thrafod yn dilyn diwedd yr ymgynghoriad cyhoeddus, a rhodddwyd digon o wybodaeth i gynrychiolwyr undebau llafur ystyried yr amcanion arfaethedig a digon o amser iddynt ymateb.

Yn gyfan gwbl, derbyniodd yr arolwg ymgynghori gyfanswm o **279** o ymatebion yn ystod y cyfnod wyth wythnos, gyda **277** ohonynt wedi'u cwblhau yn Saesneg a **2** wedi'u cwblhau yn Gymraeg. Er mai dim ond dau holiadur Cymraeg gafodd eu cyflwyno ar-lein, cafodd tua 50 holiadur eu cwblhau gan y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar ran pobl oedd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yn y grwpiau ffocws.

## Arsylwadau

Roedd y lefelau ymateb 25% yn uwch (223 i 279) nag ymgynghoriad cyhoeddus 2024-25, er bod llai o ymatebwyr (7 i lawr o 48) wedi datgan eu bod yn aelodau o staff GTAGC.

Diben gosod amcanion yw gwella'r ffordd y mae'r gwasanaethau'n cael eu cyflwyno, a gwneud hynny mewn ffordd sy'n cefnogi'r egwyddor gynaliadwyedd, a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, felly er bod lefelau uchel o gefnogaeth ar gyfer yr amcanion arfaethedig, roedd sylwadau, yn gyffredinol, yn ymwneud â ffrydiau gwaith presennol neu weithgareddau busnes fel arfer.

Fodd bynnag, mae'r holl sylwadau wedi'u rhannu â'r Penaethiaid Adran neu'r arbenigwyr pwnc perthnasol i'w hystyried ynghylch a oes angen diwygio unrhyw amcan arfaethedig neu unrhyw amcanion ychwanegol.

Derbyniodd ein Hegwyddor Atal y sylwadau ychwanegol mwyaf, 114, yn enwedig yn ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Diogelwch Dŵr a Gweithgareddau Addysg gyda Phobl Ifanc.

Mae cefnogaeth gref barhaus i Archwiliadau Diogel ac Iach, ond mae'n ymddangos nad yw gweithgareddau mewn perthynas â Diogelwch Busnes, Ein Hegwyddor Atal yn cael eu deall cystal.

Yn gyffredinol, roedd mwy o gefnogaeth i'n Hegwyddor Amgylcheddol o'i gymharu ag ymgynghoriad 2024-25, gyda chefnogaeth i fyny o 91% i 97%.

Mynegwyd pryderon yn ymwneud â darpariaeth diffoddwyr tân mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig mewn perthynas â De Gwynedd, a diffyg gwerthfawrogiad o faint o gymunedau sy'n cael eu gwasanaethu gan ddiffoddwyr tân ar y System Dyletswydd Ar Alwad, gyda Bwcle, yn arbennig, yn cael sylw.

Yn unol ag Egwyddorion Gunning, mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth wedi rhoi 'ystyriaeth gydwybodol' i'r ymatebion ymgynghori cyn cytuno ar yr amcanion arfaethedig ar gyfer 2025-26.

## **Y Camau Nesaf**



Mae unrhyw wallau teipio neu fân broblemau fformatio eraill a nodwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi'u cywiro. Mae'r holl sylwadau wedi cael eu rhannu gyda'r Penaethiaid Adran perthnasol neu'r arbenigwr pwnc perthnasol a'u hadolygu.

Fodd bynnag, gan fod adborth yr arolwg yn dangos cefnogaeth ysgubol i'r Egwyddorion a'r amcanion Llesiant a Gwella, ni fu unrhyw newid i'r Egwyddorion na'r amcanion.

Bydd cynnwys yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried gan aelodau yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân ar 17 Mawrth 2025.




## Cynllun Rheoli Risg Cymunedol Adroddiad Crynodeb o'r ymgynghoriad



### Crynodeb o'r ymatebion i 'Ein Hegwyddorion'

<b>Ein Egwyddor Pobl</b> Bod yn y lle iawn, ar yr adeg iawn, gyda'r sgiliau cywir.	<b>96%</b>	o ymatebion yn derbyn 'Yn gryf' or 'Cytuno' raddau' gyda'r egwyddor yma.
<b>Ein Hegwyddor Atal</b> Gweithio gyda phartneriaid i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel.	<b>99%</b>	o ymatebion yn derbyn 'Yn gryf' or 'Cytuno' raddau' gyda'r egwyddor yma.
<b>Ein Hegwyddor Amddiffyn</b> Gwneud busnesau'n fwy diogel gyda'i gilydd.	<b>95%</b>	o ymatebion yn derbyn 'Yn gryf' or 'Cytuno' raddau' gyda'r egwyddor yma.
<b>Ein Hegwyddor Ymateb</b> Darparu ymateb brys effeithiol.	<b>96%</b>	o ymatebion yn derbyn 'Yn gryf' or 'Cytuno' raddau' gyda'r egwyddor yma.
<b>Ein Hegwyddor Amgylchedd</b> Diogelu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.	<b>97%</b>	o ymatebion yn derbyn 'Yn gryf' or 'Cytuno' raddau' gyda'r egwyddor yma.



# Ymatebion i'r Holidaur



## Risgiau Cymunedol

Yn ein cynllun pum mlynedd rydyn ni'n tynnu sylw at y risgiau sy'n ein hwynebu. Oes unrhyw risgiau eraill y dylem fod yn eu hystyried neu'n cynllunio ar eu cyfer yn eich barn chi?

### Cwestiwn 1:

#### Dadansoddiad yn ôl Ymateb

<input type="radio"/>	Oes	102	37%	
<input type="radio"/>	Nac Oes	177	63%	

Derbyniwyd cyfanswm o **103** o sylwadau pellach ar gyfer y cwestiwn hwn.

(Gweler Atodiad A)

### Cwestiwn 2: Crynodeb

- Roedd yr ymatebion a gafwyd yn amlygu pryderon ynghylch argaeledd diffoddwyr tân, yn enwedig mewn rhai ardaloedd.
- Pryderon ynghylch twristiaeth a'r effeithiau y mae hyn yn eu cael ar ardaloedd lleol; cynnydd yn nifer y bobl a'r cerbydau ar ffyrdd lleol.
- Darparu addysg ar ddiogelwch dŵr a sut i atal anafiadau ar ddŵr neu o'i gwmpas, yn benodol gyda phobl iau a'r rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

### Ymateb Naratif

Er bod bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cytuno bod y CRhRC (neu'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol) wedi nodi'r risgiau cymunedol mwyaf perthnasol, nododd mwy na thraean risgiau eraill. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r materion a godir naill ai'n cael eu lliniaru gan gynlluniau safle-benodol neu barodrwydd ar gyfer digwyddiadau mawr neu y tu allan i faes y gwasanaeth tân. Bydd enghreifftiau o risgiau o'r fath o ddiddordeb i Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub yn rhinwedd eu swydd fel Cynghorwyr Sir, er enghraifft:

- Gwellu'r signalau ffôn symudol mewn ardaloedd gwledig.
- Cyflwyno terfyn cyflymder 20mya.
- Cynnal a chadw ffyrdd / priffyrdd o ran tyllau yn arbennig, a gormod o fwd ar ffyrdd.
- Defnydd amhriodol o e-feiciau.



## MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR POBL'


*Bod yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, gyda'r sgiliau cywir.*

Sicrhau gweithlu medrus iawn drwy recriwtio, datblygu a chadw gweithlu dwyieithog, llawn cymhelliant sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

### Cwestiwn 3:

**I ba lefel ydych chi'n cytuno bod ein hamcanion yn cefnogi'r egwyddor hon?**

	Cytuno'n gryf	183	66%
	Cytuno i raddau	85	30%
	Anghytuno i raddau	8	3%
	Anghytuno'n gryf	3	1%



**Derbyniwyd cyfanswm o 99 o sylwadau pellach ar gyfer yr egwyddor hon.**

**(Gweler Atodiad B)**

### Cwestiwm 4: Crynodeb

- Ceisio cynyddu'r amrywiaeth yn y gweithlu presennol, a fydd o fudd i gymunedau lleol yn y pen draw; cynyddu nifer y grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Yn ogystal â Chymraeg a Saesneg, ceisio gwella'r defnydd rheolaidd o ieithoedd eraill, gan gynnwys Pwyleg, Iaith Arwyddion Prydain.
- Ystyried gwneud gwelliannau i'r broses recriwtio. Ystyried cael gwared ar ffiniau mynediad fel gofynion TGAU a gorfod cael trwydded yrru lawn.
- Gweithio gyda phartneriaid yn ystod ymgyrchoedd recriwtio i gynyddu'r gronfa o ymgeiswyr a allai ystyried gwneud cais.
- Parhau ein gweithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc a'u gwella, yn enwedig yn ystod cyfnodau recriwtio diffoddwyr tân.
- Ceisio cynyddu gwelededd staff mewn gorsafoedd tân, a fydd yn gwella presenoldeb y gwasanaeth tân o fewn cymunedau lleol.
- Pryder am feddyliau am hunanladdiad a phrofiad o iechyd meddwl gwael yn y gwaith ymhlith diffoddwyr tân.

### Ymateb Naratif

Roedd 96% o'r ymatebwyr yn 'Cytuno'n Gryf' neu'n 'Cytuno i Ryw Raddau' y byddai'r amcanion arfaethedig yn cefnogi ein Hegwyddor Pobl.

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ystyried pob agwedd ar amrywiaeth wrth adolygu cyfraddau recriwtio a chadw bob chwarter.

Mae ffyrdd o annog aelodau o'n cymunedau i wneud cais am rolau diffoddwyr tân rhan amser, yn ystod y dydd neu lawn amser yn cael eu hadolygu'n gyson.

Bydd papur lechyd Meddwl yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod lechyd Diogelwch a Lles nesaf a chyflwynwyd mynediad at gwrsela arbenigol trwy'r llinell gymorth genedlaethol ar gyfer hunanladdiad y llynedd gyda mynediad 24/7.




## MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR ATAL'

Gweithio gyda phartneriaid i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel.

Lleihau'r risgiau i'n cymunedau, yn enwedig i'r bobl hynny a allai fod yn fwy agored i niwed, drwy ein rhaglenni ymyrraeth sefydledig fel Archwiliadau Diogel ac Iach a Phrosiect Ffenics.

### Cwestiwn 5:



Derbyniwyd cyfanswm o **114** o sylwadau pellach ar gyfer yr egwyddor hon.

(Gweler Atodiad C)

### Cwestiwn 6: Crynodeb

- Parhau i gymeradwyo'r rhaglen Archwiliad Diogel ac Iach; a gosod larymau tân.
- Cyflogi pobl sy'n gallu siarad ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg, wrth i amrywiaeth ehangu o fewn cymunedau.
- Cynyddu ymwybyddiaeth staff o gyflyrau iechyd meddwl, fel awtistiaeth a dementia.
- Mynegwyd pryderon ynghylch diogelwch dŵr, yn enwedig yn dilyn marwolaeth yn ystod y stormydd diweddar yng Nghonwy.
- Cynyddu ymgysylltiad â myfyrwyr a chynnal archwiliadau ar lety myfyrwyr.
- Hyrwyddo diogelwch cerbydau trydan, gan gynnwys sgwteri symudedd.

### Ymateb Naratif

Roedd 99% o'r ymatebwyr yn Cytuno'n Gryf neu'n Cytuno i Ryw Raddau y byddai'r amcanion arfaethedig yn cefnogi ein Hegwyddor Atal.

Mae'r defnydd o ddata Exeter (data'r Gwasanaeth Iechyd am bobl dros 65 oed) ac atgyfeiriadau asiantaethau partner yn galluogi dull gweithredu mwy penodol tuag at Archwiliadau Diogel ac Iach.

Mae rhaglen o ymgysylltu rhagweithiol â grwpiau agored i niwed eraill ac mewn lleoliadau risg uchel fel [BikerDown](#), [Ymgyrch Ugain](#) (ymgysylltu ar ochr y ffordd â gyrwyr ynghylch cyflwyno terfynau cyflymder 20mya) a [mentrau diogelwch dŵr](#).








## MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR DIOGELU'

Gwneud busnesau'n fwy diogel gyda'n gilydd.

Darparu canllawiau arbenigol i fusnesau ar ddiogelu rhag tân i helpu i sicrhau diogelwch adeiladau, gweithwyr a chwsmeriaid, a thrwy hynny gefnogi busnesau i dyfu. Mae adeiladau risg uchel yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiadau, gan gyfrannu at ddiogelwch y cyhoedd yn gyffredinol.

### Cwestiwn 7:

#### I ba lefel ydych chi'n cytuno bod ein hamcanion yn cefnogi'r egwyddor hon?

	Cytuno'n gryf	180	65%	
	Cytuno i raddau	86	31%	
	Anghytuno i raddau	9	3%	
	Anghytuno'n gryf	4	1%	

Derbyniwyd cyfanswm o **79** o sylwadau pellach ar gyfer yr egwyddor hon.

(Gweler Atodiad D)

### Cwestiwn 8: Crynodeb

- Archwilio eiddo sydd â mynediad cul neu gyfyngedig, a allai rwystro dihangfa ddiogel os bydd argyfwng.
- Canolbwyntio ar eiddo ar rent a landlordiaid sy'n rhentu eiddo sy'n is na'r safon.
- Nodi adeiladau anniogel a chynnal trefn arolygu arnynt.
- Canolbwyntio ar fathau penodol o fusnesau, fel cartrefi gofal.
- Bod archfarchnadoedd yn rhy llawn: nid yn unig yn achosi anhawster i bobl â phroblemau symudedd, ond gallai fod yn risg dianc pe bai argyfwng yn digwydd.

### Ymateb Naratif

Roedd 96% o'r ymatebwyr yn 'Cytuno'n Gryf' neu'n 'Cytuno i Ryw Raddau' y byddai'r amcanion arfaethedig yn cefnogi ein Hegwyddor Diogelu.

Byddwn yn datblygu hyfforddiant diogelwch tân busnesau i'n staff diogelwch tân busnesau ac i ddiffoddwyr tân gweithredol i gefnogi diogelwch diffoddwyr tân a gwella ymwybyddiaeth dechnegol.

Byddwn yn parhau i ddarparu Rhaglen Arolygu Seiliedig ar Risg sy'n seiliedig ar wybodaeth i leihau anafiadau a marwolaeth o danau mewn eiddo domestig ac annomestig.

Byddwn yn gweithio i ddatblygu ymgysylltiad â busnesau drwy hyfforddi ein staff a rhannu cyngor y diwydiant i leihau achosion o dân. Byddwn yn gweithio i ddeall effeithiau larymau tân awtomatig ar y defnydd o'n hadnoddau a'u heffaith mewn amgylchedd annomestig.



## MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR YMATEB'

*Darparu ymateb brys effeithiol.*

Bod yn barod i ymateb pan fydd arnoch ein hangen: i ddiogelu'r hyn sy'n bwysig i chi, i achub bywydau, lleihau niwed, ac amddiffyn cartrefi a busnesau.

### Cwestiwn 9:

#### I ba lefel ydych chi'n cytuno bod ein hamcanion yn cefnogi'r egwyddor hon?

	Cytuno'n gryf	215	77%	
	Cytuno i raddau	54	19%	
	Anghytuno i raddau	9	3%	
	Anghytuno'n gryf	1	0%	

Derbyniwyd cyfanswm o **99** o sylwadau pellach ar gyfer y cwestiwn hwn.

(Gweler Atodiad E)

### Cwestiwn 10: Crynodeb

- Pryder ynghylch argaeledd diffoddwyr tân i fynd i ddiwyddiadau brys.
- Sylwadau am recriwtio diffoddwyr tân.
- Sylwadau am bryderon traffig, gan gynnwys y terfyn cyflymder is, tyllau yn y ffordd a mwd ar y ffordd.
- Y gallu i ymateb yn gyflym i eiddo amgen, fel cychod camlesi.

### Ymateb Naratif

Roedd 96% o'r ymatebwyr yn Cytuno'n Gryf neu'n Cytuno i Ryw Raddau y byddai'r amcanion arfaethedig yn cefnogi ein Hegwyddor Ymateb.

- Rydym yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr Tân ac Achub 'dros y ffin' i sicrhau ein bod yn darparu trefniant cilyddol lle bydd yr orsaf / peiriannau gorau sydd ar gael yn bresennol. Fodd bynnag, mae lleoliadau gorsafoedd y tu allan i'n hardal Gwasanaeth ein hunain yn gyfrifoldeb yr Awdurdod Tân sy'n berchen arnynt i'w hadolygu a gwneud penderfyniadau amdanynt.
- Gwella'r signalau ffôn symudol mewn ardaloedd gwledig. Dylai'r rhif argyfwng 999 fod ar gael waeth beth yw'r darparwr ffôn unigol.



## MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR AMGYLCHEDD'

Diogelu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol eraill a chodi ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff a'n cymunedau.

### Cwestiwn 11:

#### I ba lefel ydych chi'n cytuno bod ein hamcanion yn cefnogi'r egwyddor hon?

	Cytuno'n gryf	190	68%	
	Cytuno i raddau	82	29%	
	Anghytuno i raddau	6	2%	
	Anghytuno'n gryf	1	0%	

Derbyniwyd cyfanswm o **58** o sylwadau pellach ar gyfer yr egwyddor hon.

(Gweler Atodiad F)

Cwestiwn 12: Crynodeb:

- Ystyried cyflwyno cerbydau trydanol i'r Gwasanaeth.
- Ystyried defnyddio tanwydd HVO a phrosesau ailgylchu.
- Ystyried ffynonellau tanwydd amgen, fel ffermydd solar a gwynt.

### Ymateb Naratif

Roedd 97% o'r ymatebwyr yn Cytuno'n Gryf neu'n Cytuno i Ryw Raddau y byddai'r amcanion arfaethedig yn cefnogi ein Hegwyddor Amgylchedd.

Mae llawer o'r awgrymiadau'n rhan o Strategaeth Amgylcheddol yr Awdurdod Tân ac Achub ac yn cael sylw fel amcanion yn y CRhRC 2024-29.

O ran awgrymiadau bod y Gwasanaeth yn newid i beiriannau tân trydan, mae datblygiadau cenedlaethol yn y maes hwn o dan oruchwyliaeth weithredol a rhagwelir y bydd cerbydau o'r fath yn rhan sylweddol o'n fflyd yn y dyfodol. Fodd bynnag, yn dilyn arfarniad ariannol a thechnegol o'r opsiynau sydd ar gael ar hyn o bryd, mae'r penderfyniad wedi'i wneud i beidio â dilyn yr opsiwn hwn cyn o leiaf 2030.



# Meysydd Eraill mewn Perthynas â'r Gwasanaethau rydyn ni'n eu Darparu

*Roedd ymateb i'r cwestiynau canlynol yn ddewisol.*

A oes unrhyw feysydd eraill mewn perthynas â'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu yr hoffech i ni eu hystyried?

**Derbyniwyd cyfanswm o 87 o sylwadau pellach ar gyfer yr egwyddor hon.**

**(Gweler Atodiad G)**

## Cwestiwn 13: Crynodeb

- Cynnal mwy o archwiliadau diogelwch tân ar eiddo masnachol.
- Diogelwch ar y Ffordd.
- Adolygu lleoliadau gorsafoedd tân a systemau dyletswydd.
- Cynyddu ymwybyddiaeth iechyd meddwl trwy'r Gwasanaeth cyfan.

## Ymateb Naratif

Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu Rhaglen Arolygu Seiliedig ar Risg mewn perthynas â safleoedd busnes.

Mae gweithio mewn partneriaeth mewn perthynas â diogelwch ar y ffyrdd wedi'i hen sefydlu ([Biker Down](#), [Stori Olivia](#), [Ymgyrch Ugain](#)) ac mae adnoddau wedi'u neilltuo i gyflawni mentrau diogelwch ar y ffyrdd.

Mae'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yn parhau â'i waith i archwilio atebion priodol a chymesur i'r angen i ymateb i danau ac argyfyngau eraill ledled Gogledd Cymru.

Bydd papur Iechyd Meddwl yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod Iechyd Diogelwch a Lles nesaf a chyflwynwyd mynediad at gwnsela arbenigol trwy'r llinell gymorth genedlaethol ar gyfer hunanladdiad y llynedd gyda mynediad 24/7.

## Materion Cydraddoldeb

**Cwestiynau 14 a 15:** Oes unrhyw faterion cydraddoldeb eraill y dylen ni fod yn meddwl amdany'n nhw?

Dadansoddiad yn ôl Ymateb				
●	Oes	65	23%	
●	Nac Oes	212	76%	
●	Heb atal	2	1%	

- Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at yr angen i'n Gwasanaeth wella ei gyfathrebu â grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau synhwyrdd (h.y. Iaith Arwyddion Prydain), o ran ymgysylltu â'r gymuned a chyfieithu/dehongli cyngor diogelwch tân a gwybodaeth allweddol arall.
- Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at bryderon cynyddol i bobl sy'n profi iechyd meddwl andwyol, a oedd yn teimlo bod y grŵp hwn o bobl mewn mwy o berygl o dân ac argyfyngau yn seiliedig ar eu nodweddion gwarchoddedig, ond hefyd ffactorau eraill fel cam-drin domestig, tlodi a digartrefedd.
- Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at bobl hŷn a'r boblogaeth sy'n heneiddio yng Ngogledd Cymru, ond hefyd teimlad cyffredinol bod pobl yn byw'n hirach, ond nid o reidwydd yn iachach. I grynhoi, mae ymatebwyr yn ystyried pobl hŷn fel y grŵp mwyaf 'mewn perygl' o bobl yn y rhanbarth o ran tân ac argyfyngau eraill.

### Ymateb Naratif

Gwneir dadansoddiad manwl rheolaidd mewn perthynas â Thanau Damweiniol mewn Anheddau i sicrhau bod proffil preswylwyr, math yr eiddo a ffactorau achosol yn cael eu deall yn glir a bod gweithgareddau atal yn cael eu cyfateb i'r proffil hwnnw.

Pobl hŷn, yn enwedig y rhai sy'n byw ar eu pennau eu hunain ac a allai fod â phroblemau iechyd corfforol neu feddyliol yw'r rhai mwyaf agored i dân yn eu cartrefi eu hunain ar hyn o bryd ac yn ffocws Archwiliadau Diogel ac Iach gan staff Diogelwch Cymunedol ymroddedig a Gwylfeydd.

# Gwybodaeth Ychwanegol


Roedd ymateb i'r cwestiynau canlynol yn ddewisol.

**Cwestiwn 16:** Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad neu grŵp, rhwngwyd i ni pwy rydych chi'n ei gynrychioli a ble rydych chi/pa faes rydych chi'n ei gwmpasu.


Crynodeb o rai yn unig o'r grwpiau lleol a ymatebodd.

- Awtistiaeth Cymru
- Prifysgol Bangor
- Grwpiau Dementia
- Y Groes Goch
- Unique Transgender
- Mind Dyffryn Clwyd


**Cwestiwn 17:** Ydych chi'n un o gyflogeion Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru?







**Cwestiwn 18:** Dewiswch un o'r canlynol i nodi pa ardal Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru rydych yn byw ynddi, yn gweithio ynddi neu'n ymweld â hi.




**Cwestiwn 19:** Pa grŵp oedran ydych chi?




**Cwestiwn 20:** Rhywedd – beth ydy eich hunaniaeth rhywedd?

<b>Dadansoddiad yn ôl Ymateb</b>			
	Gwryw	147	53%
	Benyw	120	43%
	Arall	4	1%
	Heb atal	8	3%


**Cwestiwn 21a 22:** Hil/Ethnigrwydd - pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?




**Cwestiynau 23 a 24:** Anabledd - ydych chi'n anabl neu a oes gennych gyflwr iechyd hirdymor?



**Cwestiwn 25:** Cyfeiriadedd Rhywiol



**Cwestiynau 26 a 27:** Crefydd a/neu Gred – ydych chi'n gysylltiedig ag unrhyw grefydd, ffydd neu system gred benodol?



## Sylwadau ac Ymatebion ar y Cyfryngau Cymdeithasol

### (Gweler Atodiad H)

Cafodd negeseuon a oedd yn hyrwyddo cymryd rhan yn yr ymgynghoriad eu rhoi ar Facebook a Twitter drwy gydol y cyfnod ymgynghori yn ogystal â fideos gan staff yn esbonio sut i gymryd rhan. Crëwyd hysbysebion taledig hefyd ar Facebook ac Instagram yn targedu'r cyhoedd ledled Gogledd Cymru gan eu hannog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

## Atodiad A

Cyf	RISGIAU ERAILL – SYLWADAU YCHWANEGOL
1	Dylid canolbwyntio mwy ar nodi llely gwyliau hunanarlwyo am fod eiddo yn cael ei ddefnyddio i'r diben hwnnw ond nad ydynt wedi'u nodi eto. Unwaith y byddant wedi'u nodi dylent fod yn destun gweithgaredd archwilio priodol gydag ymateb priodol os canfyddir eu bod yn annigonol.
2	Wrecsam yn cynyddu o ran maint a phoblogaeth.
3	Mae angen i chi gynnwys adran neu o leiaf bwynt bwled ynghylch blaenoriaethu iechyd a lles gweithwyr. Yn yr Egwyddor Atal, sonnir am y geiriau "Hyrwyddo Lles" a dyna'r cyfan. Hoffwn fod rhywfaint o fanylion ynghlŷn â phwy y mae hyn yn cyfeirio ato. Mae gweithwyr sy'n heini ac yn iach yn llai tebygol o gofrestru eu bod yn sâl a bod yn fwy cynhyrchiol a bydd diffoddwyr tân gweithredol yn gallu cyflawni eu dyletswyddau'n well. Ni ddylem fod yn anelu at y lefelau lleiaf, soniwch ein bod am gael gwasanaeth sy'n llawn gweithwyr iach sydd mewn sefyllfa dda i gyflawni eu rôl. Fel arall, bydd yn rhaid i chi aros 5 mlynedd arall i'w ychwanegu at Gynllun Corfforaethol. Gosodwch y gwasanaeth hwnnw ar gyfer y dyfodol, peidiwch â'i anwybyddu nawr. Ychwanegwch ychydig o destun i adlewyrchu'r manylion hyn yn yr Egwyddor Pobl. Os daw'r Wobr Iechyd Corfforaethol yn ôl yn y dyfodol nid yw'r CRhRC hwn yn cyfeirio at iechyd gweithwyr na'r cyhoedd, mae'n drueni bod cwpl o frawddegau heb eu hychwanegu i'r perwyl hwnnw. Blaenoriaethu iechyd a lles os gwelwch yn dda.
4	<p>1. Argyfwng Lles a Chynhwysiant Diffoddwyr Tân: Mae Mind Cymru yn nodi bod 37% o ddiffoddwyr tân wedi ystyried hunanladdiad, ac mae 85% wedi profi iechyd meddwl gwael yn y gwaith. Mae adolygiadau diwylliannol Gwasanaethau Tân Llundain, Avon, GMC, De Cymru, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Dwyrain Sussex i gyd yn cyd-fynd â'r darlun diwylliannol cenedlaethol llwm a gyflewyd gan Arolygaeth ei Fawrhydi. Er gwaethaf y pryderon hyn, nid yw'r Gwasanaethau Tân ac Achub eto wedi integreiddio addysg na gweithgareddau iechyd meddwl, lles a chynwysoldeb yn ffurfiol i'r diwrnod gwaith. Ar hyn o bryd mae cynnig yn nwylo Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles GTAGC i greu Awr WEDI (Llesiant, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant) i greu awr y dydd lle gellir cynnal addysg Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), addysg iechyd meddwl, ac amser i ymarfer gweithgareddau lles. Byddai adeiladu systemau cymorth o'r fath yn y drefn ddyddiol yn helpu diffoddwyr tân i fynd i'r afael â'u lles, meithrin gweithle cynhwysol lle mae pob aelod o staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n ddilys, ac yn cynnig cyfle i GTAGC osod esiampl genedlaethol.</p> <p>2. Ymdrechion Seilwaith yn Heneiddio a Rhwystro Cynhwysiant. Mae'r seilwaith sy'n heneiddio o fewn GTAGC yn cyflwyno risgiau y tu hwnt i gyflwr ffisegol offer a chyfleusterau. Wrth i'r ymdrechion barhau i gael mwy o amrywiaeth yn ein gweithlu, nid yw'r rhan fwyaf o orsafoedd GTAGC ar hyn o bryd yn darparu cyfleusterau newid na chawod i staff anueuaidd, sy'n cael eu gorfodi i ddewis lle ar sail rhywedd, a allai eu dieithrio a'u hymyleiddio. Wrth i amser fynd rhagddo, gallai hyn rwystro ymdrechion recriwtio a chadw yn sylweddol trwy ddfirodi enw da ar lafar, gan danseilio nodau'r Gwasanaeth o weithle mwy amrywiol a chynhwysol.</p> <p>3. Mwy o Straen ar Adnoddau Oherwydd Newidiadau Cymdeithasol: Mae Gogledd Cymru, fel llawer o'r DU, yn wynebu poblogaeth sy'n heneiddio a nifer cynyddol o aelwydydd un person. Wrth i'r duedd ddemograffig hon barhau, mae'r gofynion am Archwiliadau Diogel ac Iach, ymatebion brys a gwasanaethau lles eraill yn debygol o gynyddu. Gallai methu â rhagweld a pharatoi ar gyfer y galw cynyddol hwn roi straen ar adnoddau sydd eisoes yn gyfyngedig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle mae'r ymatebion yn arafach, a'r criwiau dan bwysau</p> <p>4. Cynaliadwyedd y System Dyletswydd ar Alwad: Mae'r system Dyletswydd ar Alwad, a gafodd ei hannog gan Adroddiad Bain yn 2003, yn cael ei hystyried yn un sydd wedi</p>

	<p>dyddio ugain mlynedd yn ddiweddarach. Gyda phatrymau gwaith modern, mae llai o unigolion yn byw neu'n gweithio'n ddigon agos, gan arwain at gronfa sylweddol is o recriwtiaid posibl, yn ogystal â heriau recriwtio a chadw staff ychwanegol. Yn ôl y tocyn hwn, mae'r PST Roger Thomas wedi datgan bod y system Dyletswydd ar Alwad yn 'anghynaliadwy' yn ei ffurf bresennol. Gallai'r pwysau hyn, os na chaiff ei drin, beryglu darpariaeth frys, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu boblogaeth isel lle mae dod o hyd i recriwtiaid eisoes yn heriol. Heb ddiwygiad sylweddol, mae model y system Dyletswydd ar Alwad mewn peryg o fod yn rhwystr i sicrhau ymateb amserol ac effeithiol ar draws y rhanbarth.</p> <p>5. Bygythiadau Seiberddiogelwch: Wrth i GTAGC ddod yn fwy dibynnol ar dechnoleg ar gyfer ei weithrediadau, mae'n dod yn fwy mewn perygl o ymosodiad seiber. Mae cyrff y sector cyhoeddus, gan gynnwys y GIG, yr Heddlu, a chynghorau lleol, eisoes wedi wynebu aflonyddwch mawr oherwydd ymosodiadau seiber. Mae Cyngor Bwrdeistref Hackney, Cyngor Redcar a Cleveland, Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban a South Staffordshire Water i gyd wedi profi aflonyddwch ac adferiad sylweddol a chostus ar wasanaethau. Gallai digwyddiad tebyg amharu ar allu GTAGC i ymateb i argyfyngau, gan beri risg ddifrifol i ddiogelwch y cyhoedd a pharhad busnes.</p>
<b>5</b>	Sicrhau bod busnesau lleol yn rhoi hyfforddiant warden tân a chyngor diogelwch tân sylfaenol i'w staff.
<b>6</b>	Plant yn chwarae yn y ffordd ac yn croesi'r ffordd heb edrych. Plant yn beryglon, hyd yn oed pan fyddant gyda'u rhieni, sy'n dangos bod angen addysgu rhieni.
<b>7</b>	Dywedoch fod gennych [y Gwasanaeth] Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ond a ydych chi'n cynnwys y nifer cynyddol o bobl awtistig mewn cymdeithas a'r risg benodol i'r grŵp hwn o bobl?
<b>8</b>	Effaith costau byw, risgiau sy'n dod i'r amlwg gyda thechnoleg a newid yn yr hinsawdd.
<b>9</b>	Rwy'n teimlo eich bod yn wynebu her yn addysgu a derbyn adborth gan rai grwpiau cymunedol. Er mwyn deall y risgiau i rai grwpiau, mae angen i chi ofyn iddynt, ac mae hon yn her barhaus i ni yn y cyngor hefyd. Mae cyfle i hyrwyddo PentrePeryglon, sy'n cynnal sesiynau addysg i blant.
<b>10</b>	Mae tipio anghyfreithlon yn fater enfawr. Rhwystro ffyrdd yn beryglus Perygl tân bwriadol. Tipio anghyfreithlon yn Ivy Street, Ffordd Penrhyn a'r ffordd ychydig oddi ar Ffordd yr Orsaf ym Mae Colwyn.
<b>11</b>	E-feiciau yn broblem yn Y Rhyl. Plant ar lwybrau (ar feiciau) yn y Rhyl.
<b>12</b>	Mae e-sgwteri hefyd yn broblem yn Y Rhyl. Rydych chi'n gweld e-sgwteri bob ffordd ym Mae Cinmel ac ar lan y môr yn Y Rhyl. Nid yw sgwteri symudedd ar y ffyrdd yn ddiogel. Nid yw rhai [sgwteri symudedd] wedi'u trwyddedi i fynd ar y ffordd.
<b>13</b>	Mae e-feiciau ac e-sgwteri i'w gweld yn Ninbych, ond nid yw'n ymddangos ei fod yn broblem yn y pentrefi cyfagos.
<b>14</b>	Mae unrhyw feiciau, sgwteri a cheir trydanol yn bryder enfawr i ni [x5 o bobl yn y grŵp ffocws].
<b>15</b>	Gwneud ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ymwybodol o systemau synhwyro/larymau tân. Defnyddio'r Groes Goch i gysylltu â ni.
<b>16</b>	Diogelwch dŵr, ymgyrchoedd atal boddi a chydabod pobl (grwpiau ethnig o bobl) sydd ddim yn gallu nofio.
<b>17</b>	Mae myfyrwyr sy'n meddwi bob amser yn bryder, yn enwedig glasfyfyrwyr a'r rhai nad ydynt wedi byw oddi cartref o'r blaen. Mae'r brifysgol yn gwneud llawer o waith ymwybyddiaeth ac addysg, ond efallai y bydd o fudd i chi hyrwyddo diogelwch ynghylch cerdded allan i'r ffordd a syrthio i'r dŵr. Rhannu unrhyw wybodaeth gydag undeb y myfyrwyr.



18	Ar hyn o bryd mae trwyddedau Tai Amlfeddiannaeth yn cael eu rhoi gan yr awdurdodau lleol heb fod angen gweld asesiadau risg tân. Mae yna fwlch a gall rhai landlordiaid fod â mesurau diogelwch tân yn is na'r safon ar waith nes bod rhywbeth yn amlwg yn mynd o'i le.
19	Peryglon diogelwch dŵr ym Mangor. Gall y llanw droi'n gyflym. Mae gweithgareddau hamdden yn peri peryglon, fe wnaeth ffrindiau osgoi marwolaeth o drwch blewyn pan wnaethant logi canŵ y llynedd.
20	Ni all llawer o bobl ddu nofio, felly mae boddi yn fwy tebygol.
21	Y risg o foddi i ddynion ifanc, yn enwedig pobl ddu.
22	Mae tân gwyllt yn un amlwg.
23	Tân gwyllt yn cael eu tanio ar hap.
24	Byddai'n ddefnyddiol cael dolenni i rywfaint o'r wybodaeth rydych wedi'i rhestru yn eich cynllun [Arolwg Teulu Tân 2023].
25	Er nad oes unrhyw risgiau penodol wedi'u nodi, ystyriwch fyfyrwyr rhyngwladol.
26	[Wedi'i gynnwys yn yr adran atal er mwyn osgoi dyblygu].
27	Beiciau modur oddi ar y prif ffyrdd.
28	[GTAGC] Cystadlu gyda'r fyddin, yr Awyrlu ac ati [Recriwtwyr eraill].
29	Pryderon cynyddol am droseddau â chyllyll. A allai diffoddwyr tân fod yn rhan o'r ateb wrth ddarparu ymateb brys ac achub bywyd, yn enwedig mewn ardaloedd trefol lle mae digwyddiadau'n fwy tebygol.
30	Rhoi hyfforddiant a sesiynau briffio rheolaidd ar gyfer cartrefi gofal.
31	Helpu pobl sydd wedi cwmpo. Fel heddiw [Wrth gyfeirio at y tywydd garw, rhewlyd ac eira].
32	Newid yn yr hinsawdd a thywydd gwael.
33	Mae traffig cynyddol ar yr A55 yn creu mwy o waith [i'r gwasanaeth tân].
34	Boddi yn afon Dyfrdwy a chwareli.
35	Angen mwy o swyddi llawn amser. Angen mwy o sylw mewn ardaloedd 'tawelach'. Angen argaeledd 24/7.
36	Cynnal mwy o sgysiau mewn ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd, ar gynghorion sylfaenol ym maes iechyd a diogelwch tân.
37	Tagfeydd traffig a achosir gan Bont Menai yn cael ei chau. Mae traffig a gwaith ffordd yn ddigwyddiad rheolaidd sy'n achosi llanast ar ffyrdd ac oedi.
38	Signal ffôn gwael yn Abermo. Rydw i ar Vodaphone nawr sy'n well, ond mae 'na dal ardaloedd na fyddai'n bosibl i ffonio'r frigâd dân.
39	Dwi wastad yn meddwl a yw criwiau tân wedi'u hyfforddi i ddelio â damwain posibl ar drac hyfforddi llinell sengl ar gyfer sefyllfaoedd lle mae dau drên yn gwrthdaro.
40	Mynediad gwael iawn i mewn ac allan o adeiladau, busnesau, siopau. Byddai pobl yn cael eu hanafu wrth geisio dianc o'r siop. Mae'r Hillman a siopau eraill ar Lôn yr Harbwr yn beryglus. Grisiau a lleoedd cul y tu mewn.
41	Recriwtio a chadw pobl hŷn a phobl sy'n newid gyrfa yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae'r grŵp hwn o bobl yn aml yn byw mewn lleoliadau ymddeol fel y'u gelwir, sef Abermo, Harlech, Llandudno, a gallent fynd i'r afael â'ch anghenion recriwtio mewn ardaloedd penodol, fel Llandudno.
42	Nid yw injan dân gyffredin yn ddigon ar gyfer adeiladau uchel mewn ardal.
43	Tywydd eithafol.
44	Iechyd meddwl y genedl a phobl yn teimlo'n unig ac ynysig.
45	Busnesau lleol sy'n gweithredu arferion anniogel. Cymarebau anniogel o staff mewn manau cyfyng. Nid oes swyddogion cymorth cyntaf mewn timau. Timau heb unrhyw hyfforddiant warden tân.

46	Parcio ceir yn achosi problemau mynediad. Ardaloedd penodol sy'n peri pryder yw tref y Rhyl yn yr haf, Howell Drive a phob stryd gerllaw. Dydych chi byth yn gallu cael yr injan dân i lawr y strydoedd rai dyddiau.
47	Twristiaid a chynnydd o ran risg i ardaloedd arfordirol yn ystod misoedd yr haf. Pobl yn y môr sydd ddim yn gallu nofio, ceir ychwanegol, pobl sy'n cerdded ar lwybrau heb ystyried pobl eraill sy'n oedrannus neu'n anabl. Pobl feddw, pobl ar wyliau ar feysydd carafanau, gwersyllwyr yn cynnau tanau y tu allan i ardaloedd dynodedig. Pysgotwr yn mentro hi ar dywod gwlyb [aber] pan fydd y môr yn dod i mewn yn gyflym. Bu rywun foddï ychydig wythnosau'n ôl yng Nghonwy, mae dŵr yn dal pobl yn ddiarwybod.
48	Problemau mewn archfarchnadoedd, dim staff, dim help a dwi'n poeni pe bai rhywbeth yn mynd o'i le [trawiad ar y galon, tân ac ati].
49	Mae gen i bryderon enfawr am rwystrau, lleoedd cyfyngedig a systemau unffordd mewn archfarchnadoedd. Allwch chi ddim dod o hyd i staff mewn archfarchnadoedd i helpu, felly byddai'n peri pryder pe bai argyfwng. Byddaf yn rhestru pryderon pellach yn yr adran diogelu.
50	Archfarchnadoedd am lawer o resymau. Meysydd parcio prysur, dim digon o lefydd parcio i bobl anabl. Mae cynllun gwael archfarchnadoedd yn golygu bod dianc o'r adeilad yn heriol i bobl hŷn. Dim staff mewn archfarchnadoedd i gynorthwyo pobl anabl a phobl hŷn. Mae'n hunanwasanaeth i gyd a dim staff.
51	Ceir yn goryrru ar Sandy Lane, dim terfyn 20mya. Mae plant wedi torri'r gysgodfan fysiau, dyw pobl ddim yn teimlo'n ddiogel yn y nos, mae pobl yn dal y bws i fyny'r ffordd [i osgoi plant], ond mae o ar gornel gas, ddim yn ddiogel! Gwydr wedi torri ar y ffordd [o'r gysgodfan fysiau sydd wedi torri], heb ei glirio, gallai torri teiars ac achosi damwain.
52	Mae'r siopau yn brysur iawn ar yr arfordir. Llandudno Ffyrdd prysur. Mae'n ymddangos bod pawb yn rhuthro o gwmpas.
53	Gweithredu terfysgol neu weithredu am resymau gwleidyddol posibl. Rwy'n siŵr bod hyn wedi'i gynnwys ond doeddwn i ddim yn gallu ei weld yn y ddogfennaeth.
54	Mynediad ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, diffyg parcio anabl ar gyfer cerbydau anabledd, tacsis hygyrch a bws mini sy'n dod â ni i ddigwyddiadau a gweithgareddau. Argyfwng ynni, mae angen i daliadau tanwydd gaeaf gynyddu, mae pobl yn oeri ac yn gwrthod rhoi'r gwres ymlaen!
55	Larymau ar gyfer pobl fyddar ac sy'n addas i bawb, gall eu cynnwys achosi problemau synhwyrdd? Larymau carbon monocsid ar gyfer pobl fyddar.
56	Nifer y diffoddwyr tân llawn amser sydd wedi'u lleoli ac yn cynnig darpariaeth yn ardaloedd arfordirol Gwynedd, y parc cenedlaethol ac ardaloedd canolog gan gynnwys Llanberis, Y Bala, a Chorwen.
57	Gormod o fwd ar y ffyrdd.
58	Y potensial enfawr ar gyfer amseroedd ymateb araf yn Nolgellau ac ardaloedd gwledig.
59	Rwy'n teimlo y dylech chi roi mwy o bwyslais ar recriwtio a'ch gallu i gynnal gweithgareddau atal yn Nolgellau a rhannau eraill o Dde Gwynedd.
60	Efallai y bydd recriwtio yn y dyfodol yn cael ei effeithio oherwydd nad yw unrhyw un am fod yn ddiffoddwr tân yn Nolgellau.
61	Gwnewch rôl y diffoddwr tân yn fwy deniadol. Rwy'n adnabod pobl yn y gwasanaeth felly rwy'n gwybod, nid oes gan [bobl] eraill syniad pa hyfforddiant rydych chi'n ei gael, er enghraifft.
62	Fel gofawlwr i berson sydd angen sgwter symudedd llydan, nid yw Dolgellau yn hygyrch iawn ac mae'n lle peryglus o ran mynd o gwmpas. Mae llawer o lwybrau sydd wedi'u rhwystro gan geir ac mae mynd i mewn i siopau yn anodd.
63	Mae angen i fusnesau lleol wneud mwy i alluogi pobl i fynd i mewn ac allan o adeiladau. Mae digwyddiadau coffi yn y llyfrgell yn boblogaidd, ond yn aml mae'n orlawn ac mae'n amhosib i ni fynyachu [wrth roi cymorth i ddefnyddiwr Gwasanaeth mewn sgwter symudedd llydan] a mynd heibio i bobl.

<b>64</b>	Mae gen i lawer o bryderon yn ymwneud â'r hygyrchedd gwael i mewn/allan o adeiladau [ym Mhorthmadog]. Mae siop lyfrau yn y dref yn defnyddio'r esgus o fod yn adeiladau 'rhestredig gradd 2', ond ni ddylai hyn eu hatal rhag darparu ramp i bobl sy'n sigledig ar eu traed.
<b>65</b>	Tywydd eithafol yn sych ac yn wlyb.
<b>66</b>	Gwell ymgysylltiad (byddai diwrnodau agored yn dda). Doeddwn i ddim yn gwybod bod gennych chi ddiwrnodau agored yn barod, dwi erioed wedi clywed amdanyn nhw nac wedi cael gwahoddiad!
<b>67</b>	Mae pobl sy'n cerdded wrth ddefnyddio eu ffôn yn risg fawr oherwydd eu bod yn cerdded i mewn i bobl eraill, yn cerdded dros y ffordd heb edrych, ac mae rhai yn gwisgo clustffonau ac nid ydynt yn gofalu am eu hamgylchedd - perygl enfawr. Nid yw cerddwyr gyda chŵn ar dennyn estynedig yn gallu cadw rheolaeth. Mae cŵn yn achosi risg ger ffyrdd ac er diogelwch y cyhoedd. Llithro, baglu a chwmpo mewn tywydd rhewllyd. Llwybrau heb eu graeanu mwyach. Eitemau bwyd wedi'u gwneud â deunydd simsan, ddim yn dda i bobl hŷn a'r rhai sy'n byw gyda dementia. Er enghraifft, mae topiau poteli llaeth yn glir (Arfer bod yn goch, glas neu wyrdd), dyw pobl â dementia ddim yn gallu gweld a yw'r top ymlaen ai peidio ac yn gollwng y llaeth ar y llawr gan achosi perygl o lithro. Problem i bobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain os ydynt yn cwmpo a bod ar eu pennau eu hunain am oriau. Mae llawer mwy o enghreifftiau fel hyn.
<b>68</b>	Arwyddion gwael mewn mannau cyhoeddus ac yng nghanol trefi i'm helpu i lywio fy ffordd o gwmpas. Weithiau dwi'n anghofio [byw gyda Dementia].
<b>69</b>	Dylai mwy o bobl [sy'n byw ar eu pennau eu hunain] gael system galwad lles wedi'i gosod am ei fod dim ond yn costio ychydig o bunnoedd bob mis ac mae wir yn achubiaeth os oes angen help arnoch chi.
<b>70</b>	Risgiau yn ymwneud â goryrru a gyrru cyflym drwy'r Bala.
<b>71</b>	Cydraddoldeb rhywedd
<b>72</b>	Beiciau modur a cherbydau. Maint y traffig â chyflymder uchel sy'n mynd trwy'r dref, i fyny heibio'r ysgol [tuag at Borthmadog] ac allan heibio'r llyn.
<b>73</b>	Gallai adolygu'r amser ymateb o 5 munud gwneud recriwtio'n bosib i bobl fel fi sy'n byw yr ochr arall i'r llyn.
<b>74</b>	Nid yw'r heriau parhaus i'r gwasanaeth tân weithio i ddatblygu partneriaethau strategol gyda chyflogwyr lleol sy'n gallu rhyddhau eu staff i ymateb fel diffoddwyr tân ar alwad bellach yn hyfyw.
<b>75</b>	Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ymysg plant ac oedolion ifanc. Tanau bwriadol ac ymosodiadau. Mae e-feiciau ac e-sgwteri yn broblem enfawr.
<b>76</b>	Nid oes llawer o ddarpariaeth o'r gwasanaeth yn Nhywyn (Heddlu, tân neu barafeddygon) a gall amseroedd ymateb fod yn araf.
<b>77</b>	Mae hyn yn edrych fel cynllun da.
<b>78</b>	Risgiau mewn digwyddiadau ar raddfa fawr yn y rhanbarth i leihau niwed posibl.
<b>79</b>	Rwy'n credu bod y cynllun yn dda iawn.
<b>80</b>	Dyw'r signal ffôn symudol ddim yn dda iawn [yn Abermo]. Ar hyn o bryd rwy'n defnyddio Vodaphone, ond mae aelodau'r teulu yn dweud wrthyf nad yw darparwyr eraill yn dda chwaith.
<b>81</b>	Rydych chi'n debygol o gollu cyfle i recriwtio pobl dalentog os ydych yn defnyddio gofynion mynediad sy'n eithrio plant sydd ddim yn cyflawni canlyniadau TGAU penodol. Mae rhai plant yn cael plentyndod heriol ac ni ddylid eu barnu yn ôl y profiadau hyn y mae'n rhaid iddynt eu profi.

<b>82</b>	Fel Prif Swyddog Gweithredol elusen sy'n darparu cefnogaeth i ferched a menywod, mae yna nifer o risgiau y gallech chi eu hystyried. Mae merched a menywod yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan gam-drin/trais domestig, digartrefedd, gorfod symud yn fynych, sy'n newid bywyd a achosir gan ddedfrydau carchar tymor byr, diweithdra mewn sefydliadau sy'n cael eu rheoli gan ddynton yn bennaf (yn enwedig pan nad oes ganddynt gyfeiriad sefydlog, cofnodion troseddol, cyfrifoldebau gofal plant ac ati).
<b>83</b>	Nid yw eich cynllun yn ystyried gofalmwyr cyflogedig a phobl sy'n ofalmwyr llawn amser di-dâl ar gyfer aelodau o'r teulu sy'n aml yn wael iawn, yn byw gyda chyflwr iechyd ac anabledd. Mae hwn yn grŵp difreintiedig o bobl y dylid eu hystyried, yn enwedig yn eich gwaith atal.
<b>84</b>	Gwn fod cyfeiriad at y Gymraeg yn y CRhRC ond dros y blynyddoedd bu'r Gymraeg yn arwydd symbolaidd iawn a dylai fod yn flaenoriaeth. Rwy'n gweld eich bod wedi cynhyrchu'r CRhRC yn Gymraeg, sy'n wych, ond mae angen i'r un ymrwymiad hwn fod yn rhan o bopeth rydych chi'n ei wneud.
<b>85</b>	Canolbwyntio mwy ar grwpiau ethnig lleiafrifol a ffoaduriaid sy'n cyrraedd Gogledd Cymru. Mae'r anghenion a'r risgiau yn aml yn wahanol o ran profiadau byw sy'n aml yn drawmatig ac yn gymhleth. Mae yna arferion diwylliannol sy'n wahanol, felly mae ymddygiadau yn wahanol ac mae eu rhyngweithio â swyddogion y llywodraeth [gwasanaethau sifil a chyhoeddus] weithiau yn negyddol, felly bydd yn cymryd amser i ddod i adnabod rhai ohonyn nhw, yn enwedig os ydych chi am iddyn nhw weithio i chi a chyfleu'r gwaith rydych chi'n ei wneud.
<b>86</b>	Diogelwch ar y ffyrdd, llifogydd, tyllau a mwd ar y ffyrdd.
<b>87</b>	Diffyg darpariaeth o'r gwasanaeth tân yn rhannau o Wrecsam, yn enwedig hen ardal Sir y Fflint o Riwabon i Bronington.
<b>88</b>	Parhau â'r adolygiad o'r ddarpariaeth frys. Mwy o ddarpariaeth mewn rhai ardaloedd. Angen adolygiad fel bod aelodau'r gymuned yn gwybod beth sy'n digwydd.
<b>89</b>	Achub anifeiliaid.
<b>90</b>	Twristiaid a Phobl ar eu Gwyliau Pobl ychwanegol, ceir, traffig a phopeth sy'n dod gyda phobl feddw.
<b>91</b>	Beiciau cwad ar ffyrdd, rhai ddim yn ddiogel i fod ar y ffordd, ac nid yw rhai yn gwisgo helmedau, sydd ddim yn ddiogel.
<b>92</b>	Diogelwch y cyhoedd mewn perthynas â pharcio anghyfreithlon ar lwybrau. Ceir/faniau yn blocio croesfannau a chyrbiau isel yn bryder enfawr yn Y Rhyl a Phrestatyn.
<b>93</b>	Pobl yn defnyddio ffonau symudol wrth yrru yn parhau i fod yn broblem.
<b>94</b>	Mwy a mwy o bobl yn byw gydag iechyd meddwl gwael. Gall hyn arwain at risgiau ychwanegol o ran eich gwaith.
<b>95</b>	Mae angen i mi sôn fod y signal ffôn symudol heb wella ers 20 mlynedd!
<b>96</b>	Poblogaeth ethnig sy'n tyfu a'u gallu i ddeall Cymraeg a Saesneg. Mae'n wych fod pobl am symud yma [Gogledd Cymru], ond ydyn nhw'n gwybod sut i gael gafael ar wybodaeth sy'n helpu i'w cadw'n ddiogel?
<b>97</b>	Nid oes gan lawer o bobl rwy'n eu hadnabod ffôn symudol. Gyda phrin dim blychau ffôn o gwmpas mwyach, sut y mae pobl fod galw am help? A yw eich staff yn gwybod am y dechnoleg a'r apiau diweddaraf? Yw eich staff yn defnyddio'r ap 'Yn Achos Argyfwng' (ICE) er enghraifft, mae'n rhoi mynediad at wybodaeth feddygol hanfodol y mae pobl wedi cytuno i'r gwasanaethau brys ei chael trwy eu ffôn symudol personol?
<b>98</b>	Mae galwadau ffug yn gwastraffu eich amser a'ch adnoddau. Perygl llifogydd i'r ardal arfordirol.
<b>99</b>	Pobl yn byw yn hirach. Mae'r holl risgiau sy'n gysylltiedig â henaint, cwympto, ar ryw adeg, bydd y rhan fwyaf ohonom yn byw ar ein pennau ein hunain, yn ynysig.

<b>100</b>	Y cynnydd brawychus mewn achosion o iechyd meddwl a welwn yn ein gwasanaeth [Mind Dyffryn Clwyd). Nid oes gan y rhan fwyaf o bobl rydym yn eu gweld ffonau symudol, felly roedd yn iawn bod pobl wedi codi hyn yn y grŵp ffocws yn gynharach y bore yma. Gallai llai o gyllid a gawsom weld gostyngiad pellach yn ein darpariaeth gwasanaeth a llai o sesiynau i bobl [ag iechyd meddwl] ofyn am gymorth. Hebdom ni [ein sesiynau], mae llawer o bobl yn gweld eu hiechyd meddwl yn dirywio'n gyflym ac mae rhai pobl [rydyn ni'n eu cefnogi] yn aros gartref ac mae ein sesiynau yn eu galluogi i gymdeithasu, siarad a cheisio cyngor.
<b>101</b>	Risgiau cysylltiedig gydag anifeiliaid yn dianc o'r Sŵ Fynydd Gymreig. Damwain fawr yn cynnwys nifer o geir yn Nhwnnel Conwy. Mae cychod yn taro ei gilydd ym Mae Lerpwl.
<b>102</b>	Darparu ymateb brys i Ynys Môn os na fydd Pont Menai a Phont Britannia ar agor.
<b>103</b>	Rydym yn gweld mwy o bobl ag iechyd meddwl niweidiol [Dyfodol Disglair]. Fel ymddiriedolwr a helpodd i sefydlu'r elusen yma yn Wreccsam, rwyf wedi gweld cynnydd enfawr yn y degawd diwethaf ac mae mwy a mwy o bobl yn cael eu gwrthod o wasanaethau'r GIG sy'n peri pryder. Does bosib fod y cynnydd hwn yn rhoi risg ar sut mae pobl yn ymdopi ac maent mewn mwy o berygl o ran eu diogelwch personol yn y cartref, allan yn y gymuned (h.y. croesi'r ffordd) ac yn fwy tebygol o syrthio i iselder dwfn a phrofi meddyliau hunanladdol.

## Atodiad B

Cyf	EIN HEGWYDDOR POBL – SYLWADAU YCHWANEGOL
1	Ychwanegwch lechyd a Lles Gweithwyr fel eu bod mewn sefyllfa dda i ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau.
2	Pe bai'r Pwyllgor lechyd, Diogelwch a Lles yn cymeradwyo a ffurfioli Awr WEDI (Lles, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant), byddai hyn yn darparu amser penodol yn ystod y diwrnod gwaith i staff ganolbwyntio ar iechyd meddwl a hyfforddiant cynhwysiant strwythuredig. Hwn fyddai'r tro cyntaf iddo ddigwydd yn genedlaethol, ac yn meithrin diwylliant gweithle iachach a mwy cefnogol, gan helpu diffoddwyr tân i reoli gofynion eu swyddi yn well, lleihau straen, a hyrwyddo cynhwysiant trwy godi ymwybyddiaeth am faterion amrywiaeth. Byddai cyflwyno cyfleusterau newid mwy cynhwysol, fel manau anneuaid neu niwtral o ran rhywedd, yn sicrhau bod yr holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u bodloni. Byddai hyn yn dileu anghysur neu ymleiddio i unigolion anneuaid, gan gefnogi nodau'r Gwasanaeth i wneud ei weithlu'n fwy amrywiol a chreu amgylchedd mwy cynhwysol lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. Gyda'i gilydd, byddai'r newidiadau hyn yn gwella cadw staff, yn hybu morâl, ac yn gwella effeithiolrwydd gweithredol.
3	Rwy'n cytuno y bydd mwy o amrywiaeth o fewn y gweithlu yn ychwanegu gwerth ac yn galluogi ein gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau cynhwysol. Un enghraifft dda yw staff yn cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o fod yn fyddar ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL) sylfaenol. Mae cyfathrebu ag aelodau ein cymuned yn ofyniad sylfaenol, felly dylai dod â phobl sydd â'r awydd i ddatblygu sgiliau sy'n helpu i hyrwyddo cynhwysiant barhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer 2025-2026 a thu hwnt nes i'r CRhRC presennol ddod i ben yn 2029.
4	Mae hyfforddi eich staff ar faterion sy'n ymwneud â seiberddiogelwch yn welliant.
5	Ydych chi'n cyflogi pobl Awtistig? Faint? Os na, pam ddim?
6	Mae cyflogi pobl o bob rhan o'r DU yn helpu i ddod ag amrywiaeth a chryfhau cymunedau lleol.
7	Rwy'n deall sut mae'r iaith Gymraeg yn bwysig mewn rhai ardaloedd ac nid mor bwysig mewn ardaloedd eraill. Mae'n edrych fel bod gennych chi lawer ar waith i edrych ar ôl eich diffoddwyr tân.
8	Rwy'n credu y dylid gwneud mwy o ganlyniad i weithio gartref. Mae pobl yn gwybod beth i'w wneud yn y gwaith, ond efallai y bydd angen mwy o gymorth arnynt i weithio gartref.
9	Cyswllt llygaid Ystyriaethau diwylliannol wrth gyfweld. Peidiwch â barnu pobl yn rhy gyflym. Byddwch yn gyflogwr cynhwysol a rhoi cyfle i bobl.
10	Dylai recriwtio gweithlu amrywiol fod ar frig y rhestr hon. Dylech ystyried recriwtio pobl LHDT a pheidio â diystyrru pobl â chyflyrau iechyd meddwl.
11	Gallwch chi [GTAGC] elwa o recriwtio ffoaduriaid [a'r rhai sydd yma drwy'r rhaglen adsefydlu]. Yn siarad nifer o ieithoedd, profiad bywyd, yn ymwybodol yn ddiwylliannol, felly mae ganddynt gymaint i'w gynnig.
12	Hyrwyddo rolau ymhlith poblogaeth myfyrwyr, yn enwedig myfyrwyr yn y drydedd flwyddyn a fydd yn edrych i fynd i fyd gwaith yn fuan.
13	Mae cyflogi pobl dalentog yn hanfodol felly dylai gofalu am weithwyr fod yn flaenoriaeth hefyd.
14	Mae'n ymddangos bod popeth yn gwneud synnwyr.
15	Mae agenda amrywiaeth yn flaenoriaeth ynddo.
16	Dylai cyflogi pobl sy'n barod i ddysgu sgiliau iaith newydd fod yn ofyniad sgiliau hanfodol. Mae hyn yn gyffredin i adrannau'r llywodraeth mewn rhannau eraill o'r byd.
17	Mae amrywiaeth yn dda.
18	Cytuno'n gryf.

19	Nid yw'n glir sut y bydd eich sefydliad yn cyflawni eich cynllun. Sut fyddwch chi'n cyflwyno cynllun hyfforddi i gymaint o staff? Mae eich sefydliad wedi gosod rhai nodau enfawr yn eich cynllun. A fyddwch mewn gwirionedd yn eu cyflawni mewn blwyddyn? Beth yw'r adolygiad CREST? Beth am gynnwys dolen fel y gall pobl weld, rhoi enghreifftiau.
20	Rwy'n synnu nad oes gennych wasanaeth tân gwirfoddol fel y rhan fwyaf o Ewrop. Mae gwirfoddolwyr yn gwella ymgysylltiad. Mae model y Ffindir yn gweithio'n dda, [ac yn arbennig o dda i bobl o] gefndiroedd gwael [difreintiedig]. Mae rhaglen gwirfoddolwyr yn cael ei chynnal ar ôl ysgol [ac yn galluogi] pobl i symud i swyddi â thâl llawn amser. Rwy'n awtistig, a ydych chi [Y Gwasanaeth Tân ac Achub] yn gynhwysol? Gall hyn helpu i ddenu a chadw staff.
21	Mae siarad Cymraeg yn bwysig.
22	Ystyriwch ofynion mynediad i swyddi gwag, yn enwedig rolau mynediad a rolau iau. Peidiwch â chreu rhwystrau diangen.
23	Sut fyddwch chi'n gwybod os ydych chi'n wasanaeth amrywiol? Anabledau anweledig ac ati.
24	Dwi byth wedi ystyried bod yn ddiffoddwr tân. Nid yw'r orsaf [Dân] byth ar agor [Cyfeiriad penodol at Fwcle].
25	Gweithlu medrus. Ie. Ddim yn siŵr y dylai'r Gymraeg fod yn hanfodol yn Sir y Fflint.
26	Dim manylion penodol ynghylch sut y bydd recriwtio timau amrywiol yn cael eu cyflawni. Nid yw eich cynllun yn CAMPUS. Hyrwyddo amrywiaeth y gymuned, ddim yn siŵr beth mae hyn yn ei olygu.
27	Recriwtio mwy o bobl hŷn a phobl anabl. Rhowch gyfle i bobl. Mae Tesco yn rhoi cyfle i bobl [Wrth gyfeirio at fentrau maen nhw wedi eu cynnal i recriwtio mwy o bobl hŷn a phobl anabl].
28	Cael gwared ar rwystrau. Byddwch yn ymwybodol o ofynion mynediad ac a oes eu hangen mewn gwirionedd. TGAU er enghraifft:
29	Rwy'n gwybod nad yw pobl yn y gwasanaeth tân a'r systemau dyletswydd presennol yn gweithio. Ymestyn amseroedd ymateb [bod angen i staff ar alwad ymateb]. Angen mwy o ddiffoddwyr tân llawn amser. Trowch rai gorsafoedd [tân] ar alwad o ar alwad i lawn amser.
30	Ail iaith [siaradwyr Pwyleg].
31	Recriwtio pobl sy'n gallu nofio. Achub o'r dŵr.
32	Cyflogi gwahanol bobl.
33	Mae'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol yn sôn am bolisiâu iechyd meddwl, tâl mamolaeth neu bolisiâu eraill sy'n ystyriol o deuluoedd sy'n gwneud cyflogwyr yn ddeniadol ac yn gwneud y mwyaf o'ch gallu i gadw pobl dda. Nid cynllun yw eich cynllun mewn gwirionedd, mae'n rhestr o bwyntiau bwled wedi'u geirio'n berffaith.
34	Anghytuno am yr un rhesymau [mae'r cynllun yn methu â sôn sut y bydd yn gofalu am weithwyr, strategaeth lechyd Meddwl, polisiâu sy'n ystyriol o deuluoedd].
35	Angen mwy o argaeledd 24/7.
36	Mynediad at hyfforddiant recriwtio [Rhwystrau posib i recriwtio] e.e. cysylltiadau trafndiaeth gwael i'r Rhyl.
37	Ychydig iawn o swyddi priodol ar yr ynys. Bydd gennych broblemau recriwtio bob amser os mai dim ond swyddi rhan amser nad ydynt yn ddigon i fyw arnynt yr ydych yn eu cynnig.
38	Nid oes modd gweithio'n llawn amser yn Abermo na rhannau eraill yn Ne Gwynedd. Mae angen mwy o gyfleoedd gyrfa i fod yn rhan o'r gwasanaeth tân i annog pobl leol.
39	Mae fy mab yn gweithio mewn siop, ac yn methu â fforddio derbyn cyflog llai i weithio yng ngwasanaeth tân Abermo.

40	Rwy'n synnu nad oes gan yr ardal [Abermo] ddiffoddwyr tân llawn amser. Ni all hyn fod yn iawn. Byddai Dolgellau yn ddelfrydol [gorsaf dân amser cyflawn].
41	Fel y soniais yn yr adran ddiwethaf, recriwtiwch bobl hŷn, gwnewch amodau'n iawn a gallwch recriwtio pobl brofiadol na fyddant yn eich siomi fel rhai o'r genhedlaeth iau.
42	Mater sylfaenol i'r gwasanaeth tân [I recriwtio pobl a bod yn barod].
43	Ie, recriwtio pobl, ond mae pobl leol yn adnabod yr ardal a'r peryglon. Mae pobl sy'n byw ar yr arfordir yn deall y risgiau sy'n ymwneud â'r môr, mae pobl sy'n ymweld yn baglu neu'n gadael eu cŵn oddi ar dennyn.
44	Cytuno'n gryf.
45	Dylai unrhyw un sydd am ymuno fod yn gallu gwneud hynny.
46	Cymraeg a Saesneg yn ddwyieithog. Gall recriwtio pobl sy'n gallu siarad ieithoedd gwahanol agor drysau felly mae budd i recriwtio amrywiaeth.
47	Cytuno'n gryf.
48	Nid oes gennych "cytuno" yn unig, felly mae hyn yn gwyrddroi'r atebion.
49	Diffoddwyr tân medrus iawn ym mhob ardal os gwelwch yn dda.
50	Ceisiwch recriwtio pobl yn yr ardal leol sy'n siarad Cymraeg i lefel uchel.
51	Cytuno'n gryf.
52	Mwy o hyrwyddo rôl diffoddwr tân. Cael colegau i dargedu pobl fy oedran i. Does neb eisiau bod yn ddiffoddwr tân. Rwy'n clywed nad oes gan yr orsaf dân gampfa hyd yn oed. Mae hynny'n wallgof.
53	Rwy'n cytuno bod maint y boblogaeth wedi cynyddu. Mwy o risgiau i ddelio â nhw. Angen darpariaeth ar gyfer Gwrthdrawiadau ar y Ffordd, llifogydd, tanau dros ardal enfawr.
54	Dydych chi ddim yn gweld pobl yn yr orsaf [ym Mhorthmadog].
55	Mae'r RNLI yn recriwtio gwirfoddolwyr yn dda iawn. Efallai y byddai'n werth siarad â nhw.
56	Cydraddoldeb rhywedd Gwell gofal ar gyfer diffoddwyr tân benywaidd. Gwella cyfleusterau ar gyfer menywod.
57	Rwy'n cytuno bod gan bobl leol wybodaeth leol am yr ardal, yr afon, y mynyddoedd a'r ffyrdd cefn. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn bwysig.
58	Gallai cynyddu'r amser ymateb i 6 neu 7 munud wneud recriwtio yn bosib i fwy o bobl sy'n heini ac sy'n fodlon gwneud gwaith ar alwad [Yn Y Bala].
59	Nid yw'r system ar-alwad bresennol yn gweithio i fusnesau lleol a allai fod wedi rhyddhau eu staff mewn blynyddoedd blaenorol. Fel canolfan hamdden [Glannau Dyfrdwy], dyw hi ddim yn bosib rhyddhau staff fel roedden ni'n arfer gwneud ugain mlynedd yn ôl. Mae'r cymarebau hyfforddi a'r cyfrifoldebau diogelu yn golygu nad yw'n bosibl rhyddhau staff sy'n gweithio yn y gampfa, a meysydd chwaraeon, chwarae neu sglefrio iâ. Mae rheolau llym ynghylch cael staff medrus, cyfrifol a chymwys mewn ystafell [methu gadael]. O safbwynt cyfle, mae'r ganolfan hamdden yn darparu'r llwyfan perffaith i recriwtio pobl. O'r hyn rydych chi wedi'i ddweud, mae recriwtio ar alwad yn her, ond mae recriwtio mwy o fenywod hefyd yn flaenoriaeth. Mae'r ganolfan hamdden yn denu miloedd o fenywod bob mis, trwy chwarae meddal, dosbarthiadau rhianta, ffitrwydd, cystadlaethau chwaraeon a dŵr. Er enghraifft, rydyn ni'n gweld mil o ferched a menywod yn chwarae pêl-rwyd, mae mil yn defnyddio'r llawr sglefrio, mae 200 yn defnyddio'r gampfa, mae 300 yn defnyddio'r adnoddau sydd wedi'i llenwi ag aer... Ddydd Sadwrn a dydd Sul yw'r dyddiau prysuraf.
60	A yw'r gwasanaeth yn rhoi'r argraff ei fod yn gyflogwr sy'n gefnogol o gynhwysiant a diwylliant LHDTC+? Sut ydych chi'n dangos amrywiaeth yn allanol? Ydych chi'n monitro ac yn herio troseddau casineb sy'n ymwneud â llosgi bwriadol? A ydych chi'n codi proffil eich ymrwymiad i gynhwysiant ar ddyddiadau calendr pwysig? Sut ydych chi'n dangos gwelededd o ran cymunedau LHDTC+? Dyma'r pethau a fydd yn eich helpu i ddenu pobl LHDTC+.



<b>61</b>	Gwneud y mwyaf o ymdrechion recriwtio drwy weithio gyda phartneriaid lleol fel ni [Datblygu Chwaraeon Cyngor Sir y Fflint]. Rydym yn cynnal rhaglen <i>Fit, Fed and Read</i> sy'n targedu pobl mewn ardaloedd difreintiedig. Rydym yn ymgysylltu â 5,000 o blant dros fisoedd yr haf. Rydym yn ymgysylltu â miloedd o blant a phobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig bob blwyddyn. Rydym yn canolbwyntio ar naw ardal gan gynnwys Treffynnon, Cei Connah a Glannau Dyfrdwy.
<b>62</b>	Gallaf weld pam fod heriau recriwtio, ond dylid gwneud pob ymdrech i fynd i'r afael â diffyg argaeledd diffoddwyr tân yn Nhywyn. Mae 'na bobl yn yr ardal fyddai'n [Diffoddwyr Tân] gwych, ond dydyn nhw ddim yn gwybod am y swydd, beth sydd ei angen, a bod angen i'r orsaf recriwtio pobl.
<b>63</b>	Dydw i ddim, mae'n ddrwg gennyf.
<b>64</b>	Dim sylwadau
<b>65</b>	Defnyddio ystod ehangach o sgiliau i sicrhau eich bod yn rhagweld y risgiau cynyddol sy'n gysylltiedig â rheoli digwyddiadau, ymosodiadau terfysgol, seiberddiogelwch ac ati...
<b>66</b>	Mae sicrhau sgiliau yn golygu bod gennych chi'r bobl iawn i wneud y gwaith i safon uchel.
<b>67</b>	Does gen i ddim sylwadau.
<b>68</b>	Er nad oes gennyf unrhyw welliannau, rwy'n credu bod y cynllun yn ardderchog.
<b>69</b>	Mae'n hanfodol sicrhau bod eich gweithle yn fedrus iawn. Mae hyn er mwyn sicrhau eich bod yn gallu cyfathrebu'n effeithlon â'r cyhoedd.
<b>70</b>	Dim sylwadau.
<b>71</b>	Rwy'n hoffi'r Egwyddor Pobl
<b>72</b>	Na.
<b>73</b>	Dim sylwadau.
<b>74</b>	Mae'n bwysig sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei gadw o fewn y sefydliad. Fodd bynnag, dylai hyn ddod ar ôl diogelwch cymunedol yn y rhestr flaenoriaethau. Dylid mabwysiadu strategaeth gyflogi fwy eang.
<b>75</b>	Nid ydych yn talu cyflogau da iawn [ar gyfer y system dyletswydd ar alwad].
<b>76</b>	Nid yw'n ymddangos eich bod yn ystyried pobl o wahanol gefndiroedd. Er enghraifft, nid yw gofynion mynediad yn cael eu crybwyll, ac mae hyn yn bwysig i bobl ifanc sy'n gadael ysgol yn gynnar neu ddim yn cael canlyniadau TGAU da iawn. Nid ydych chi'n sôn am bobl â chofnodion troseddol, mae pobl yn gwneud camgymeriadau, ond nid yw hynny'n golygu na fyddant yn ddiffoddwyr tân neu atgyweirwyr ardderchog yn trwsio'ch peiriannau tân ac ati.
<b>77</b>	Gall gofynion mynediad a chymwysterau sydd eu hangen arnoch roi pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is dan anfantais.
<b>78</b>	Bydd sicrhau bod y gweithlu'n fedrus ac yn ddwyieithog yn helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol yn Llangefni.
<b>79</b>	Mae angen mwy o bobl sy'n siarad Cymraeg oherwydd bod mwy o bobl sy'n siarad Cymraeg yn unig ac yn methu siarad â'r bobl sy'n ceisio eu helpu ond nad ydynt yn eu deall.
<b>80</b>	Dim sylwadau, diolch.

81	Hyderaf eich bod yn ystyried y risgiau a'r gwaith sydd ei angen i ddatblygu ymddiriedaeth gan ferched a menywod, yn enwedig y rhai sydd wedi dioddef camdriniaeth a'r rhai sy'n cael eu siomi gan weithwyr sydd bennaf yn ddynion. Fel cyflogwr dynion yn bennaf, bydd rhai menywod yn troi oddi wrth ymuno, felly mae hyn yn rhywbeth y mae angen i chi feddwl amdano wrth recriwtio. Mae angen ystyriaeth a gofal ar sut rydych chi'n recriwtio. Mae cael diffoddwyr tân benywaidd a menywod eraill yn weladwy yn hynod bwysig fel bod merched a menywod yn gweld y potensial a'u bod hefyd yn gweld nad dynion yn unig yw'r gwasanaeth tân ac achub mwyach. Fel Prif Swyddog Gweithredol [o Ganolfan Menywod Gogledd Cymru], gwelaf eich bod chi [GTAGC] yn gweithio'n galed i fod yn weladwy, ond ni fydd rhai o'r merched a'r menywod, na'r rhai [benywaidd] nad ydym yn eu cefnogi yn gweld yr yrfa bosibl o'u blaenau. Mae angen i ddynion fod yn weithgar ac yn weladwy. Mae croeso i chi ddefnyddio ein pencadlys yn y Rhyl neu safleoedd eraill i hyrwyddo recriwtio, ond bydd angen ymdrech a dod yn ôl dro ar ôl tro i feithrin ymddiriedaeth, ni fydd yn digwydd dros nos. Bydd gofal plant a lleihau contractau ar alwad yn sicr yn helpu mwy o fenywod i ystyried y posibilrwydd o ymuno â'ch gwasanaeth.
82	Rwy'n cefnogi'r egwyddor hon.
83	Nid oes ystyriaeth ar gyfer gofalcwyr ac rydych yn debygol o fod yn colli cyfle i recriwtio'r grŵp hwn o bobl sydd â llawer i'w gynnig o ran sgiliau a thalentau. Mae cannoedd o filoedd o bobl ledled Cymru yn cyfuno eu cyfrifoldebau gofalu di-dâl gyda chyflogaeth â thâl. I lawer, gall cydbwysu gwaith a gofal fod yn ymdrech wirioneddol, felly os oes gennych gynnig cynhwysol da yn eich cyflogaeth, gallwch wir elwa o recriwtio pobl sy'n ofalwyr. 41% yn darparu rhwng 20 a 50 awr o ofal yr wythnos, 59% hyd at 19 awr o ofal. Mae'r data hwn yn benodol i Gymru a gall y dystiolaeth ddefnyddiol hon eich helpu i ddeall bod gan ofalwyr y gallu a'r parodrwydd i newid gyrfa os yw'r cyfleoedd yn iawn ar eu cyfer.
84	Gwnewch yn siŵr eich bod yn recriwtio pobl sy'n siarad Cymraeg ac os nad ydych, eu bod yn dysgu'r iaith.
85	Bydd y canfyddiad a'r realiti o fod yn ddiffoddwr tân yn wahanol iawn i bobl sydd wedi mudo yma o dde Asia, y dwyrain canol a Wcráin. Mewn rhai o'r lleoedd hyn nid oes gwasanaeth tân, felly nid oes unrhyw ddyheadau gyrfaol 'i weithio i'r gwasanaeth tân pan ydw i'n hŷn', ni fydd y meddyliau hynny yno. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen i chi ei ystyried ac os oes gennych unrhyw bobl Asiaidd neu Arabaidd [diffoddwyr tân / staff], defnyddiwch nhw i hyrwyddo ac ymgysylltu. Rwy'n athro [yn Y Rhyl], ac mi wnes i synnu cymaint o bobl gan gynnwys y plant yn yr ysgol, rhieni a hyd yn oed athrawon eraill. Fi oedd yr unig fenyw Fwslimaidd yn gweithio yn yr ysgol, ond roedd gen i gymaint o blant Mwslimaidd yn dod ataf a dweud wrthyf pa mor hapus yr oeddent i'm gweld ac nid oeddent yn gwybod ei bod yn bosibl i fenyw Fwslimaidd fod yn athro. 'See it to be it', mae ei weld yn bwysig iawn.
86	Mae gwerth mewn recriwtio pobl o'r dwyrain canol, India a gwledydd eraill sydd â systemau addysg rhagorol. Mae ganddynt werthoedd cryf o ran addysg a dysgu a byddent yn gwneud gweithwyr rhagorol yn eich sefydliad.
87	Ddim yn y lle iawn ar hyn o bryd. Dim digon o ddarpariaeth yn yr ardal. Dim ond un injan dân sydd yn Whitchurch a dyw Prees ddim yn gallu recriwtio staff sy'n gadael Wrecsam i ddarparu'r Ddinas, sydd â risgiau heriol, poblogaeth sy'n tyfu, ystad ddiwydiannol, carchar, poblogaeth myfyrwyr, traffig yr A483. Mae ein cymunedau yn cael eu hanwybyddu ac mae hyn bellach ar gofnod.
88	Gwnewch y cynnig yn ddeniadol.
89	Rydych chi'n sôn am fod yn gynhwysol heb egluro mewn gwirionedd sut y byddwch chi'n cyflawni hyn.

<b>90</b>	Rwy'n cytuno â'r angen i recriwtio timau amrywiol, pam na ddylai menywod a grwpiau eraill weithio i chi, ond nid yw pobl yn gwybod eich bod chi'n recriwtio a pha mor wych y gallai fod i weithio i chi. Mae'r grŵp beicio lleol yn defnyddio'r ffyrdd lleol drwy'r flwyddyn ac nid yw rhai ohonynt yn gwisgo helmedau sydd ddim yn enghraifft dda i'r rhai ifanc [pobl] sy'n eu gwyllo.
<b>91</b>	Mae angen i chi ddeall iechyd meddwl os ydych chi am ofalu am weithwyr ag iechyd meddwl gwael. Gallant fod yn wych i chi, ond mae'n rhaid i chi fod yn garedig.
<b>92</b>	Efallai nad yw pawb am fod yn ddiffoddwr tân.
<b>93</b>	Dylech nodi'n glir pwy ydych chi'n ei olygu wrth gymunedau amrywiol, dylech restru grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac mae hyn yn dangos bwriad a sut rydych chi'n bwriadu recriwtio pobl, a gall hyn wneud i bobl (h.y. pobl awtistig) deimlo eu bod yn gymwys.
<b>94</b>	Cyflogi mwy o bobl hŷn sydd â llawer i'w gynnig o hyd.
<b>95</b>	Rwy'n teimlo nad oes unrhyw ystyriaeth ar gyfer iechyd meddwl o fewn eich cynllun ac mae'n hanfodol eich bod yn dangos empathi a charedigrwydd oherwydd pa mor gyffredin yw iechyd meddwl erbyn hyn. Bydd bron pob un o'ch staff yn dioddef straen ac angen cymorth, nid yw'n ymddangos yn gyfrifol i unrhyw gyflogwr modern beidio â chael iechyd meddwl fel blaenoriaeth, yn enwedig ar ôl yr holl ymchwil a ddaeth i'r amlwg fel rhan o'n rhaglen Golau Glas.
<b>96</b>	Dwyieithog ie, ond beth am ieithoedd eraill? BSL.
<b>97</b>	Lleoliad strategol staff pe bai'r ddwy bont sy'n cysylltu Gogledd Cymru ac Ynys Môn ar gau. Does bosib nad yw recriwtio pobl yn Ynys Môn yn flaenoriaeth i wrthbwysu'r posibilrwydd bod y ddwy bont yn cau, sy'n digwydd pan fydd stormydd neu wrthdrawiadau traffig difrifol.
<b>98</b>	Rydych chi'n chwarae rhan bwysig wrth gadw'r cyhoedd yn ddiogel.
<b>99</b>	Wrth sgwrsio â staff y gwasanaeth tân mewn digwyddiad cymunedol, fe wnaethant gadarnhau nad yw pob aelod o staff eich gwasanaeth yn derbyn ymwybyddiaeth iechyd meddwl, sy'n drueni mawr gan nid yn unig fod angen yr hyfforddiant arnoch, ond eich bod yn gallu helpu pobl rydych yn cyfarfod yn eich gwaith cymunedol ac wrth ymateb.

## Atodiad C

Cyf	EIN HEGWYDDOR ATAL – SYLWADAU YCHWANEGOL
1	<p>Mae'r newid parhaus i ddull sy'n cael ei ysgogi gan ddata yn galonogol iawn ac mae criwiau wedi ei groesawu'n llawn. Fodd bynnag, mae cyfleoedd pellach yn bodoli i wella effeithiolrwydd ein hymdrechion trwy gynyddu canran yr Archwiliadau Diogel ac lach risg uchel a gyflawnir gan ein criwiau. Trwy fuddsoddi mewn troshaenau data ychwanegol a chyflenwi criwiau â rhestr '50 stryd uchaf' wedi'i diweddarau - gan uwchleuo ffyrdd gyda'r nifer uchaf o unigolion risg uchel - gallai gwaith criwiau gael ei dargedu hyd yn oed yn fwy. Er enghraifft, mae croesgyfeirio pobl dros 75 oed ag unigolion sy'n byw ar eu pennau eu hunain yn treblu'r sgôr risg ar gyfer yr aelwydydd hynny o'i gymharu â chyplau dros 65 oed. Gallai symud o dargedau â niferoedd uchel i nodau sy'n canolbwyntio mwy ar ansawdd hefyd chwyldroi ein dull gweithredu a sicrhau canlyniadau sylweddol. Yn hytrach na threulio awr lawn bob shifft ar dargedu pobl dros 65 oed yn eang, gallai criwiau rannu eu hamser yn fwy effeithiol - gyda hanner yr amser yn canolbwyntio ar strydoedd gyda'r gyfran uchaf o bobl dros 75 oed yn byw ar eu pennau eu hunain - a defnyddio'r amser sy'n weddill i gydweithio o amgylch y bwrdd yn defnyddio eu gwybodaeth dopograffig a'u cysylltiadau Cymunedol dwfn i gynllunio mentrau Diogelwch Cymunedol pwrpasol. O ystyried bod rhai grwpiau risg uchel (fel y rhai sy'n cael eu heffeithio gan gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol neu broblemau iechyd meddwl) yn dod o dan gyfyngiadau GDPR, mae'n hanfodol manteisio ar greadigrwydd a gwybodaeth leol ein criwiau i ddod o hyd i ffyrdd eraill o dargedu'r grwpiau hyn. Bydd caniatáu amser ar gyfer sesiynau taflu syniadau, lle gall timau weithio'n agos gyda'r adran Diogelwch Cymunedol a defnyddio eu dealltwriaeth o gymunedau lleol, yn ein galluogi i gynllunio mentrau diogelwch hyd yn oed yn fwy effeithiol a lleol. Trwy gyfuno'r dull meintiol, sy'n cael ei arwain gan ddata, gydag un ansoddol, wedi'i ysgogi gan greadigrwydd, gallem weld ein darpariaeth o Archwiliadau Diogel ac lach risg uchel yn cynyddu'n sylweddol.</p>
2	<p>Rwy'n teimlo bod angen i ni wella'r ffordd rydym yn ennyn diddordeb a chysylltu â grwpiau amrywiol yn y gymuned. Mae yna ormod o grwpiau o hyd nad ydym yn methu â chysylltu â nhw'n effeithiol. Er enghraifft, cymunedau Tsieineaidd, Indiaidd. Fel Gwasanaeth, rydym yn gwneud gwaith rhagorol o ran diogelwch ar y ffyrdd, diogelwch dŵr ac ymgysylltu â phlant mewn ysgolion.</p>
3	<p>Rwy'n teimlo'n ddiogel gartref. Mae fy landlord yn trefnu popeth ar fy rhan.</p>
4	<p>Plant yn chwarae yn y ffordd ac yn croesi'r ffordd heb edrych. Plant yn beryglon, hyd yn oed pan fyddant gyda'u rhieni, sy'n dangos bod angen addysgu rhieni.</p>
5	<p>Ydych chi'n ystyried risgiau sy'n effeithio ar bobl Awtistig?</p>
6	<p>Gweithio'n agos ag agenda iechyd asiantaethau eraill fel y trydydd sector a'r GIG.</p>
7	<p>Ie. Mae gennych fy nghefnogaeth lawn.</p>
8	<p>Mwy o sylw ar dipio anghyfreithlon. Llosgi bwriadol a throeddau casineb. Gwelais losgi bwriadol ym Mangor yn targedu myfyrwyr Tsieineaidd ar Ffordd Caergybi. Can nwy yn cael ei arllwys ar fin sbwriel a gafodd ei droi drosodd a'i roi ar dân. Blocio'r drws. Cafodd yr heddlu ei hysbysu ond ni wnaed dim yn ei gylch. Gwelais y cyfan yn digwydd trwy adlewyrchiad yn fy ffenestr felly rwy'n gwybod bod hyn wedi digwydd.</p>
9	<p>Archwiliadau Diogel ac lach yn bwysig. Profiad cadarnhaol o GTAGC yn gosod synhwyrdd tân yn y gorffennol. Camfanteisio ar bobl anabl neu droseddau cyfeillio yn Ninbych. Mae hyn wedi cael ei adrodd i'r heddlu. 20mya ddim yn gweithio yn ardal Dinbych. Mae tractorau yn mynd yn fwy ac yn mynd yn gyflymach. Rwyf wedi gweld nifer o yrwyr tractor ar eu ffôn wrth yrru. Mae hwn yn broblem fawr yn Ninbych.</p>
10	<p>Mae nifer o bobl yn dal i ddefnyddio sosbenni sglodion yn Ninbych.</p>
11	<p>Mae ceir trydan sy'n mynd ar dân yn bryder mawr.</p>

12	Mae sgwteri symudedd a sut maen nhw'n cael eu storio a'u gwefru y tu mewn i dai ac adeiladau yn peri pryder.
13	Mae'n swnio fel eich [GTAGC] bod yn gwneud gwaith gwych. Rhoi cyngor rheolaidd, mae 'Profwch eich Larwm' a'r mathau hyn o negeseuon yn gweithio'n dda.
14	Diogelwch dŵr, ymgyrchoedd atal boddi a chydabod pobl (grwpiau ethnig o bobl) sydd ddim yn gall nofio.
15	Mae gosod larymau tân yn wasanaeth gwych rydych chi'n ei ddarparu.
16	Dim cyfeiriad at fyfyrwyr yn eich cynllun. Mae'r boblogaeth myfyrwyr yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r economi ac ni ddylid bychanu eu bodolaeth.
17	Mae'n debyg ei fod yn gwneud synnwyr.
18	Cadwch ati o ran y neges diogelwch dŵr. Serch hynny, cawsom gyngor defnyddiol pan symudon ni i'r ardal.
19	Mae [eich Gwasanaeth] yn gweithio mewn partneriaeth â'r ganolfan hamdden i ddarparu gwersi nofio am ddim neu am bris gostyngol. Mae nofio yn ddrud iawn i fyfyrwyr.
20	le.
21	Yn yr un modd ag iechyd, mae cost atal yn well nag ymateb.
22	Cytuno'n gryf.
23	Llawer o sefyllfaoedd. Ffordd Caergybi, rhai peryglon o losgi bwriadol, adeiladau sydd mewn perygl [o gael eu rhoi ar dân]. Mae tai myfyrwyr y Santes Fair, yn agos at gwrs golff, yn y cefn mae man poblogaidd i bobl ifanc sy'n tanio tân gwyllt ar wahanol adegau (ac ar hap) o'r flwyddyn, nid dim ond yn ystod Calan Gaeaf. Problem enfawr gyda barbeciws, yn enwedig yn yr Haf, fel arfer preswylwyr [nid myfyrwyr sydd fel arfer yn cael y bai].
24	Tân gwyllt a barbeciws yn ardal y cwrs golff y tu ôl i Dai Myfyrwyr y Santes Fair [roedd myfyriwr yn arfer byw yno].
25	Er nad yw'n broblem enfawr, mae defnydd diogel o ganhwyllau yn ddefnyddiol. Mae'r myfyrwyr yn eu defnyddio [canhwyllau].
26	Mae rhai myfyrwyr rhyngwladol yn teimlo'n ynysig. Cyffredin iawn ym Mangor. Mae pobl [yn colli siarad] eu hieithoedd brodorol lle maen nhw'n gallu dathlu diwylliant a chyda pethau yn gyffredin ag eraill. Yn wahanol i [fyfyrwyr] Tsieineaidd neu Indiaidd sy'n astudio mewn niferoedd mawr [ac yn siarad yr iaith a chymdeithasu]. Nid yr un peth i genhedloedd Ewropeaidd llai [fel y Ffindir].
27	Darparu gwasanaethau yn Gymraeg.
28	Angen buddsoddiad gwell mewn atal.
29	Rydych chi'n ymgysylltu'n dda. Bob amser mewn digwyddiadau ac ymweld â'r brifysgol. Mae archwilio cartrefi yn beth da i'w wneud.
30	Rydyn ni'n gweld [REDACTED] [REDACTED] mewn digwyddiadau ac mae hi'n rhoi cyngor i ni i helpu i gadw'n ddiogel.
31	Mae'r digwyddiadau Cerdded a Siarad yn dda [Wrth gyfeirio at y teithiau Cerdded a Siarad ar gyfer pobl â Dementia mae'r fîm atal yn trefnu ddwywaith y flwyddyn].
32	Mae rhybuddion tywydd yn wael ac nid yw'r swyddfa dywydd yn rhoi gwybod yn ddigon cyflym [pan fydd tywydd garw ar fin digwydd]. [Gwnaethpwyd hyn gan gyfeirio at ragolygon y tywydd ddim yn rhagweld eira ym Mangor yr wythnos hon.]
33	Rwy'n hoffi eich gwasanaeth Diogel ac lach.
34	Gall rhaglenni cadetiaid fod o fudd i bobl ifanc a chael pobl ifanc i gymryd rhan yn yr hyn rydych chi'n ei wneud.
35	Rwy'n gweld bod y ffyrdd yn ardal Bagillt, Maes-glas a Mostyn yn dioddef llifogydd eithriadol heb unrhyw fesurau ataliol a llawer o broblemau, gyda draeniau'r ffordd yn gwthio dŵr yn ôl ar y ffyrdd.
36	Darparu gweithdai mewn colegau.

37	[Ni wyddwn i] erioed am y gwasanaeth hwn [Archwiliad Diogel ac Iach], felly mae'n amlwg bod angen gwell hysbysebu felly.
38	Adnoddau mewn Pwyleg ysgrifenedig a llafar.
39	Boddi yn afon Conwy rhai dyddiau yn ôl. Mae'n frawychus bod hynny'n gallu digwydd. Mae gormod o bobl yn methu nofio. Nid yw hanner y bobl yn yr ystafell hon yn gallu nofio.
40	Mae atal yn mynd y tu hwnt i'r rhai mwyaf agored i niwed. Beth am bobl sydd bron yn agored i niwed?
41	Cytuno i ryw raddau, ond yn anghytuno'n bennaf oherwydd na ddylai gosod larymau tân fod yn seiliedig ar oedran a phobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain. Mae gan rai pobl bartneriaid sy'n gweithio i ffwrdd. Y fyddin, er enghraifft.
42	Doeddwn i ddim yn gwybod bod gennych chi staff llawn amser sy'n cynnal yr archwiliadau diogelwch yn y cartref hyn. Ffordd dda o ddod o hyd i bobl sy'n cael trafferth byw ar eu pennau eu hunain.
43	Mae'r swyddi atal rydych chi wedi'u trafod yn swnio'n berffaith i bobl hyn a'r rhai sydd am newid gyrfa.
44	Ers i mi fyw yn y cartref [Cartref Gofal], rwyf wedi sylwi ar fwy a mwy o bobl â symudedd cyfyngedig iawn. Pobl yn byw yn hirach.
45	Gallai hyfforddiant iechyd meddwl ar gyfer eich staff wella dealltwriaeth a'r gwasanaeth a ddarperir.
46	Mae'n swnio'n dda i mi.
47	Ni allwch gyflwyno digon o addysg. Ewch i mewn i'r ysgolion. Gadewch i bobl wybod.
48	Cytuno'n gryf.
49	Mae gen i larymau tân gweithredol a osodwyd gan y gwasanaeth tân rhai blynyddoedd yn ôl.
50	Mae gen i larwm CO <sub>2</sub> , ond nid wyf wedi cael unrhyw larwm tân sy'n gweithio ers tair blynedd. Bu farw'r gwŷr ac ef oedd yn rhoi trefn ar bopeth. Fe wnes i eich ffonio chi [GTAGC], ond fe wnes i newid fy rhif oherwydd bod y contract ffôn/band eang wedi newid. Mae archwiliadau diogel ac iach yn bwysig.
51	Mae gen i larymau tân, plât dirgrynu o dan fy ngobennydd. Rwy'n colli fy nghlyw ac yn ddiweddar dechreuais wisgo cymhorthion clyw. Wedi'i osod gan Medicare ac mae Cyngor Sir y Fflint yn trefnu popeth.
52	Rwyf wedi gofyn am archwiliad diogel ac iach o'r blaen, ond dwi erioed wedi clywed yn ôl er gwaethaf gadael cwpwl o negeseuon llais. Rwyf dros 65 oed, yn byw ar fy mhen fy hun ac wedi cael strôc
53	Rhestrwch faterion atal yn rhan gyntaf yr holiadur.
54	Nid yw pobl yn defnyddio manau croesi ffordd.
55	Rwy'n cytuno. Fodd bynnag, mae nifer y cerbydau sy'n teithio ar yr A5 wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd yr A55 i fod i leihau'r traffig trwy Ynys Môn ond mae'n ymddangos nad oes neb yn mynd i'r afael â'r nifer cynyddol o faniau, cerbydau nwyddau trwm, a cheir sy'n rasio drwedd.
56	Nid oes gennych "cytuno" yn unig, felly mae hyn yn gwyrddroi'r atebion.
57	Mae Coedpoeth yn lle gwell ers i'r rheol 20mya fod mewn lle. Angen llinellau melyn dwbl ar hyd y brif ffordd wrth ASDA. Ni ddylid caniatáu parcio ar y ffordd gan fod hyn yn achosi perygl gwirioneddol ac mae'n fater o amser cyn i ddamwain ddigwydd. Mae angen sylw ar arwynebau ffyrdd a'u huwchraddio wrth i chi deithio i Landegla a Rhuthun. Mae yna broblemau amaethyddol gyda thorwyr gwrychoedd yn gadael brigau ar y ffordd, sy'n peri pryder fel rhedwr ar y ffordd a beiciwr rheolaidd.
58	Mae'n dda bod y gwasanaeth tân yn canolbwyntio arnom [pobl hyn]. Rwy'n teimlo'n ddiogel gartref.
59	Fel y dywedwyd, sicrhau bod y larwm cywir yn cael ei roi ar gyfer eu hanghenion.

60	Diffoddwyr yn helpu mwy yn Ne Gwynedd. Gellir mynd i'r afael â hyn gyda mwy o ddiffoddwyr tân llawn amser wedi'u lleoli yn yr ardaloedd hyn.
61	Mae eich gwaith atal yn bwysig.
62	Cytuno'n gryf.
63	Mae llifogydd yn broblem fawr yn yr ardal hon. Aeth lori yn sownd yr wythnos diwethaf. Achub mewn dŵr. Hyfforddwch staff Dolgellau.
64	Cytuno, ond rydym yn gweithio yn adeiladau'r cyngor sydd â larymau tân ac asesiadau risg tân ar waith. Nid oes angen i chi osod larymau.
65	Rydym yn gweithredu mewn adeilad y cyngor, felly mae gennym larymau tân ac ymarfer larwm tân.
66	Diffyg ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddementia oherwydd ei fod yn anweledig ac yn gudd. Barn y cyhoedd yw bod pobl yn edrych yn iawn, nid ydynt yn anabl neu'n agored i niwed, pan fyddant mewn perygl llawer o'r amser. Nid yw draeniau'n cael eu clirio mwyach ac mae hyn yn achos sylfaenol i lawer o'r llifogydd mewn trefi gan nad oes unrhyw le i'r dŵr fynd. Mae llifogydd yn rhwystro ffyrdd. Rwyf wedi gweld y ffyrdd yma [yn ardal Caernarfon] ers blynyddoedd lawer ac nid yw maint y glaw sy'n disgyn wedi newid llawer dros y blynyddoedd, ond mae angen trefnu gallu naturiol dŵr i fynd trwy'r draeniau a llifo i ffwrdd cyn gynted â phosib. Mae'n arbennig o wael ar y ffordd rhwng castell Caernarfon a Phwllheli ac ar hyd y ffyrdd arfordirol.
67	Arwyddion i helpu i bobl osgoi mynd ar goll, yn enwedig yng nghyfnod prysuraf yr haf pan fydd trefi arfordirol yn brysur gyda phobl a thwristiaid ychwanegol.
68	Mwy o wrthdrawiadau ar y ffordd yn ystod misoedd yr Haf.
69	Parhau i gynyddu ymwybyddiaeth ddiogelwch o nwyddau trydanol.
70	Hapus iawn gyda'r rheol 20mya, yn enwedig yng nghanol trefi, ysgolion ac ardaloedd adeiledig.
71	Gall diffoddwyr tân benywaidd helpu i ymgysylltu a chyfathrebu â menywod eraill. Mae'n well gen i siarad â menyw i fod yn onest. Rwy'n cytuno bod y rheol 20mya wedi bod yn newid cadarnhaol.
72	Mae'r rheol 20mya yn gweithio'n dda yn Y Bala.
73	Yn debyg i'r dull posibl o recriwtio, y ganolfan hamdden yw'r lle delfrydol i hyrwyddo eich negeseuon atal a'ch gweithgareddau ymgysylltu. Rydym yn cynnal diwrnodau ymgysylltu â'r ysgol sy'n gweld cannoedd o blant ysgol yn y ganolfan. Mae Heddlu Trafnidiaeth Prydain yn cynnal digwyddiadau llwyddiannus yma mewn partneriaeth â Network Rail. Mae gwyliau pêl-droed yn brysur. Efallai y gallai GTAGC noddi digwyddiad a chael eich enw allan yna.
74	I rai pobl LHDTC+ mae ynysigrwydd cymdeithasol neu'r risg o fod yn ddigartref yn wir. Mae rhai pobl yn fwy tebygol o ddefnyddio cyffuriau, alcohol, ysmegu ac mewn mwy o berygl o dân oherwydd ffactorau o'r fath. Ydych chi'n ystyried hyn?
75	Mae rhwystrau i bobl LHDTC+ ymgysylltu a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Efallai y bydd yr un bobl LHDTC+ gyfiwyo'r un heriau wrth gael mynediad at yrfaeod ac efallai na fydd pobl LHDTC+ yn credu bod ymuno â'r gwasanaeth yn bosibl. Trwy weithgareddau corfforol, gall eich gwasanaeth ddenu pobl LHDTC+, felly gall gweithio gyda phartneriaid eich helpu i ymgysylltu.
76	Mae e-feiciau ac e-sgwteri yn broblem enfawr. Gwelwn blant a phobl ifanc yn siarad gyda balchder am ymddygiad gwrthgymdeithasol a hyd yn oed llosgi bwriadol a chamddefnyddio tân pan fo barbeciws wedi'u gosod ar deithiau gweryslla. Mae staff datblygu chwaraeon a hyfforddwyr chwaraeon mewn sefyllfa dda i addysgu a throsglwyddo'ch negeseuon ar eich rhan a hyd yn oed eich gwahodd i siarad â'r bobl ifanc, er y gall gwisg fod yn rhwystr ambell waith.
77	Pryderon enfawr sy'n gysylltiedig â'r aber [yn Nhywyn] llanw a llifeiriain cryf nad yw pobl yn eu disgwyl.

<b>78</b>	Dim sylwadau.
<b>79</b>	Na.
<b>80</b>	Dim sylwadau
<b>81</b>	Mae atal yn rhatach ac yn well na cheisio canfod ateb.
<b>82</b>	Does gen i ddim sylwadau.
<b>83</b>	Mae'n dda ond yn anodd ei ddeall.
<b>84</b>	Mae hyn yn bwysig os yw pobl yn barod i fynychu'r digwyddiadau. Cyn belled â bod gennych eich cynulleidfa yna rwy'n credu bod addysgu'r rhai sy'n fwy agored i niwed yn hanfodol.
<b>85</b>	Dim sylwadau.
<b>86</b>	Rwy'n ei hoffi yn fawr iawn.
<b>87</b>	Rwy'n credu ei fod yn berffaith.
<b>88</b>	Mae'n darparu cynllun eang a manwl iawn i gadw gwahanol sefydliadau a phobl yn ddiogel.
<b>89</b>	Dim sôn am ddarpariaeth addas i'r ifanc y mae sefydliadau sector cyhoeddus eraill yn ei darparu. Mae Gwasanaeth Tân Glannau Mersi yn gwneud llwyth o brosiectau ar gyfer pobl ifanc, mae'n siomedig nad yw Gogledd Cymru yn gwneud hynny.
<b>90</b>	Rwy'n credu bod hyn yn syniad da.
<b>91</b>	Dim sylwadau.
<b>92</b>	Mae gan y Gwasanaeth Tân ac Achub enw da. Mae eich cynllun yn ymdrin â themâu pwysig iawn sy'n ymwneud â diddordeb cynnar, trawma, pobl iau, archwiliadau diogelwch yn y cartref. Mae digartrefedd yn grŵp o bobl yr ydym yn eu hystyried yn flaenoriaeth uchel ac efallai y bydd angen rhoi rhywfaint o sylw i lawer o ymddygiad, mae cynnau tanau i gadw'n gynnes yn un amlwg, mae defnyddio cyffuriau ac alcohol hefyd yn risg. Y cylch cyson y mae'r grŵp hwn o bobl yn ei wynebu oherwydd nad ydynt yn gallu cael swydd, ni fydd cyflogwyr yn rhoi swydd iddynt heb gyfeiriad sefydlog na chyfrif banc, sy'n parhau i fod yn broblem enfawr yng Ngogledd Cymru. Mae diffyg tai a llety ar gyfer pobl pan fyddant yn gadael y carchar; weithiau maent yn cael pabell a'u gadael heb gymorth priodol (neu mae rhai pobl yn dewis gwrthod derbyn cymorth a gynigir oherwydd diffyg hyder yn y gwasanaethau). Mae iechyd meddwl yn broblem enfawr a gallai hyn fod yn fwy blaenllaw yn eich egwyddor atal, er eich bod wedi dweud [yn bersonol], bod iechyd meddwl yn rhywbeth rydych chi'n ei ddefnyddio i flaenoriaethu ychydig o waith atal.
<b>93</b>	Rwy'n cefnogi'r egwyddor hon.
<b>94</b>	Nid oes gan eich cynllun unrhyw ystyriaeth ar gyfer gofalwyr (taledig a di-dâl). Bydd rhai gofalwyr hŷn yn gofalu am eu partneriaid ac yn aml mae gormod o bwysau arnynt, sy'n effeithio ar eu hiechyd corfforol, eu hiechyd meddwl a'u lles.
<b>95</b>	Siaradwyr Cymraeg ym mhob fîm os gwelwch yn dda. Mae eich sesiynau cerdded a siarad [gyda grwpiau dementia] ac ymgysylltu â phobl hŷn yn bwysig. Mae ymgysylltu â ffoaduriaid a phobl sydd wedi'u dadleoli yn bwysig hefyd.
<b>96</b>	Rwy'n awgrymu gweithio'n agos gyda'r Groes Goch Brydeinig wrth symud ymlaen oherwydd gallwn eich helpu i gysylltu'n uniongyrchol â phobl rydych chi am eu targedu [negeseuon diogelwch], a recriwtio pobl. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal sesiynau amrywiol gan gynnwys Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), gweithdai cynghori, banc bwyd ac ati.
<b>97</b>	Mae'n ddull da o recriwtio pobl o gefndiroedd amrywiol.
<b>98</b>	Nid oes digon o waith wedi'i wneud i atal damweiniau ar y ffordd. Mae'n rhaid i'r heddlu a'r gwasanaeth tân wneud mwy.
<b>99</b>	Nid yw eiddo yn yr ardal hon yn derbyn gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Does neb yn codi'r ffôn pan fyddwch chi'n ffonio'r gwasanaeth tân.



<b>100</b>	Mae eich archwiliadau diogelwch mewn tai yn gweithio'n dda. Colli gwaith diogelwch allweddol arall y mae'n ymddangos bod Swydd Amwythig a Sir Gaer yn ei hyrwyddo. Dydych chi byth yn sôn am Afon Dyfrdwy yn gorlifo.
<b>101</b>	Mwy o hyrwyddo wyneb yn wyneb a phresenoldeb mewn grwpiau cymunedol.
<b>102</b>	Parhau i osod larymau tân.
<b>103</b>	Mae ymgyngoriad ynghylch a ddylid datblygu parc cenedlaethol newydd ac mae hyn yn cynnwys ardal enfawr lle rwy'n byw [ger Llangollen]. Bydd parc cenedlaethol yn dod â llawer o bobl i'r ardal a fydd yn ei dro yn dod â risgiau enfawr, traffig ychwanegol ac ni fydd y ffyrdd yn ymdopi, sbwriel ac wrth gwrs bydd gweryllwyr a barbeciws [cynnydd posibl mewn perygl tân] yn broblem fel parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru.
<b>104</b>	Mae eich cynllun yn amlinellu rhai pwyntiau pwysig.
<b>105</b>	Dylech ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl i'ch staff sy'n gweithio gyda'r cyhoedd.
<b>106</b>	Mae pobl sydd â dyslecsia yn cynyddu. Cadwch wybodaeth [diogelwch] yn rhydd o iaith dechnegol ac osgoi geiriau cymhleth.
<b>107</b>	Dylech ystyried risg yn seiliedig ar anabledd ac iechyd unigolyn.
<b>108</b>	Cynnal safonau uchel yn eich ymdrechion gwaith atal.
<b>109</b>	Mae eich cynllun yn ymdrin â llawer o bynciau pwysig.
<b>110</b>	Nid yw gwasanaethau sy'n defnyddio iaith Arwyddion Prydain (BSL) mewn gwirionedd yn cael eu cynnwys ar eich gwefan. Mae gennych chi un dudalen <a href="http://www.youtube.com/embed/jlKtycoedyA">www.youtube.com/embed/jlKtycoedyA</a> , ond dim byd arall sy'n darparu gwybodaeth ac nid oes gan lawer o'r fideos rydych chi'n eu gosod ar y cyfryngau cymdeithasol gapsiynau neu is-deitlau. Ddim yn gynhwysol does bosib.
<b>111</b>	Pobl sy'n agored i niwed.
<b>112</b>	Roedd yn dda clywed bod y gwasanaeth tân wedi gosod synwryddion CO <sub>2</sub> a larymau tân ar gychod camlas fel rhan o'ch gwasanaethau atal. Anaml y byddwn yn cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus ar y cwch ac mae'r rhan fwyaf o wasanaethau'n anghofio amdanom.
<b>113</b>	Nifer cynyddol o bobl ag iechyd meddwl niweidiol sy'n eu rhoi mewn mwy o risg o niwed ac anaf. Mae pobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain yn arbennig o agored i niwed.
<b>114</b>	Mae budd enfawr i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ddod yn Sefydliad Dementia-Gyfeillgar achrededig y gellir ei gyflawni trwy Ffrindiau Dementia Wrecsam. Rydym [Home Instead] yn gweithio'n agos gyda'ch gwasanaeth ac rydym yn gweithio'n dda fel fîm i gyfeirio pobl sydd mewn perygl i dderbyn archwiliadau diogel ac iach a chyngor gan eich adran diogelwch yn y cartref.

## Atodiad D

Cyf	EIN HEGWYDDOR DIOGELU – SYLWADAU YCHWANEGOL
1	Dylech sicrhau bod yr adeiladau yr ydych yn eu nodi yn "risg uchel" yn cynnwys y rhai a allai fod â dau lawr yn unig ond sy'n cynnwys nifer sylweddol o beryglon tân a risgiau, gan gynnwys rhai llety gwyliau hunanarlwyo.
2	Nid wyf yn gwybod llawer am waith diogelu, ond mae'n ymddangos ein bod yn ymdrin â llawer o feysydd allweddol o ran cadw pobl yn ddiogel. Mae'n ymddangos ein bod yn cymryd dull cefnogol a all fod o fudd i fusnesau a landlordiaid lleol ac mae'r dull hwn hefyd yn helpu i feithrin perthynas â chwmnïau lleol/perchnogion busnes.
3	Dwi'n gweithio yn yr ysbyty [Maelor Wrecsam] ac yn ddiweddar roedd sefyllfa pan ganodd y larwm tân a doedd gen i ddim syniad beth i'w wneud. Yn naturiol gadewais yr adeilad trwy'r allanfa dân, ond ni ddaeth neb i weld lle'r oeddwn i na sut roeddwn i. Roeddwn i'n gweithio'n hwyr ac ar ben fy hun. Roeddwn i'n synnu na ddaeth neb i weld fy mod i'n iawn ac rwy'n aelod newydd o staff heb unrhyw syniad o'r adeilad hwn.
4	Mae siopau bwyd yn ymddangos yn ddiogel [Yn Wrecsam], ond mae'r Rhaglen Arolygu Seiliedig ar Risg (RBIP) yn fesur da i gadw cymunedau'n ddiogel.
5	Cynnal mwy o ymweliadau busnes o dan gynllun yn fwy na Gwybodaeth Risg Benodol i Safle (SSRI).
6	Ddim yn deall y gwaith hwn yn llawn, ond mae'n edrych fel bod y cynllun wedi'i gynllunio'n ofalus.
7	Mae hen Ysbyty Gogledd Cymru [Yn Ninbych] yn ansefydlog iawn ac yn beryglus erbyn hyn. Roedd staff diogelwch yn arfer bod yno, ond nid mwyach. Mae risgiau mawr ac mae plant yn eu harddegau yn ymgasglu yno ar nosweithiau a phenwythnosau.
8	Sgwteri symudedd a sut maent yn cael eu storio a'u gwefru y tu mewn i fusnesau lleol, caffis, bwytai, cartrefi gofal ac ati.
9	Mae archwilio landlordiaid i sicrhau bod myfyrwyr yn ddiogel yn beth da.
10	Mae yna fwch amlwg ynghylch nad oes angen i landlordiaid Tai Amlfeddiannaeth gyflwyno asesiad risg tân er mwyn i'r awdurdod lleol roi trwydded i'r landlordiaid. Siawns nad yw hwn yn gyfle i wirio bod gan landlordiaid bopeth mewn lle.
11	Nid yw'n glir sut rydych chi'n cadw myfyrwyr yn ddiogel. Mae rhai landlordiaid gwael o gwmpas.
12	Mae diogelwch adeiladau yn helpu i gadw pawb yn ddiogel.
13	Nid oes unrhyw broblemau gyda'n landlordiaid. Larymau tân yn gweithio.
14	Doeddwn i ddim yn gwybod bod busnes yn cael cefnogaeth [gan y gwasanaeth tân]. Gallech chi roi cyngor diogelwch i landlordiaid sy'n gallu trosglwyddo gwybodaeth i ni [y tenantiaid].
15	Ie.
16	Diogelwch y cyhoedd.
17	Cytuno'n gryf.
18	Cefnogi busnesau drwy gyfrwng y Gymraeg.
19	Ddim yn deall y rhan hon mewn gwirionedd.
20	Mae atal yn well na datrys.
21	Gwnewch esiampl ohonyn nhw pan maen nhw [cyfeiriad penodol at fusnesau lleol] yn gwneud cawl o bethau [torri'r gyfraith].
22	Rhaid amheus [Cyfeiriad penodol at fannau sy'n gwerthu bwyd a siopau bwyd parod] yn Shotton / Cei Connah.
23	Gofalu am gartrefi gofal ac adeiladau preswyl.
24	Bydd unrhyw gyngor y gallwch ei roi i [Cartref Gofal] Gae Garnedd yn helpu i'n cadw'n ddiogel.
25	Llawer o adeiladau anniogel ym Mwcle, Cei Connah a Queensferry.

<b>26</b>	Adeiladau heb eu defnyddio yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth. Lle ar Ffordd Caer. Ychydig o leoedd ym Mwcle. Mae ceir sy'n cael eu gadael dros nos mewn meysydd parcio yn berygl tân.
<b>27</b>	Archwilio busnesau i gadw pobl yn ddiogel.
<b>28</b>	Canllawiau i fusnesau, ie. Ym mha fformatau ydych chi'n gwneud hyn?
<b>29</b>	Ni ddylai perchnogion busnes gymryd cyfrifoldeb am eu materion eu hunain.
<b>30</b>	Nid yn cytuno/anghytuno mewn gwirionedd. Yn bennaf yn cytuno yn hytrach nag anghytuno.
<b>31</b>	Mae'n bwysig oherwydd bod angen iddynt wneud lleoedd yn hawdd eu cyrraedd fel rampiau i'r rhai sydd ag anableddau.
<b>32</b>	Angen gwneud yn siŵr bod y peth yn cael ei buddsoddi yn ein cymuned yn enwedig ar gyfer pobl oedrannus.
<b>33</b>	Rwy'n byw mewn llety ar rent felly mae larymau tân wedi'u gosod gan fy landlord. Mae'r rhan fwyaf o landlordiaid yn cydymffurfio oherwydd eu bod yn gosod eu hystafelloedd i dwristiaid ac mae angen i bopeth fod yn iawn.
<b>34</b>	Mae angen y gwaith hwn. Mae llawer o weithredwyr twyllodrus yn yr ardal. Celcwyr mewn fflatiau ychydig oddi ar y brif stryd fawr, llenni bob amser ar gau.
<b>35</b>	Beth ydych chi'n ei archwilio? Yn sicr nid llwybrau diangfeydd tân a mynd allan o fusnesau yn Abermo. Mae Porthmadog yr un peth.
<b>36</b>	Dwi ddim yn siŵr am leoedd eraill [Cartrefi Gofal], ond mae gennym ymarfer wythnosol [Profion Larymau Tân] ac mae pawb yn gwybod beth i'w wneud [Allanfeydd tân, yr allanfa agosaf] ac rydyn ni i gyd yn teimlo'n ddiogel.
<b>37</b>	Rydym yn adeilad mawr felly mae'n gysur gwybod bod yr adeiladau'n cael eu harchwilio.
<b>38</b>	Nid yw eich system bresennol yn gweithio. Mae gormod o fusnesau yn gweithredu arferion anniogel. Nid yw timau heb unrhyw swyddog cymorth cyntaf yn dda. Gweithwyr asiantaeth yn dod i mewn a dim yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wybod. Bydd rywbeth difrifol yn digwydd yn Kronaspan yn hwyr neu'n hwyrach.
<b>39</b>	Cytuno'n gryf.
<b>40</b>	Ie.
<b>41</b>	Rwy'n teimlo bod angen i chi ystyried sut mae archfarchnadoedd yn newid yr isadeiledd yn eu siopau mawr. Mae pobl yn dwyn ac mae Covid wedi gwneud i archfarchnadoedd feddwl am gadw pobl i symud, ond mae 'na dagfa, mae archfarchnadoedd yn mynd yn brysur iawn, pobl ym mhobman, yn llethol. Dim staff o gwmpas i helpu. Mae cewyll mewn eiliau yn achosi rhwystr. Mae Aldi ym Mrychdyn yn ddrwg iawn.
<b>42</b>	Ie.
<b>43</b>	Ie.
<b>44</b>	Mae angen gwneud llawer mwy i fynd i'r afael â materion mewn archfarchnadoedd. Es i yn sownd mewn lifft unwaith yn ASDA ac roeddwn i yno am oesoedd. Yn Tesco ym Mrychdyn, mae pobl yn gadael troliâu yn y maes parcio sy'n beryglus. Byddai pobl yn gadael troliâu mewn eiliau cul mewn archfarchnad a all ei gwneud hi'n anodd dianc pe bai tân ac argyfwng.
<b>45</b>	Cytuno'n gryf.
<b>46</b>	Nid oes gennych "cytuno" yn unig, felly mae hyn yn gwyrdroi'r atebion.
<b>47</b>	Bydd wastad tanau, ond rwy'n credu bod angen mwy o archwiliadau a gwiriadau mewn busnesau lleol, er enghraifft, siopau bara. Tân mawr yno rhai blynyddoedd yn ôl.
<b>48</b>	Lleoliadau anhygyrch. Doeddwn i ddim yn sylweddoli nes i mi fod mewn cadair olwyn.

<b>49</b>	Mae angen i'r gwasanaeth tân gyfathrebu a hyrwyddo diogelu yn llawer gwell. Darllenais lawer o newyddion ac nid wyf erioed wedi clywed am ddiogelu, yn wahanol i'ch gwaith atal. Rydyn ni'n gweld y fîm diogelwch tân ac maen nhw'n dweud wrthym beth sy'n digwydd.
<b>50</b>	Cadw staff busnesau lleol. Mae'r wefan yn dda, ond mae cyngor wyneb yn wyneb yn dda hefyd.
<b>51</b>	Cytuno'n gryf.
<b>52</b>	Mae gan lawer o siopau rampiau ond mae manau tynn pan fyddwch yn yr adeilad. Llyfrgell. Lle cyfyng.
<b>53</b>	Gellir gwneud mwy yn 2024 i ddatrys mynediad i mewn ac allan o adeiladau. Lle cyfyngedig.
<b>54</b>	Mae gen i lawer o bryderon yn ymwneud â'r hygyrchedd gwael i mewn/allan o adeiladau [ym Mhorthmadog]. Mae siop lyfrau yn y dref yn defnyddio'r esgus o fod yn adeiladau 'rhestredig gradd 2', ond ni ddylai hyn eu hatal rhag darparu ramp i bobl sy'n sigledig ar eu traed.
<b>55</b>	Mae llawer o risgiau i bobl sy'n byw gyda dementia. Mae mwy a mwy o adeiladau gyda grisiau du ac mae'r rhain yn anodd i bobl eu gweld. Gallai busnesau ychwanegu sribed gwyn at y gris du fel ei fod yn amlwg i gynyddu gwelededd a gall pobl weld y grisiau a lle maen nhw'n sefyll. Rwy'n cynnal archwiliadau o adeiladau sy'n dementia-gyfeillgar ac rwy'n gweld problemau [h.y. risgiau] drwy'r amser. Gormod o adeiladau heb unrhyw ganllaw ar risiau. Yn ddiweddar, cynhaliais archwiliad yn y ganolfan awyr agored ym Mhlas Brennon ar yr A5, nid oedd unrhyw ganllawiau, dim cawodydd â mynediad gwastad, dim arwyddion i'w gwneud yn glir lle mae angen i bobl fynd. Nid oedd yn hygyrch i bobl â dementia. Esgusodion bod yr adeiladau wedi'u 'graddio a'u rhestru' ond mae newidiadau bach y gallant eu gwneud i wneud mynediad yn well a dianc rhag tân yn bosibl.
<b>56</b>	Gallai busnesau gael gwell arwyddion i helpu pobl i lywio eu ffordd o gwmpas y lle. Mae archfarchnadoedd yn wych am roi arwyddion i fyny fel bod pobl yn gwybod lle i fynd, dylai busnesau eraill fabwysiadu'r dull hwn.
<b>57</b>	Nid yw busnesau lleol yn rheoli parcio ceir yn dda iawn. Mae cerbydau 4x4s yn sticio allan, pobl nad ydynt yn anabl yn parcio mewn manau ar gyfer gyrwyr â bathodyn glas, mae angen i fusnesau fynd i'r afael â hyn oherwydd bod pobl anabl yn gorfod parcio yn y prif faes parcio ac mae pobl yn gorfod cerdded i'r siop neu ganol y dref, sydd ddim yn ddelfrydol ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu cerdded yn rhwydd. Mae person anabl yn fwy tebygol o gael ei daro oherwydd na allant symud allan o'r ffordd yn ddigon cyflym.
<b>58</b>	Dydych chi ddim yn clywed am lawer o broblemau yn ymwneud â busnesau [yn Y Bala]. Er mae'n debyg bod damweiniau ar ffermydd wedi cynyddu. Bu farw ffermwr lleol mewn pwll slyri eleni, diffoddwr tân wnaeth ei achub, nid yn ddigwyddiad da i fynd iddo. Mae diogelwch ar ffermydd yn bryder mawr.
<b>59</b>	Dim sylwadau.
<b>60</b>	Na, dwi ddim.
<b>61</b>	Dim sylwadau
<b>62</b>	Mae hon yn egwyddor wych gan y gellid bod wedi atal digwyddiadau fel Tŵr Grenfell gyda mwy o archwiliadau tân arferol. Mae hyn yn anhygoel ar gyfer atal.
<b>63</b>	Dim sylwadau.
<b>64</b>	Mae'n wych.
<b>65</b>	Mae'n ddiddorol iawn.
<b>66</b>	Mae'n darparu cynllun manwl iawn i gynorthwyo gwahanol gwmnïau mewn gwahanol ffyrdd.
<b>67</b>	Dim sylwadau.

<b>68</b>	Rwy'n cefnogi'r egwyddor hon.
<b>69</b>	Gall pobl o wahanol gefndiroedd helpu i feithrin perthnasoedd cadarnhaol â llawer o berchnogion busnes yma sydd wedi dod o India, Bangladesh, Emiradau Arabaidd Unedig a rhannau eraill o'r byd.
<b>70</b>	Yn amlwg mae busnesau yn gwneud yr hyn maen nhw ei eisiau a ddim yn cael eu monitro. Tân mewn ffatri yn Yr Wyddgrug.
<b>71</b>	Gormod o adeiladau sydd wedi dirywio a phobl sy'n byw mewn amgylchiadau is-safonol.
<b>72</b>	Nid wyf wedi fy argyhoeddi eich bod yn deall yr holl broblemau yn y Rhyl. Mae llawer o letyau amlfeddiannaeth [Tai Amlfeddiannaeth] yn cael eu rhedeg gan landlordiaid nad ydynt yn buddsoddi yn eu heiddo, mae adeiladau ar John Street a River Street yn enwedig yn dod i'r cof.
<b>73</b>	Mae rhai ardaloedd o amddifadedd yn y Rhyl, amodau byw gwael. Mae hwn yn wasanaeth hanfodol rydych chi'n ei ddarparu.
<b>74</b>	Gwaith pwysig.
<b>75</b>	Dwi'n cymryd eich bod â gafael iawn ar bethau, ond mae sgip yn llawn sbwriel wedi bod ar ein stryd ers misoedd. ■ yn Oakville Street, Y Rhyl yw e. Mae sofa yng ngardd ffrynt y boi hefyd, siawns fod hwn yn berygl tân pe bai rhywun yn rhoi'r sbwriel ar dân, nid yw'n gwbl amhosibl. Mae wedi cael ei adrodd i'r cyngor sawl gwaith, ond efallai y gallai'r gwasanaeth tân dynnu sylw at y risgiau [Tân Bwriadol].
<b>76</b>	Mae safleoedd awdurdodau lleol yn ddiogel. Y rhai preifat [landlordiaid] yw'r rhai y mae angen i chi eu gwyllo.
<b>77</b>	Rwy'n cytuno ag eraill yn eich grŵp ffocws cynharach bod llawer o landlordiaid nad ydynt yn buddsoddi yn eu heiddo ac mae rhai ardaloedd o'r Rhyl wedi mynd i'r gwellt, fflatiau a llety a rennir yn bennaf. Mae strydoedd ochr oddi ar lan y môr yn peri pryder. River Street, Stryd y Dŵr a John Street, ac eraill.
<b>78</b>	Diogelwch busnesau.
<b>79</b>	Doeddwn i ddim yn siŵr os oeddech chi'n ymwybodol lle mae'r holl gartrefi gofal wedi'u lleoli ar draws Wrecsam a Sir y Fflint. Efallai y byddai'n werth gwneud rhyw fath o ymarfer i ddod o hyd i'r holl grwpiau dementia, ond hefyd y cartrefi gofal yn y ddwy sir.

## Atodiad E

Cyf	EIN HEGWYDDOR YMATEB – SYLWADAU YCHWANEGOL
1	NID yw 1,726 o ymatebion i ymgynghoriad CRhRC yn 'ymateb digynsail', mae'n cynrychioli 0.25% o boblogaeth gogledd Cymru - prin yn sampl ddigon mawr ar gyfer gwneud penderfyniadau.
2	Mae'r cynllun yn mynd i'r afael â chynyddu argaeledd diffoddwyr tân ar alwad, ond fel y soniwyd yn flaenorol, mae'r model system dyletswydd ar alwad wedi dyddio fwyfwy.
3	Mae'n amlwg fod angen gwella argaeledd mewn gwahanol ardaloedd. Yn syml, nid yw'r cymhellion ar gyfer gweithio ar alwad yn ddigon da, ond mae'n dda clywed ein bod yn cynnig contractau llai mewn rhai ardaloedd (h.y. 75%, 50%, 25%), efallai y byddai'n ymestyn y cynnig hwn i bobl nad ydynt yn gweithio amser llawn fel GTAau eraill yn Lloegr. Rwy'n cytuno bod angen i'r Gwasanaeth fuddsoddi mewn peiriannau ag ysgol ac esgynlawr/Unedau Achub Technegol newydd ac offer arbenigol arall i ddiogelu yn erbyn risgiau y gwyddom y byddant yn bresennol dros y degawd nesaf a thu hwnt (h.y. tanau gwyllt, llifogydd, tanau trydanol mewn gwrthdrawiadau ar y ffordd, achub bariatrig i enwi ond ychydig). Yn bersonol, rwy'n teimlo bod angen i ni ddatblygu mwy o griw dydd.
4	Mae ateb caban glân yn syniad da. Bydd hyn yn cadw pobl [Diffoddwyr Tân] yn ddiogel. Yn y proffesiwn iechyd, mae hyfforddiant yn hanfodol bwysig, rwy'n siŵr mai canolfan hyfforddi newydd fydd yr union beth fydd ei angen ar eich swyddogion tân i ddatblygu'r sgiliau i gyflawni.
5	Dwi'n hapus gyda'r gwaith y mae Gorsaf Dân Wrecsam yn ei wneud dros ei chymuned. Mae ymateb yn fwy a mwy pwysig gyda chymaint o adeiladau uchel yn y dref. Rwy'n cefnogi adolygiad i beiriannau arbennig i reoli'r risgiau o ran adeiladau uchel yn y dref.
6	Mae'n wych clywed eich bod yn darparu hyfforddiant Awtistiaeth i'ch staff.
7	Bydd y syniad o lai o orsafoedd rhan amser a mwy o orsafoedd tân amser llawn yn rhoi mwy o ddarpariaeth a gwytnwch. Nid yw'r model ar alwad yn cyd-fynd â bywyd cyfoes ac ymrwymiad.
8	Gan fy mod yn byw yn ardal Corwen, rwy'n teimlo'n hyderus y byddwch chi'n [ymateb] dod pan fyddwch yn cael eich galw allan.
9	Mae'n gysur gwybod bod gorsaf dân ym Mae Colwyn. Mae'r gwasanaeth tân yn weladwy ac rydych chi'n gweld criw Bae Colwyn yn teithio hwnt ac yma.
10	Mae gorsaf dân yn Ninbych yn bwysig. Maen nhw [criw Dinbych] yn rhan o'r gymuned. Rwy'n cefnogi datblygiad canolfan hyfforddi newydd. Mae hyfforddiant yn hanfodol, technolegau newydd ac ati. A yw'r gwasanaeth tân yn hyfforddi i achub pobl o lagwnau slyri [mae gan y mwyafrif o ffermydd llaeth nhw]? Os na, dylent wneud.
11	Mae'r gwasanaeth tân [criw Bangor] yn ymweld â'r myfyrwyr yn ystod wythnos y glas i gyflwyno anerchiad am ddiogelwch tân. Efallai y gellid cyflwyno anerchiad tebyg am ddiogelwch ar y ffyrdd a diogelwch dŵr a negeseuon diogelwch eraill yr hoffech eu hyrwyddo.
12	Mae'n amlwg mai darpariaeth tân ym mhob ardal yw'r unig ffordd. Nid yw eich map cyfredol yn dangos sicrwydd ymateb sy'n peri pryder mawr.
13	Nid wyf wedi gorfod defnyddio'r gwasanaeth, ond yn seiliedig ar yr hyn y mae eraill wedi'i ddweud, mae'r gwasanaeth tân yn weithredol.
14	Cydnabod bod pobl yn methu siarad/colli rheolaeth mewn sefyllfaoedd llawn straen. Mae'n dda clywed bod eich sefydliad yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth awtistiaeth i'ch diffoddwyr tân. Mae wedi creu argraff amaf.
15	Mae gwybod eich bod chi [GTAGC] yn barod i ymateb yn gysur pe bydden ni byth eich angen chi.
16	Bara menyng.
17	Ie, i hwn.

18	Efallai y gallai gorsaf Bangor leihau nifer yr oriau y mae'n rhaid i ddiffoddwyr tân [Ar alwad] weithio a gallai hyn helpu i ddenu myfyrwyr a fydd yn yr ardal am o leiaf tair blynedd wrth iddynt astudio. Creu mwy o orsafoedd llawn amser [Amser Cyflawn] i gynyddu dyheadau a phosibiliadau gyrfa.
19	Cytuno'n gryf.
20	[Dylai pob diffoddwr tân ym Mangor fod â sgiliau iaith sylfaenol (h.y. Mandarin, Ffrangeg, iaith Arwyddion). Byddai hyn yn gwella'r gwasanaeth i'r cyhoedd yn lleol.
21	Sicrhau bod timau [o Ddiffoddwyr Tân] yn siarad Cymraeg. Yn arbennig o bwysig pan fo pobl [siaradwyr Cymraeg] yn ofidus.
22	Mae'n dda gwybod bod '999' yno.
23	Gallai Bwcle wneud mwy i hyrwyddo swyddi [Diffoddwr Tân]. Dyddiau recriwtio, ond eu hyrwyddo fel ein bod ni'n gwybod amdanynt. [Yr orsaf dân] Byth ar agor!
24	Nid ydych bob amser yn barod [cyfeiriad penodol bod Bwcle ddim ar gael bob amser].
25	Darparu ymateb brys effeithiol.
26	Gwella ymateb trwy godi'ch safon mewn ardaloedd sydd eich angen arnoch.
27	Hapus iawn gyda'r gwasanaeth rydych chi'n ei roi.
28	Roeddech chi yma yr wythnos diwethaf [aeth criw Bangor i alwad system larwm awtomatig yn y cartref].
29	Mae'n ymddangos yn synhwyrol i adolygu offer arbennig a'u cadw ym Mangor oherwydd ei leoliad a'r nifer uchel o gartrefi gofal yn yr ardal hon [Bangor].
30	Cysylltu recriwtio i gyrsiau coleg penodol h.y. peirianeg er enghraifft. Helpu pobl i ddeall llwybrau gyrfa.
31	Mwy o orsafoedd tân llawn amser i ddisodli'r gwasanaeth ar-alwad presennol.
32	Nid yn sicr yng Ngogledd Cymru. Angen mwy o argaeledd 24/7. Angen gallu cael rhywun i'r digwyddiad cyn gynted â phosibl.
33	Os yn bosibl, cael mwy o bobl ar alwad i gael eu galw os oes angen.
34	Dim digon o gerbydau mewn rhai gorsafoedd. Dim digon o orsafoedd tân ymateb 24 awr yng Nghymru.
35	O fewn Gwynedd a Môn mae nifer cyfyngedig o orsafoedd tân amser cyflawn.
36	Mae criw Gorsaf Abermaw yn wych. Rydych chi wastad yn eu gweld o gwmpas.
37	Mae Abermo a Harlech yn gwneud gwaith da. Mae gorsaf dân Abermo ychydig allan o'r ffordd, efallai gellid gosod arwyddion fel bod pobl yn gwybod ble mae hi. Mae twristiaid yn defnyddio'r maes parcio yn yr haf a allai fod yn risg i staff sydd angen parcio'n gyflym.
38	Nid yw'n bosibl i chi ymateb yn gyflym bob amser os oes rhaid i ddiffoddwyr tân deithio o bell ac yn gyflym.
39	Rwy'n cymryd eich bod chi'n [GTAGC] gwybod beth sydd ei angen. Rwy'n teimlo'n rhwystredig am y cynllunio gwael o ran dianc gan berchnogion busnes.
40	Doeddwn i byth yn gwybod bod gennych chi gymaint o orsafoedd tân.
41	Nid yw'r Injan dân safonol ddim yn ddigon mawr i gyrraedd rhai o'r adeiladau uchel [Yn Abermo]. Rydych chi'n meddwl am uchder fel lloriau uchel, ond dydych chi ddim yn ystyried bod rhai lloriau gwaelod yn 15 neu 20 troedfedd o'r ffordd. Rwy'n credu bod hon yn risg enfawr nad ydych chi'n ei hystyried. Un enghraifft yw adeiladau 3 a 4 llawr ar hyd Porkington Terrace sy'n 40+ troedfedd. Mae rhai o'r tai ar ochr y bryn sy'n wynebu'r môr yn uchel ac ni fydd injan dân safonol yn ddigon mawr ar gyfer yr adeilad.
42	Gwasanaeth ardderchog gan GTAGC. Roeddech chi [Criw Bangor] yma yr wythnos diwethaf [Mynychu galwad system larwm awtomatig]. Roedden nhw yma yn gyflym.
43	Angen hysbysu swyddi'n well.
44	Angen rhoi pwysau ar y cyngor a'r heddlu i fynd i'r afael â'r problemau parcio ar y strydoedd ochr. Fel y dywedais, ni fyddwch yn gallu cael injan dân i fynd i lawr rhai strydoedd. Mae'n siop siafins y tu allan i'r ysgolion hefyd.

45	Ie, recriwtio pobl, ond mae pobl leol yn adnabod yr ardal a'r peryglon. Mae pobl sy'n byw ar yr arfordir yn deall y risgiau sy'n ymwneud â'r môr, mae pobl sy'n ymweld yn baglu neu'n gadael eu cŵn oddi ar dennyn.
46	Cytuno'n gryf.
47	Mae gorsafoedd lleol yn gwneud gwaith da.
48	Mae gorsaf Glannau Dyfrdwy mewn sefyllfa dda i ymateb i Gei [Connah] a Queensferry.
49	Mae criw tân lleol Glannau Dyfrdwy yn gwneud gwaith da.
50	Cytuno'n gryf. Digon o orsafoedd tân wedi eu mapio ar draws Ynys Môn.
51	Nid oes gennych "cytuno" yn unig, felly mae hyn yn gwyrdroi'r atebion.
52	Rwy'n poeni am amseroedd ymateb mewn ardaloedd gwledig. Allan tuag at Landegla, Rhuthun, Y Bala.
53	Mae angen gwneud mwy i wella argaeledd yn yr ardal hon [Porthmadog]. Nid yw [diffoddwyr tân] rhan-amser yn ddigon diogel, er eu bod yn gwneud gwaith da.
54	Mae gan y Gwasanaeth Tân ac Achub enw da. Ond darllen yr adolygiad [CRhRC] hwn. Doeddwn i ddim yn gwybod bod yr orsaf dân yn orsaf ar alwad. Does bosib bod ardal maint Porthmadog yn haeddu gwell darpariaeth. Ydych chi bob amser yn barod i ymateb?
55	Ie, yn cytuno gyda chi ynghylch bod yn barod, ond does dim digon o waith llawn amser rheolaidd yng Ngwynedd ar gyfer pobl sydd eisiau gweithio'n llawn amser o fewn eu cymuned eu hunain. Mae pobl yn dweud wrthyf fod rhaid i chi deithio i'r Rhyl, Bangor neu Fae Colwyn. Dylai pobl ifanc allu gweithio yma ym Mhorthmadog a lleoliadau canolog fel Y Bala neu Gorwen.
56	Mae risg uchel os nad oes gan y gwasanaeth tân ddiffoddwyr tân llawn amser yn yr ardal o hyd. Mae tywydd gwael yn ystod y 3 blynedd diwethaf yn arwydd pendant bod angen gwell darpariaeth. Mae ymwelwyr yn cynyddu'r galw yn yr haf hefyd.
57	Rwy'n cytuno y dylech chi fod yn barod i ymateb, ond nid wyf yn credu eich bod yn barod, a gall yr ymateb fod yn araf os bydd sawl tân yn digwydd ar yr un pryd.
58	Cytuno'n gryf. Dylai criw Dolgellau fod wedi cael hyfforddiant achub mewn dŵr. Mae'r llifogydd diweddar wedi ein hatgoffa sut y gall pethau fynd yn wael. Yn ystod y llifogydd diweddar roedd yna amser hir cyn i ddiffoddwyr tân o'r Bala deithio i achub lori oedd yn sownd mewn llifogydd.
59	Rwyf wedi sylwi bod y boblogaeth wedi cynyddu yn Nolgellau. Mae mwy o bobl yn gweithio o bell wedi gwneud Dolgellau yn lle deniadol i fyw. Mae angen gwirioneddol am orsaf criw dydd yn Nolgellau.
60	Rwy'n gweithio mewn lletygarwch. Mae Dolgellau yn mynd yn brysurach bob blwyddyn. Rydym hefyd yn cael llawer o draffig sy'n mynd heibio hefyd.
61	Dylai ardal maint Porthmadog gael diffoddwyr tân llawn amser i ymdrin â'r rhwydwaith ffyrdd mawr a heriol hwn. Mae'n ddryslyd os mai dim ond un injan dân sydd [ym Mhorthmadog], ond mae angen dwy injan dân arnoch i fynd i dân mewn tŷ.
62	Rwy'n gwbl gefnogol o ddarpariaeth amser llawn yn cael ei gynnig yn Ne Gwynedd.
63	Mae'n gysur gwybod eich bod chi yno pan fyddwn ni'n ffonio 999.
64	Mae gan bobl leol wybodaeth leol o ble i fynd.
65	Diffoddwyr tân dwyieithog os gwelwch yn dda.
66	Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn bwysig.
67	Mae'n dda gwybod bod gorsaf dân ar draws y ffordd pe bai ei angen arnom erioed.
68	Gall denu pobl sy'n chwarae chwaraeon fod yn anodd os bydd oriau gwaith diffoddwyr tân posib yn gwrthdaro. Efallai y gallai gweithio hyblyg helpu i ddod o hyd i bobl newydd.



<b>69</b>	Fel y soniwyd yn gynharach, mae yna bobl barod yn Nhywyn, ond nid oes llawer o bobl yn gwybod bod y fath angen i recriwtio ac nid ydynt yn gwybod beth sydd ei angen. Ni fyddai menywod hyd yn oed yn meddwl am y swydd am fod dynion sy'n weladwy'n bennaf. Mae hyn yr un fath â'r heddlu flynyddoedd yn ôl, ond rydych chi'n gweld llawer mwy [menywod] nawr.
<b>70</b>	Egwyddor ymateb dda, ond gallwch wastad ei gwella.
<b>71</b>	Dwi ddim yn deall.
<b>72</b>	Dim sylwadau
<b>73</b>	Adolygu'r ddarpariaeth a'r offer presennol i sicrhau eich bod yn y sefyllfa orau bosibl i ymateb.
<b>74</b>	Mae hyn yn hanfodol er mwyn achub bywydau.
<b>75</b>	Dim sylwadau.
<b>76</b>	Mae'r egwyddor ymateb yn ddiddorol.
<b>77</b>	Na, dwi ddim.
<b>78</b>	Mae'n rhoi cynllun gydag amrywiaeth eang o dasgau i'w cwblhau.
<b>79</b>	Byddai rhai o'r bobl ifanc rydyn ni'n eu cefnogi yn gwneud gweithwyr brys anhygoel pe bydden nhw'n cael y cyfle.
<b>80</b>	Roeddwn yn falch iawn o glywed na chafodd unrhyw orsaf dân ei chau y llynedd.
<b>81</b>	Rwy'n credu bod hwn yn ddymuniad da ond mae angen llawer o bobl arnom i weithio i ddiffodd tân oherwydd yna gallwn fynd i fwy o fusnesau a dal i gael llawer o bobl i fynd i dân arall. Ambiwlansys. Mae'n bell iddyn nhw droi. Yn fy marn i efallai bod angen mwy o bobl arnom.
<b>82</b>	Ymateb pan fydd angen arnoch.
<b>83</b>	Soniais am hyn yn gynharach, ond dylech chi adolygu eich systemau dyletswydd a dylai gynnwys ystyried llai o gontractau ar alwad a hyd yn oed oriau sefydlog rhan amser o dan delerau llawn amser [amser llawn]. A fyddai'n bosibl gwneud 5 neu 6 diwrnod gan ddarparu 5 neu 6 awr y dydd? Gallai'r newidiadau hyn helpu i ddenu mwy o ferched a menywod, yn enwedig mewn meysydd lle rydych chi'n ei chael hi'n heriol i recriwtio.
<b>84</b>	Rwy'n cefnogi'r egwyddor hon.
<b>85</b>	Ydych chi'n monitro sut mae gofalfwyr yn cael eu heffeithio yn eich data atal a digwyddiadau?
<b>86</b>	Yr unig ystyriaeth yw efallai na fydd rhai ffoaduriaid yn gwybod sut i gysylltu â chi. Nid yw '999' yn bodoli mewn rhai gwledydd ac nid oes gwasanaeth tân. Yn naturiol, rydyn ni [y Groes Goch] yn addysgu newydd-ddyfodiaid ar yr holl wasanaethau hanfodol, ond mae'n werth i chi fod yn ymwybodol o hyn.
<b>87</b>	Mae angen lleoli injan dân yn Owrtyn neu Lannerch Banna i ddarparu ar gyfer rhan wledig o Wrecsam sy'n cael ei gadael allan.
<b>88</b>	Mae amseroedd ymateb yn ardaloedd gwledig i'r dwyrain o Wrecsam yn rhy araf. Mae llawer o danau yma yn cael eu gwasanaethu gan Whitchurch ond dim ond un injan dân sydd ganddyn nhw. Nid yw Prees yn gallu recriwtio staff, mae Wem 15-20 munud i ffwrdd ond yn araf i ymateb. Mae hyn yn gadael Wrecsam i ddarparu ar gyfer yr holl Ddinas ac ardaloedd difreintiedig a'r risgiau heriol sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n cynyddu, ystâd ddiwydiannol, carchar, poblogaeth myfyrwyr, traffig yr A483. Mae ein cymunedau'n cael eu hanwybyddu ac mae angen ystyried hyn.
<b>89</b>	Rwy'n cytuno'n llwyr bod angen ymateb arnom, ond roedd y sôn am leihau diffoddwyr tân yn Y Rhyl y llynedd yn peri pryder mawr.
<b>90</b>	Nid wyf yn amau y gallwch ymateb yn effeithiol. Dwi'n byw mewn ardal wledig, felly dwi'n poeni a fyddwch chi'n dod ataf yn gyflym, ond rydych chi'n gallu ymateb yn gyflym yma [yn Y Rhyl]. Mae angen i mi sôn bod signal ffôn symudol yn wael iawn yn yr ardal hon a allai fod yn broblem i bobl sydd am gael gafael arnoch chi [h.y. 999].
<b>91</b>	Bara menyfn.

<b>92</b>	Gallwch newid y systemau dyletswydd fel y mynnwch, ond peidiwch â chymryd unrhyw beiriannau tân i ffwrdd o'r Rhyl.
<b>93</b>	Darparu ymateb brys effeithiol.
<b>94</b>	Mae'r signal ffôn symudol yn wael iawn ac nid oes gan tua 50% o'r bobl rydym yn eu gweld ffôn symudol oherwydd nad ydyn nhw'n gallu fforddio un neu nad ydyn nhw'n gwybod sut i ddefnyddio un. Rwy'n poeni na fyddai llawer o bobl rydym yn eu cefnogi yn gallu rhybuddio pawb. Hefyd, mae gan rai o'r bobl rydyn ni'n eu gweld ffonau symudol, ond maen nhw'n rhai talu wrth fynd ac nid oes ganddyn nhw lawer o arian oherwydd eu bod yn ddi-waith neu wedi ymddeol.
<b>95</b>	Rwy'n deall yn llwyr na all pobl fyddar fod yn ddiffoddwr tân, ond a ydy eich diffoddwyr tân yn gwybod sut i wneud BSL sylfaenol. Mae Deddf BSL yn cydnabod BSL yn gyfreithiol fel iaith yng Nghymru.
<b>96</b>	Digon o orsafoedd tân ar Ynys Môn.
<b>97</b>	Ymateb.
<b>98</b>	Bydd yn heriol ymateb i gychod camlesi, ond mae'n gysur gwybod bod gorsafoedd tân ar hyd cangen Llangollen.
<b>99</b>	A gaf i argymhell bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant iechyd meddwl.

## Atodiad F

Cyf	EIN HEGWYDDOR AMGYLCHEDD – SYLWADAU YCHWANEGOL
1	Newid peiriannau tân wedi'u pweru gan ddisel i gerbydau trydan.
2	Archwilio'r holl ddefnydd o drydan, gyda theclyn sy'n cynyddu pellter, peiriannau tân. O ystyried y pellter cymharol fyr a deithir a chylch dyletswydd isel iawn Peiriannau Tân, mae'n ymddangos yn ffit ddefnyddol. Mae mantais ychwanegol o dawelwch wrth ymateb i ardaloedd preswyl ar gyfer galwadau larwm ffug.
3	Rydym yn gwneud gwaith gwych o ran ystyriaethau amgylcheddol. Mae [REDACTED] wedi gwneud gwaith gwych a phob clod i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth am ganiatáu i [REDACTED] gael y rhyddid i wneud ei waith a gwneud gwelliannau heb ormod o wrthwynebiad i newid.
4	Rwy'n hoffi eich bod yn bwriadu lleihau allyriadau carbon.
5	Mae defnyddio olew llysiâu hydrodrin yn syniad gwych. Gallai hyn helpu i ailgylchu olewau busnesau lleol (h.y. siopau pysgod a sglodion) a chefnogi ffermwyr lleol i dyfu had rêp a chnydau eraill a ddefnyddir i gynhyrchu olew.
6	Mae ailgylchu HVO yn syniad da.
7	Mae defnyddio olew llysiâu hydrodrin (HVO) yn syniad gwych.
8	Meddwl am genedlaethau'r dyfodol.
9	Rydych chi'n cymryd cyfrifoldeb.
10	Mae eich cynllun yn esbonio sut y bydd allyriadau carbon yn cael eu lleihau. Mae rhai rhannau eraill o'ch cynlluniau yn gofyn am yr un eglurder.
11	Buddsoddi mewn technoleg ac AI.
12	Cytuno'n gryf.
13	Nid yw'r DU yn mynd yn rhy oer fel y Ffindir. Mae trigolion a busnesau'r Deyrnas Unedig yn cynhesu gormod. Yn gwastraffu ynni.
14	Ewch yn drydanol lle bo modd.
15	Cael bargeinion gwell ar ynni a thanwydd.
16	Rwy'n dychmygu bod hen adeiladau'n costio ffortiwn i'w cynhesu a'u cadw'n gynnes.
17	Canolbwyntiwch ar gael diffoddwyr tân [y sylwad wedi'i wneud wrth gyfeirio at Orsaf Dân Bwcle].
18	Mae gwaith fy mam yn cynnwys gweithio hybrid sy'n lleihau costau tanwydd ac amser. Mae'n ymddangos eich bod yn cael llawer o gyfarfodydd.
19	Mae'n gwneud synnwyr i arbed arian lle bo modd ynte.
20	Ddim yn rhy siŵr bod ynni'r haul yn hyfyw [Mewn cyfeiriad at opsiynau arbed ynni eraill].
21	Gall peiriannau arbennig newydd helpu i leihau ynni ac allyriadau.
22	Rwy'n credu bod diogelu'r amgylchedd yn bwysig iawn.
23	Ni all arferion eco-gyfeillgar ddod ar draul effeithlonwydd.
24	Rhaid i garbon niwtral fod y nod terfynol.
25	Dim ond angen tryciau trydan.
26	Os yw defnyddio'r math hwn o weithrediad [system dyletswydd ar alwad] yn wahanol iawn, gallai arafu yr ymateb
27	Onid yw'n bosibl cael tyrbinau gwynt ar eich safleoedd i gynhyrchu ynni a chyflenwi'r rhwydwaith, a allai gynhyrchu incwm? Mae llawer o wynt ar yr ynys.
28	Ie, gwnewch yr hyn y gallwch, ond sut yn y byd ydych chi'n rheoli pa becynnau plastig mae offer ynddynt, y dŵr budr rydych chi'n delio ag ef. Rwy'n tybio eich bod yn codi materion gyda'r bobl sy'n gyfrifol.
29	Effaith gyfyngedig nes eu bod yn datrys materion hinsawdd yn China ac India a lleoedd eraill.
30	Mae eich adolygiad o bethau arbennig yn gwneud synnwyr i leihau allyriadau carbon. Nid yw rhai o'r hen beiriannau tân yn dda ar gyfer allyriadau carbon a'r haen osôn ac ati.

<b>31</b>	Mae'n ymddangos bod yr adolygiad wedi'i gynllunio'n dda ac yn delio â'r holl bryderon sydd gennyf.
<b>32</b>	Cytuno'n gryf.
<b>33</b>	Ailgylchwch yr hyn y gallwch.
<b>34</b>	Cytuno, ond peidiwch ag ymwneud â gormod o ddeunydd ailgylchu sy'n mynd i safleoedd tirlenwi beth bynnag.
<b>35</b>	Ni all Gwasanaeth Gogledd Cymru fanteisio ar ffermwyr lleol sydd â thyrbinau gwynt a phaneli solar.
<b>36</b>	Ie, ond a yw'r dechnoleg ddiweddaraf yn ddibynadwy. Nid wyf yn credu y dylech chi ddefnyddio ceir trydan ar gyfer eich criwiau brys.
<b>37</b>	Cytuno'n gryf.
<b>38</b>	Er mwyn arbed costau ac amser, byddwch yn effeithlon. Yn ddiweddar, anfonodd Cyngor Gwynedd yr un llythyr ataf fi a fy ngŵr sy'n wastraff papur, gwastraff stamp a chost ychwanegol i brosesu'r llythyrau a'u hargraffu. Ceisiwch leihau amser ac egni a phapur.
<b>39</b>	Mae'n dda eich bod chi'n poeni.
<b>40</b>	Mae'n ddull da i wneud eich diffoddwyr tân fynd â'u sbwriel eu hunain adref gyda nhw.
<b>41</b>	Dim sylwadau.
<b>42</b>	Nid oes gennyf unrhyw sylwadau.
<b>43</b>	Dim sylwadau
<b>44</b>	Mae'n hynod bwysig i leihau'r defnydd o ynni a chostau. Byddwch yn ddoeth ac yn diogelu'r sefydliad ar gyfer y dyfodol.
<b>45</b>	Peidiwch â phrynu cynhyrchion na ellir eu hailgylchu.
<b>46</b>	Gallai mabwysiadu arferion ecogyfeillgar i leihau allyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol eraill achosi costau uwch.
<b>47</b>	Mae'n anodd ei ddeall.
<b>48</b>	Na, dim diolch.
<b>49</b>	Ni ddylid gwario adnoddau'r gwasanaeth ar orsaf wefr EV yn yr amgylchedd economaidd y mae'r trethdalwyr ynddo ar hyn o bryd. Gellir gwneud hyn mewn cyfnod gwahanol.
<b>50</b>	Nid oes gennyf unrhyw sylwadau.
<b>51</b>	Dim sylwadau.
<b>52</b>	Mae'n gwneud synnwyr mynd yn drydanol neu hybrid lle bo modd, ond rwy'n deall yn llwyr bod angen i injan dân fod yn ddisel i fynd ar dir Gogledd Cymru a mynd i ddiwyddiadau am gyfnodau hir.
<b>53</b>	Rwy'n cefnogi'r egwyddor hon.
<b>54</b>	Nid wyf yn cytuno neu anghytuno mewn gwirionedd.
<b>55</b>	Gwnewch beth bynnag y gallwch i wneud eich cyfraniad.
<b>56</b>	Diogelu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yw'r hyn y byddai unrhyw sefydliad cyfrifol yn ei wneud.
<b>57</b>	Lleihau'r ôl troed carbon ar y blaned.
<b>58</b>	Gwych!

## Atodiad G

Cyf	MEYSYDD ERAILL MEWN PERTHYNAS Â'R GWASANAETHAU RYDYN NI'N EU DARPARU - SYLWADAU YCHWANEGOL
1	Yn bersonol, nid wyf yn credu eich bod yn cynnal digon o archwiliadau diogelwch tân yn ddigon rheolaidd, ac yn cymryd camau priodol pan geir diffygion.
2	Blaenoriaethu lechyd a Lles Gweithwyr. Hefyd, soniwch fod archwiliadau diogel ac iach yn cael effaith gadarnhaol sylfaenol ar les y cyhoedd yn gyffredinol, gan roi tawelwch meddwl.
3	Y rhwydwaith ffyrdd gwledig o ran symud o gwmpas yn yr haf.
4	Y llynedd, cwblhawyd dros 650 o Archwiliadau Diogel ac Iach gan fy nghriw. Fodd bynnag, mae'r meddalwedd rydym yn ei defnyddio i gofnodi'r ymweliadau hyn yn hynod o araf, yn drafferthus, ac yn aneffeithlon. Ar gyfartaledd, mae'n cymryd tua 15 munud i fewnbynnu un ymweliad, yn aml mae'n gofyn i'r manylion sydd eisoes wedi'u cofnodi sawl gwaith gael eu cofnodi sawl gwaith. Arweiniodd hyn at y criw yn treulio dros 160 awr yn eistedd wrth gyfrifiadur. Gallai'r amser hwn fod wedi cael ei dreulio'n well yn ymarfer, hyfforddi, dyfeisio a chyflwyno mentrau diogelwch cymunedol, cynnal arolygiadau 72d, neu gynllunio ymarferion ar raddfa fwy i hyfforddi gyda'n cydweithwyr yn y system dyletswydd ar alwad. Yn sicr, gyda datblygiadau technoleg modern fel AI, gall TGCh ddatrys y broblem hon (NB. Mae'r defnydd o dabledi yn ystod Archwiliadau Diogel ac Iach yn arafu Gwiriadau Diogel ac Iach yn sylweddol - y broblem yw'r feddalwedd rydym ni'n ei defnyddio a'r dull o fewnbynnu).
5	Nid yw'n ymddangos bod strategaeth glir ynglŷn â gwaith y Gwasanaeth sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a lles. Hefyd, nid wyf yn teimlo bod Diogelu yn cael y sylw a'r sylw dyledus y mae'n ei haeddu, a gallai recriwtio (neu ddatblygu rhywun yn fewnol) fod yn bwnc y gallai arbenigwr (neu Arweinydd Diogelu Dynodedig) helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn.
6	Addysgu rhieni am blant yn chwarae a chroesi'r ffordd.
7	Mae eich gwasanaethau'n edrych yn iawn cyn belled â bod pobl awtistig yn cael eu hystyried.
8	Creu mwy o orsafoedd tân amser llawn a chael peiriannau tân yn gyrru o gwmpas yr ardaloedd yn llawer mwy aml. Yn hytrach nag ymateb o orsaf gwnewch iddynt deithio o gwmpas cymunedau. Dylai hyn gynorthwyo model ymateb.
9	Posibilrwydd. Meddyliwch am sut y byddwch chi'n hyrwyddo cynhwysiant ar gyfer pobl drawsryweddol.
10	Gweithio gyda phartneriaid lleol i ddatrys y broblem tipio anghyfreithlon. Atal tanau.
11	Ystyriwch e-feiciau yn eich gwaith atal.
12	Dylai'r holl staff yn eich gwasanaeth sy'n ymgysylltu â'r gymuned gysylltu â MIND ac elusennau iechyd meddwl eraill
13	Unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg i ffoaduriaid. Gall tensiynau cymdeithasol achosi ynysu felly gall fod yn anodd ymgysylltu.
14	Sesiynau penodol sydd o fudd i fyfyrwyr.
15	Problem Tai amlfeddiannaeth yr wyf wedi'i grybwyll drwy gydol yr holiadur.
16	Risgiau i fyfyrwyr a phobl ifanc.
17	Efallai, hyrwyddwch eich gwasanaethau trwy'r brifysgol [Bangor].
18	Na.
19	Gwybodaeth ddiogelwch benodol i fyfyrwyr. Gosodwch negeseuon am wybodaeth ar lwyfannau myfyrwyr, gwnewch hi'n hawdd i chi'ch hun, ni fydd neb yn dilyn llwyfannau'r gwasanaeth tân. Gwobrwo myfyrwyr am adborth, anogwch gymryd rhan yn eich ymchwil, deall eich marchnad.
20	Myfyrwyr rhyngwladol.
21	Gwybodaeth ysgrifenedig mewn ieithoedd gwahanol i helpu dealltwriaeth.

<b>22</b>	Ystyriwch raglen gwirfoddolwyr.
<b>23</b>	Achub CPR. Gweithredu ar gyfer ymatebwyr cyntaf yn absenoldeb ambiwlans a pharafeddygon nad ydynt ar gael.
<b>24</b>	Oes gan y gorsafoedd tân baneli solar? Os na, pam ddim?
<b>25</b>	Dylech lobiö am lonydd beicio i gadw pobl yn ddiogel rhwng Queensferry a'r Coleg [Coleg Cambria, Campws Glannau Dyfrdwy].
<b>26</b>	Roeddech chi'n sôn bod Bwcle yn rhan amser, ni allant ymweld â chartrefi gofal a gosod larymau mwg ac ati. Mae'r gwaith yno, felly beth yw'r broblem.
<b>27</b>	Ymateb ac atal.
<b>28</b>	Efallai gwella [eich] ymgysylltiad mewn ardaloedd gwledig y tu allan i'r trefi mwy.
<b>29</b>	Ymateb brys i droseddau cyllyll ac anafiadau eraill sy'n newid bywydau.
<b>30</b>	Dim y gallaf feddwl amdano.
<b>31</b>	Creu mwy o gynnwys i ledaenu gwybodaeth i bobl ifanc trwy ffilmiau byr ar Tik-Tok a YouTube.
<b>32</b>	Boddi. Mae gormod o bobl yn marw mewn dŵr.
<b>33</b>	Mynediad at wybodaeth. Mae gwefan gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn edrych yn hen ac yn ddiflas.
<b>34</b>	Gwneud y mwyaf o leoedd mewn gorsafoedd tân. Gadael i'r gymuned ddefnyddio'r cyfleusterau.
<b>35</b>	Mae angen mwy o orsafoedd llawn amser yma yn Llanberis, mae'r un agosaf yn Y Rhyl.
<b>36</b>	Arbed arian drwy fuddsoddi mewn pobl leol, yn enwedig pobl ifanc. Creu mwy o gyfleoedd gwaith i bobl leol.
<b>37</b>	Mae ceir yn parcio ac yn creu rhwystr ar ffyrdd, yn enwedig yn yr haf. Mae'n wallgof yma yn yr haf gyda cheir wedi parcio [y ddwy ochr o'r ffordd] [rhwystro mynediad ar gyfer injan dân].
<b>38</b>	Soniwyd eisoes am lwybrau dianc gwael iawn mewn busnesau. Nid rampiau, mannau cul. Ceir wedi'u parcio y tu allan i ddrysau.
<b>39</b>	Parcio anghyfreithlon yn cyfyngu mynediad ar gyfer cerbydau brys.
<b>40</b>	Mae pobl yn byw'n hirach felly popeth sy'n dod gyda hynny mewn gwirionedd. Rwy'n siŵr bod gennych chi [GTAGC] bopeth mewn trefn.
<b>41</b>	Ymateb i adeiladau mawr gyda phobl yn uchel i fyny.
<b>42</b>	Addysg i'r cyhoedd.
<b>43</b>	Cyllid Pwy rydych chi'n prynu oddi wrtho. Prynu moesegol gan gadwyni cyflenwi a chyflenwyr â safonau uchel.
<b>44</b>	Mae gwasanaethau bysiau lleol yn brysur iawn, yn enwedig pan fydd plant yn mynd arnynt [y daith i'r ysgol ac oddi yno], ond mae yna ddryswch ynghylch pwy sydd â blaenoriaeth ar fws, cadeiriau gwthio neu gadeiriau olwyn, dim digon o le i ddau berson anabl [gyda chadeiriau]. Rwy'n poeni sut y byddwn i'n dod oddi ar fws prysur pe bai damwain. Mae plant yn sefyll i fyny ac nid yw gyrwyr bysiau yn eu rheoli.
<b>45</b>	Traffig yn defnyddio yr A5. Traffig yn Llangefni.
<b>46</b>	Ardaloedd parcio mwy ar gyfer pobl anabl i gymryd tacsis mawr a bysiau bach i ystyriaeth. Mae angen meddwl am fannau gollwng mewn lleoliadau fel archfarchnadoedd, canolfannau hamdden, lleoliadau cymunedol. Gwell rheolaeth o'r lleoliadau hyn i atal pobl rhag parcio'n anghyfreithlon.
<b>47</b>	Ni allaf feddwl am unrhyw beth.
<b>48</b>	Cyfleoedd i ddiffoddwyr tân llawn amser yng Ngwynedd.
<b>49</b>	Mwy o addysg ar gyfer hencaint.
<b>50</b>	Ydych chi'n darparu gwasanaethau mewn gwahanol ieithoedd a BSL?
<b>51</b>	Llifogydd, gormod o ddŵr, fflachlifoedd, dŵr budr yn rhedeg oddi ar gaeau.
<b>52</b>	Pwy sy'n gyfrifol am lanhau ffyrdd? Mae'n rhaid iddyn nhw wneud yn well!

53	Llawer o bethau. Tanau gwyllt yn yr haf. Plant ddim yn sylweddoli'r risgiau mewn dŵr. Mae afon leol yn weddol fas, ond gall newid yn gyflym a dal pobl yn ddiarwybod, yn enwedig os nad ydyn nhw'n lleol.
54	Tywydd.
55	Recriwtio mewn rhai ardaloedd.
56	Mwy o weithgarwch atal yn Nolgellau. Mae nifer cyfyngedig o staff yma ar hyn o bryd.
57	Na.
58	Ansawdd bywyd i bawb.
59	Achos ac effaith parcio ceir/faniau ar lwybrau.
60	Er mwyn arbed costau ac amser, bod yn effeithlon.
61	Toriadau ariannol i wasanaethau cyhoeddus. Dylech gael achos busnes cryf i sicrhau cyllid ychwanegol.
62	Mae mwd ar y ffyrdd yn risg enfawr i yrwyr eraill. Fe adawodd ffermwyr lanast llwyr ar y ffyrdd eleni. Dydyn nhw ddim yn glanhau fel yr oeddent yn arfer ei wneud.
63	Sgyrsiau am ddiogelwch mewn dŵr yn Llyn Tegid.
64	Gwella cyfleusterau ar gyfer menywod.
65	Gwneud mwy ynghylch goryrru. Mwy o ddamweiniau fferm.
66	Defnyddiwch y ganolfan hamdden gymaint â phosibl.
67	Mae angen i chi ymgynghori â phlant ifanc hefyd. Blwyddyn 7, 8 a 9 ac ati. Nhw yw'r dyfodol. Maen nhw'n cynnig syniadau da. Safbwyntiau gwahanol
68	Wrth ofyn am rywedd/rhywioldeb, gallech ddefnyddio lle gwag i bawb ddiffinio eu dewisiadau gan ddefnyddio eu geiriau eu hunain. Mae'r dull hwn yn gynhwysol.
69	Peryglon diogelwch mewn dŵr ym Mangor.
70	Dim y gallaf feddwl amdano.
71	Gallai meysydd gwaith newydd neu well gynnwys gweithio'n agosach gydag elusennau a'r sector gwirfoddol.
72	Ymosodiadau terfysgol ar leoliadau lleol, swyddfeydd ASau, addoldai. Ystyried effaith twf i bêl-droed yn Wrecsam.
73	Rôl ddeuol diffoddwr tân a pharafeddyg fel y maent yn ei wneud yn UDA.
74	Na.
75	Dim ar hyn o bryd.
76	Rwy'n credu bod pethau'n mynd yn dda, felly does gen i ddim syniad beth allwch chi ei ddweud.
77	Wedi darparu rhestr o risgiau ar y dudalen flaen.
78	Ystyriwch ddod yn sefydliad achrededig. Mae cyflogwyr blaengar bellach yn cydnabod gofalu fel rhwystr i recriwtio a chadw aelodau presennol o'u sefydliad. Mae'r cyflogwyr hyn yn cydnabod y bydd gofalu yn cael effaith gynyddol ar eu gweithwyr a'u busnes o ganlyniad. Ar hyn o bryd mae 90% o ofalwyr sy'n gweithio yn 30 oed neu'n hŷn – gweithwyr yn anterth eu cyflogaeth. Canfu Cyfrifiad 2021 fod y gyfran fwyaf o bobl sy'n gofalu yng Nghymru yn dod o'r grŵp oedran 55-59.
79	Peiriant tân yn Llannerch Banna i ddarparu ar gyfer Owrtyn, Hanmer a Bronington. Gormod o ddibyniaeth ar Whitchurch a gorsafedd tân eraill yn Lloegr.
80	Ffermydd sydd â chynlluniau i gael caeau'n llawn paneli solar. Mae'r bylchau rhwng paneli yn dynn, allwch chi gael injan dân i dân pe bai un yn dechrau ar fferm solar?
81	Gorsaf dân ym Mae Cinmel? Os na, pam ddim?
82	Ymgyrch i wahardd beiciau cwad ar ffyrdd mewn ardaloedd trefol.
83	Achub anifeiliaid. Hefyd, gwasanaethau achub ar y mynydd rhag ofn y bydd cyllid yn cael ei dynnu oddi ar dimau achub ar y mynydd presennol.
84	Mae gwasanaethau'n ymddangos yn iawn, ond byddwch yn gynhwysol o ran sut rydych chi'n eu darparu.
85	Prynwch danwydd mewn crynswth i arbed costau.

<b>86</b>	Ddim mewn gwirionedd.
<b>87</b>	Parhewch â'r gwaith da o drefnu digwyddiadau cymunedol.



## Atodiad H

Cyf	Sylwadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)
1	Yn eich Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mae iechyd meddwl a lles yn cynnwys grŵp eang o bobl sy'n profi hwyliau isel, pryder, iselder ac ati. Mae gan bawb iechyd meddwl a lles personol sy'n gallu disgyn o ddydd i ddydd. Dylai hyn gynnwys pawb, nid dim ond ychydig sydd ag anhwylderau iechyd meddwl. Mae ymarfer mapio cynhwysfawr wedi nodi elusennau iechyd meddwl a grwpiau cymorth ym mhob un o dri maes y gwasanaeth. Beth yw'r tri maes hyn? Pa Elusennau? Angen sôn am y cynlluniau cynnal y Gwasanaethau.
2	Er bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cymryd camau clodwiw wrth fynd i'r afael â phryderon cynwysoldeb ehangach, gellid ei wella trwy fynd i'r afael yn uniongyrchol â chyfleusterau anneuaid a ffurfioli amser ar gyfer iechyd meddwl a lles yn y gweithle. Er bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â'r cymunedau traws ac anneuaid, nid yw'n mynd i'r afael yn benodol â'r angen am gyfleusterau newid a chawod gynhwysol, di-ryw. Mae'r cyfleusterau hyn yn hanfodol ar gyfer creu amgylchedd mwy croesawgar a pharchus ar gyfer unigolion anneuaid. Er bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn sôn am iechyd meddwl a lles fel blaenoriaeth ac yn cynnwys cynlluniau ar gyfer ymgysylltu ag elusennau a grwpiau cymorth iechyd meddwl, nid yw'n awgrymu ffurfioli amser penodol o fewn y diwrnod gwaith ar gyfer gweithgareddau iechyd meddwl a lles na mewnbwn cynwysoldeb rheolaidd. Byddai cael awr strwythuredig ar gyfer hyn yn rhoi'r amser a'r lle angenrheidiol i ddiffoddwyr tân fynd i'r afael â'u hiechyd meddwl yn rhagweithiol, gan gyfrannu at eu lles personol a'u heffeithiolrwydd gweithredol. Gall mewnbwn EDI rheolaidd ac amserol helpu i gynnal gweithle cynhwysol.
3	Mae'n dal i ymddangos bod gwahaniaeth enfawr rhwng y llyfr llwyd a'r llyfr gwyrdd. Nid yw treuliau a lwfansau yn cael eu cymeradwyo yn gyfartal. Nid yw'n ymddangos bod cyfleoedd DPP a hyfforddiant ar gael ar gyfer y llyfr gwyrdd yn yr un modd ag y mae gan lyfr llwyd gyllidebau enfawr i ddatblygu staff gweithredol. Mae angen mwy o hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli. Mae [redacted] yn gwneud gwaith da gyda'r adnoddau sydd ganddi ac mae'r cynadleddau sy'n cael eu trefnu yn fuddiol. Rwy'n teimlo bod angen cyfleoedd hyfforddi mwy anffurfiol a ffurfiol ar gyfer staff y llyfr gwyrdd, yn enwedig er mwyn helpu i ddatblygu arweinwyr y dyfodol, a byddai'n ffordd effeithiol o ddatblygu arweinwyr y dyfodol cyn bod ganddynt gyfrifoldebau arweinyddiaeth. Gallai mwy o ffocws fod ar anabled. Er bod rhwydweithiau a hyfforddiant niwroamrywiaeth wedi cael eu croesawu fel nodwedd o'r Gwasanaeth, nid oes digon yn cael ei wneud o ran anabled corfforol ac mae angen mwy o egni ac arweinyddiaeth gan Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth ac arweinwyr
4	Mae angen i fusnesau feddwl am well cefnogaeth i staff newydd [o dramor]. Nid ydym yn gwybod unrhyw beth [h.y. protocolau diogelwch].
5	Roeddech chi'n sôn bod [y Gwasanaeth] yn addysgu plant drwy ysgolion, ond beth am blant sydd ddim yn mynd i'r ysgol? Dylech ystyried sut mae'r Gwasanaeth yn darparu ar gyfer plant sy'n cael eu haddysgu gartref a'r rhai sydd wedi'u heithrio.
6	Mae'n dda gweld Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru yn y digwyddiadau hyn [a drefnir gan Awtistiaeth Cymru].
7	Recriwtio mwy o bobl LDHTC.
8	Cydraddoldeb rhywiol yn ei ystyr ehangaf. Mae trawsffobia yn beth go iawn pan fyddwch chi'n ei brofi bron bob dydd.
9	Creu gwybodaeth mewn mwy o ieithoedd i helpu'r rhai nad ydynt yn Gymraeg/Saesneg iaith gyntaf.
10	Anghenion pobl traws, iechyd meddwl ac anabled sy'n aml yn cael eu gadael ar ôl.

<b>11</b>	Sut mae pobl heb ffôn symudol yn cysylltu â'r gwasanaeth tân (h.y. ffonio 999). Nid yw blychau ffôn yn bodoli mwyach. Mae symudiad tuag at bobl nad oes ganddynt/yn defnyddio dyfeisiau ffôn symudol. Ni all rhai pobl fforddio cael ffôn ychwaith [statws economaidd-gymdeithasol].
<b>12</b>	Ystyriwch bob grŵp oedran.
<b>13</b>	Dylai'r holl staff yn eich gwasanaeth sy'n ymgysylltu â'r gymuned gysylltu â MIND ac elusennau iechyd meddwl eraill.
<b>14</b>	Iechyd Meddwl a Lles.
<b>15</b>	Peidiwch â gwahaniaethu yn erbyn pobl â diagnosis iechyd meddwl hanesyddol.
<b>16</b>	Mae eich asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn ddefnyddiol. Mae'n dda gweld iechyd meddwl yn cael ei ystyried.
<b>17</b>	Mae gan ffoaduriaid anghenion unigryw. Mae'n braf eich bod wedi meddwl amdanom [Ffoaduriaid a phobl sy'n byw yn yr ardal sydd wedi cyrraedd drwy'r rhaglen adsefydlu].
<b>18</b>	Diogelwch mewn dŵr, ymgyrchoedd atal boddi a chydabod pobl (grwpiau ethnig o bobl) sydd ddim yn gall nofio. Fe gollodd un teulu yn y grŵp eu mab y llynedd mewn digwyddiad boddi yn Abermo.
<b>19</b>	Ystyriaethau myfyrwyr. Oedran, ffactorau pontio'r cenedlaethau, gwerthoedd dan arweiniad, nirowahaniaeth, rhywioldeb ac amrywiaeth rhywedd.
<b>20</b>	Buddsoddiad cyfartal ym mhob maes diogelwch tân. Bwlch enfawr mewn Tai Amlfeddiannaeth ar hyn o bryd.
<b>21</b>	Risgiau i fyfyrwyr a phobl ifanc.
<b>22</b>	Gwahaniaethau diwylliannol.
<b>23</b>	Myfyrwyr rhyngwladol.
<b>24</b>	Anghydraddoldeb a hiliaeth.
<b>25</b>	Hiliaeth a throseddau casineb.
<b>26</b>	Meddyliwch am y rhwystrau y mae oedolion ifanc yn wynebu yn Addysg Uwch [Prifysgol] a sut y gallwch greu swyddi rhan-amser i fyfyrwyr llawn amser wrth iddynt astudio.
<b>27</b>	Mae poblogaeth myfyrwyr yn farchnad unigryw gydag ymddygiadau rhyfedd, oddi cartref am y tro cyntaf ac ati.
<b>28</b>	Myfyrwyr rhyngwladol.
<b>29</b>	Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei datblygu a'i chynnal.
<b>30</b>	Sut mae hyrwyddo [Recriwtio] yn targedu pobl iau. [Cyfeiriad penodol at recriwtio ar alwad ym Mwcle].
<b>31</b>	Gwasanaeth anghyson ym Mwcle [Sylw a wnaed wrth gyfeirio at nad yw Bwcle ar gael rywfaint o'r amser].
<b>32</b>	Hen bobl, dybiwn i.
<b>33</b>	Ystyriwch sut y byddwch chi'n siarad [cyfathrebu] gyda phobl hŷn [O gefndir Pwyleg sy'n siarad ychydig iawn neu ddim Cymraeg/Saesneg].
<b>34</b>	Dylai eich ymrwymiad a'ch ymgysylltiad mewn ardaloedd gwledig fod yn gyfartal â phopeth sy'n digwydd mewn trefi mwy a Wrecsam.
<b>35</b>	Gwella'r ymateb ym mhob ardal, nid dim ond Wrecsam a'r Rhyl.
<b>36</b>	Pobl hŷn. Symudedd cyfyngedig.
<b>37</b>	Y rhai ag anableddau corfforol a'r rhai sydd wedi'u hynysu [diffyg symudedd cymdeithasol].
<b>38</b>	Rwy'n credu dim ond bod yn ystyriol o sut mae pobl yn ystyried ei hunain ac os ydych chi'n ei gael yn anghywir, cywirwch eich hun, ymddiheuro a symud ymlaen.
<b>39</b>	Gofynion mynediad a chael gwared ar rwystrau i ymuno. Meddwl am bobl sydd heb gymwysterau TGAU.
<b>40</b>	Mynediad. Adnoddau mewn Pwyleg.
<b>41</b>	Mwy o amrywiaeth i bobl nad ydynt yn cyd-fynd â'r gwasanaeth tân ystrydebol.

<b>42</b>	Anghydraddoldeb. Dim mynediad cyfartal i wersi nofio mewn ysgolion. Darpariaeth gwersi nofio wael.
<b>43</b>	Diweddarau gwefan gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
<b>44</b>	Creu swyddi i bobl leol. Mae'r gwasanaeth tân yn tueddu i ddenu pobl o Loegr pan fo digon o bobl leol i ddewis ohonynt.
<b>45</b>	Gweithio gyda chyflogwyr lleol i greu rolau deuol.
<b>46</b>	Pobl yn byw'n hirach, ond ddim yn iach.
<b>47</b>	Rydyn ni [pobl hŷn dros 65 oed] yn fwy tebygol o ddisgyn. Anaml y byddwn yn mynd allan ar ein pennau ein hunain nad yw'r un peth â bod ar ein pennau ein hunain [teimlo ei bod wedi colli ymdeimlad o annibyniaeth]
<b>48</b>	Diffyg mynediad oherwydd parcio gwael ar y stryd
<b>49</b>	Mae angen ystyriaeth ofalus o adleoli staff yn y dyfodol.
<b>50</b>	Cydraddoldeb o ran darpariaeth gwasanaeth tân.
<b>51</b>	Ystyriaethau BSL Byddar. Colli clyw.
<b>52</b>	Y gallu i gael mynediad i'r un gwasanaethau â Chaernarfon a Bangor.
<b>53</b>	Diolch am wrando arnom.
<b>54</b>	Pobl mewn cadeiriau olwyn a chadeiriau olwyn pweredig.
<b>55</b>	Mynediad prydlon i'r gwasanaeth tân.
<b>56</b>	Mae gwella cyfleusterau menywod yn rhwystr cyffredin.
<b>57</b>	Dim sylwadau.
<b>58</b>	Meddwl am bob crefydd.
<b>59</b>	Sicrhau nad yw ardaloedd poblog yn gweld gostyngiad mewn diffoddwyr tân, peiriannau tân neu orsafoedd tân.
<b>60</b>	Risgiau i ardal mewn ymateb i ymosodiad terfysgol neu ffrwydrad ar raddfa fawr i orsaf danwydd gyferbyn â'r Brifysgol neu ffatri gemegol ar ystâd ddiwydiannol.
<b>61</b>	Y gwerth gorau am arian. Ystyried rôl ddeuol, mynd i'r afael â risgiau CPR ac ymatebwyr cyntaf pan fydd ambiwlansys yn gorfod aros yn adrannau brys ysbytai.
<b>62</b>	Caffael ac o ble rydych chi'n prynu eitemau, o ble mae eitemau rydych chi'n eu prynu yn cael eu gwneud, caethwasiaeth fodern ac ati.
<b>63</b>	Da gweld rhywedd yn cael ei gynnwys.
<b>64</b>	Gofalwyr (cyflogedig a di-dâl).
<b>65</b>	Mae'r gwasanaeth tân wedi ymdrin ag ethnigrwydd yn fras ac mae'n amlwg eich bod yn ymgysylltu â ni.
<b>66</b>	Nid oes cydraddoldeb o ran y gwasanaeth mewn ardaloedd gwledig i'r dwyrain o Wrecsam.
<b>67</b>	Mae angen ymgorffori BSL drwy unrhyw beth.

# Atodiad I

Cyf	SYLWADAU A DDERBYNIWYD Y TU ALLAN I'R YMGYNGHORIAD (Facebook, e-bost ac ati)
1	<p><b>Pwnc: Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024 – 2029</b></p> <p>Ysgrifennaf i'ch canmol ar gyflwyniad eich "Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024 - 2029" fel y'i cyhoeddwyd ar eich gwefan yn yr hyperddolen canlynol. <a href="https://www.tangogleddcymru.llyw.cymru/media/dn2bq1fx/nwfrs-community-risk-management-plan-2024-2029-cymraeg.pdf">https://www.tangogleddcymru.llyw.cymru/media/dn2bq1fx/nwfrs-community-risk-management-plan-2024-2029-cymraeg.pdf</a></p> <p>Ysgrifennaf i holi a yw'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi cynnal unrhyw asesiadau risg ac wedi cyhoeddi canllawiau ar sut y dylid rheoli tanau tyrbinau gwynt ar safleoedd diwydiannol mewn lleoliad coedwigaeth yng Nghymru.</p> <p>Mae'r 10 ardal a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer safleoedd ynni gwynt diwydiannol wedi'u hamlinellu yn "Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040" Llywodraeth Cymru. Atgynhychir y cynllun isod yn Atodiad 1 er mwyn eich hwylustod.</p> <p>Mae llawer o'r prosiectau ynni gwynt arfaethedig, sydd bellach yn cael eu cyflwyno ar gyfer caniatâd cynllunio, yn cynnwys tyrbinau gwynt ag uchder o lefel y ddaear oddeutu 200 metr, gan greu amgylchedd heriol i'r Gwasanaeth Tân, yn enwedig mewn lleoliad coedwig ar ucheldir. Fel y gwyddoch yn ddiâu, mae nifer o danau wedi'u cofnodi ar safleoedd ynni gwynt mewn gwahanol wledydd. Mae ffotograff nodweddiadol wedi'i gynnwys yn Atodiad 2 isod.</p> <p>Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi ystyriaeth i gynnwys manylion - yn eich Cynllun Rheoli Risg - o sut y dylid rheoli unrhyw dân yn y dyfodol ar y safleoedd diwydiannol hyn i liniaru'r risg i'r cyhoedd a gweithredwyr safleoedd yn gyffredinol.</p> <p>Edrychaf ymlaen at eich sylwadau ar adeg cyfleus i chi.. Diolch yn fawr.</p>
2	Dyma ni'n mynd eto!
3	Ydych chi'n cynhyrchu adolygiad darpariaeth tân o fewn hwn o gwbl? O ystyried y siom ynghylch lleihau'r peiriannau amser llawn y tro diwethaf, byddai'n dda gwybod.

# Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol

## (CRMIP) Ymgynghoraid 2025-26

### Adroddiad Dadansoddiad Effaith Cydraddoldeb



Gwasanaeth Tân ac Achub  
Fire and Rescue Service



**ATAL AMDDIFFYN YMATEB  
PREVENTING PROTECTING RESPONDING**

## Tudalen Cynnwys

Cyflwyniad .....	3
Cefndir a Chyd-destun yr Ymgynghoriad ar y Cynllun (CRMP).....	3
Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Y Cyd-destun Cyfreithiol .....	4
Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.....	5
Methodoleg .....	6
Demograffeg Ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru..	7
Oedran.....	8
Anabledd.....	9
Rhywedd.....	10
Cyfeiriadedd Rhywiol .....	10
Ailbennu Rhywedd.....	11
Beichiogrwydd a Mamolaeth .....	13
Hil.....	13
Crefydd a/neu Gred.....	15
Priodas a Phartneriaeth Sifil .....	15
Ystyriaethau'r Gymraeg .....	17
Ystyriaethau Economaidd-gymdeithasol .....	17
Ymgysylltiad ac Ymgynghoriad â Grwpiau Cydraddoldeb Penodol .....	21
Crynodeb o Ganfyddiadau'r Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.....	22
Egwyddor Pobl.....	22
Egwyddor Atal .....	23
Egwyddor Diogelu .....	26
Egwyddor Ymateb.....	28
Egwyddor Amgylcheddol.....	29

## Cyflwyniad

Datblygwyd yr adroddiad dadansoddi Effaith ar gydraddoldeb hwn ochr yn ochr ag adroddiad ymgynghori'r gwasanaeth ynghylch ei Gynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMIP) 2025-2026 yn dilyn y cyfnod ymgynghori rhwng 22 Hydref a 16 Rhagfyr 2024. Mae ymgysylltu'n benodol â gwahanol grwpiau buddiant ym maes cydraddoldeb yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi'n helpu i greu darlun o'r hyn mae pobl yn ei deimlo am y ffrydiau gwaith rydym yn eu cynnig, eu barn ynglŷn â risg ac i asesu a allai unrhyw un o'r cynlluniau arfaethedig roi grwpiau penodol o bobl neu gymunedau dan anfantais.

Nod cyffredinol yr adroddiad dadansoddi cydraddoldeb hwn yw tynnu sylw at themâu penodol a ddaeth i'r amlwg yn ystod ymgynghoriad CRMIP 2025-26. O'r dadansoddiad hwn, gallwn weld ble mae'r risgiau posibl o wahaniaethu a rhoi mesurau ar waith i liniaru hynny. Fel y'i diffinnir gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y nodweddion gwarchoddedig sy'n dod o fewn Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (*Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus - PSED*) ac o fewn y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yng Nghymru, yn ogystal ag ystyried unrhyw oblygiadau posibl i'r iaith Gymraeg, yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg.

## Cefndir a Chyd-destun yr Ymgynghoriad ar y CRMIP

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid i wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru ymgynghori ynglŷn â'r trefniadau y maent yn bwriadu eu rhoi ar waith i sicrhau gwelliannau parhaus a'r amcanion a'r safonau gwella y maent yn bwriadu eu gosod i'w hunain.

Mae Cynllun Corfforaethol tair blynedd blaenorol y gwasanaeth (2021-24) bellach wedi dod i ben. Yn ei le, mae'r gwasanaeth wedi mabwysiadu Cynllun Rheoli Risg Cymunedol pum mlynedd gyda chynlluniau gweithredu blynyddol, yn seiliedig ar fframwaith strategol a ddatblygwyd gan Gyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân. Bwriedir iddo ein cynorthwyo i wneud penderfyniadau tryloyw y gallwn eu cyfiawnhau a helpu Gwasanaethau Tân ac Achub i weld cyfleoedd i gydweithredu â sefydliadau partner yn haws. Wrth ddatblygu'r cynllun hwn, mae gofyniad i 'ymgynghori ac ymgysylltu'n effeithiol' (yn unol â threfniadau llywodraethiant y gwasanaeth) gyda chymunedau, staff a rhanddeiliaid ar gamau priodol o'r broses gynllunio ar gyfer rheoli risg cymunedol.

Mae dogfen y Cynllun yn nodi'r risgiau a'r heriau disgwylidig y gallai'r Gwasanaeth eu hwynebu o fewn y pum mlynedd nesaf, felly mae'n hanfodol bwysig casglu adborth gan bobl o bob cefndir fel rhan o'r broses hon.

## **Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Y Cyd-destun Cyfreithiol**

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yn rhan o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a daeth i rym ym mis Ebrill 2011.

Mae adran 149 y Ddeddf Cydraddoldeb yn nodi'r brif ddyletswydd ac yn datgan bod rhaid i awdurdodau, wrth arfer eu swyddogaethau, "roi sylw dyledus i'r angen i" ddileu unrhyw ymddygiad a waherddir gan y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid sy'n gysylltiedig â'r Nodweddion 'Gwarchodedig', sy'n cynnwys:

- Oedran
- Anabledd (gan gynnwys cyflyrau iechyd hirdymor)
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil (ethnigrwydd)
- Crefydd neu Gred
- Rhywedd
- Cyfeiriadedd Rhywiol

Er bod 'priodas a phartneriaeth sifil' hefyd yn nodwedd warchodedig, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, nid yw'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn ei chwmpasu yn yr un modd â'r nodweddion gwarchodedig eraill a restrir uchod ac at ddibenion y ddyletswydd y mae i ddileu gwahaniaethu. Mae'n bwysig nodi y daeth Adran 1 o 'Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol' y Ddeddf Cydraddoldeb i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021, ac mae hyn yn gofyn am yr un sylw dyledus â'r naw nodwedd warchodedig a restrir uchod.



Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 hefyd yn ystyriaeth gyfreithiol arall sydd wedi'i chynnwys yn y Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (*Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - EIA*). Wrth gydymffurfio â'r safonau ar gyfer Lluo Polisi, sy'n rhan o hysbysiad cydymffurfio â Safonau Iaith Gymraeg y Gwasanaeth, nodir bod rhaid ystyried unrhyw effeithiau, boed yn gadarnhaol neu'n niweidiol ar y Gymraeg. Rhaid i'r Dadansoddiad gynnwys unrhyw beth a ganfuwyd sy'n effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### **Mae gan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus dair prif agwedd, sef:**

1. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan y Ddeddf hon.
2. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.
3. Meithrin perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Mae rhoi sylw dyledus i'r angen i 'hyrwyddo cyfle cyfartal' rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt, yn cynnwys sylw dyledus i'r angen i ddileu neu leihau anfanteision a wynebwr ganddynt. Mae rhoi sylw dyledus hefyd yn golygu bod sefydliadau cyhoeddus, fel GTAGC, yn cymryd mesurau i ddiwallu anghenion pobl o'r fath lle mae'r anghenion hynny'n wahanol i rai pobl nad oes ganddynt y nodwedd honno, ac yn annog y rhai sydd â nodwedd warchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.

Fel rhan hanfodol o fodloni eu Dyletswydd Cydraddoldeb, mae awdurdodau cyhoeddus yn cynnal Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd hyn yn cael ei ddogfennu drwy gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (*Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - EqIA*). Asesiad o bolisi arfaethedig y sefydliad yw'r Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, neu newid i bolisi sy'n bodoli eisoes, fel y gellir penderfynu a yw'r polisi yn cael effaith anghyfartal ar bobl sydd â'r nodweddion gwarchoddedig. Er nad oes cyfarwyddyd penodol am sut i wneud hyn bellach, mae cyfraith achos wedi cynnig canllawiau i ni ar sut i gynnal dadansoddiad o'r effaith ar gydraddoldeb, sef:

- Sicrhau bod cofnod ysgrifenedig o'r ystyriaethau cydraddoldeb sy'n cael eu hystyried.

- Sicrhau bod unrhyw broses o wneud penderfyniadau yn cynnwys. ystyriaeth i'r camau a fyddai'n helpu i osgoi neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau cydraddoldeb penodol.
- Sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn cael eu gwneud ar sail tystiolaeth, a
- Sicrhau bod y broses benderfynu yn dryloyw.

## Methodoleg

Yn seiliedig ar dair prif agwedd y Ddyletswydd Cydraddoldeb (a restrwyd yn gynharach), mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at wahanol themâu a ddaeth i'r amlwg o adborth a gafwyd mewn ymateb i'r un cwestiynau a gafodd eu cynnwys mewn holiaduron ar-lein a grwpiau ffocws.

Mae'r adroddiad hwn a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) sy'n cydfynd ag ef yn canolbwyntio ar ganfyddiadau sy'n ymwneud â chydaddoldeb a gafwyd mewn ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 22 Hydref a 16 Rhagfyr 2024.

Cysylltwyd â thua 70 o sefydliadau partner a grwpiau cymunedol gwahanol i helpu i hyrwyddo'r ymgynghoriad. Ymhlith y partneriaid hyn roedd grwpiau buddiant ym maes cydraddoldeb a oedd yn cynnwys grwpiau cymunedol, elusennau a sefydliadau sy'n cefnogi grwpiau penodol o bobl (h.y. grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc, pobl sy'n byw gyda dementia, ymhlith eraill). Roedd rhai grwpiau buddiant ym maes cydraddoldeb yn hapus i gwblhau a hyrwyddo'r holiadur ar-lein ymhlith eu haelodau, tra bod yn well gan y rhan fwyaf o grwpiau drefnu grŵp ffocws a oedd yn eu galluogi i roi adborth yn uniongyrchol. Aeth grwpiau ffocws wyneb yn wyneb hefyd i'r afael â'r rhwystrau y mae rhai pobl yn eu profi yn ymwneud ag iaith, sgiliau cyfathrebu cyfyngedig, y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol a phobl y mae'n well ganddynt siarad â pherson a gofyn cwestiynau.

Mae'r adroddiad hwn yn dod â manylion ein gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori at ei gilydd; demograffeg ardal ATAGC, gan gyfeirio'n benodol at nodweddion gwarchoddedig; effaith bosibl y gweithgareddau sydd ar y gweill o safbwynt y pum egwyddor, yn benodol o ran cydraddoldeb mynediad; ac unrhyw ffactorau lliniaru a fydd yn helpu i reoli a lliniaru unrhyw risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau.

## Demograffeg Ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae gan Ogledd Cymru boblogaeth o tua 687,000 o bobl sy'n byw dros ardal ddaearyddol o 2,383 milltir sgwâr (neu 6,172 cilomedr sgwâr). Mae'r rhanbarth yn cynnwys chwe sir, sef Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam. Mae ganddi dirwedd amrywiol, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, ardaloedd arfordirol, a chymunedau gwledig. Mae cysylltiadau da i'r rhanbarth, gyda phrifyrdd mawr, rheilffyrdd, a phorthladdoedd yn ei chysylltu gyda gweddill y DU ac Ewrop.

Y ddinas fwyaf yng Ngogledd Cymru yw Wrecsam, sy'n gweithredu fel canolbwynt ar gyfer masnach a diwydiant, tra bod cytrefi mawr eraill yn cynnwys Bangor, Caernarfon, Bae Colwyn, Glannau Dyfrdwy, Llandudno a'r Rhyl. Mae'r rhanbarth hefyd yn gartref i sawl prifysgol a choleg, gan ddarparu cronfa dalent gref ar gyfer busnesau lleol a rhyngwladol sydd wedi'u lleoli yma. Yn ogystal, mae'r rhanbarth yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid, gan ddenu ymwelwyr o bob cwr o'r byd gyda'i harfordir trawiadol, ei hanes cyfoethog, a'i diwylliant unigryw.

Mae'r Gymraeg, fel iaith byw, yn parhau i fod wrth wraidd yr hunaniaeth Gymreig fodern. Mae mwynhau bywyd teuluol, addysg, gwaith a hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg yn dystiolaeth o bwysigrwydd yr iaith i bobl Cymru.

O ran y 687,000 o bobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru, mae data Cyfrifiad 2021<sup>1</sup> yn nodi bod 22.3% o'r boblogaeth yn 65 mlwydd oed a hŷn. O'r holl awdurdodau lleol ledled Cymru, Conwy (27.4%) ac Ynys Môn (26.4%) sydd â'r canrannau uchaf o bobl 65 oed a hŷn. Conwy (1.5%) sydd â'r ganran uchaf o bobl 90 oed yng Nghymru.

Gyda chroestoriadedd mewn golwg, mae'n ddefnyddiol edrych ar anabledd ac oedran oherwydd y gwahaniaeth nodedig yn y data rhwng 2011 a 2021, yn enwedig yn y grwpiau oedran iau a hŷn<sup>2</sup>.

---

<sup>1</sup> Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) Amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi, Cymru: Cyfrifiad 2021, Canfuwyd yn: [Amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi Cymru - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk/cyfrifiad-2021)

<sup>2</sup> Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023b) Anabledd yn ôl Oedran, Rhyw ac Amddifadedd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021. Canfuwyd yn: [Anabledd, Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk/abledd-cymru-a-lloegr)

Ar gyfer menywod rhwng 15 a 19 oed roedd canran yr anabledd yn 13.3% yn 2021, sy'n 8.1 pwynt canrannol yn uwch nag yn 2011 a 7.9 pwynt canrannol yn uwch nag yn 2001. Parhaodd y duedd hon i'r grŵp oedran 20 i 24 oed, lle cynyddodd nifer yr achosion o anabledd yn sylweddol, o 6.2% yn 2011 i 17.9% yn 2021. Ar gyfer dynion, roedd yr achosion cynyddol o anabledd yn 2021 yn dechrau mewn oedrannau cynharach; roedd 8.6% o fechgyn 5 i 9 oed yn anabl yn 2021, o'i gymharu â 5.6% yn 2011 a 6.5% yn 2001<sup>3</sup>.

Mae poblogaeth Gogledd Cymru yn llawer amrywiol llai o ran ethnigrwydd nag ar draws Cymru a Lloegr yn gyffredinol a nododd 96.8% o'r boblogaeth eu bod yn "Wyn" yng nghyfrifiad 2021. Yng Ngogledd Cymru, roedd y cyfrannau uchaf o bobl o "Unrhyw gefndir Gwyn arall" yn 2021 yn Wrecsam (4.8%) a Sir y Fflint (3.9%) a'r isaf yn Ynys Môn (1.9%)<sup>4</sup>.

## Oedran

Gall oedran unigolyn, ynghyd â ffactorau ychwanegol megis 'nodweddion gwarchoddedig' eraill, effeithio ar eu mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Gall unigolion hefyd ddioddef gwahaniaethu ac anghydraddoldebau oherwydd eu hoedran.

Canfu Arolwg Cymdeithasol Ewrop 2012 mai gwahaniaethu ar sail oedran oedd y math mwyaf cyffredin o ragfarn a wynebwyd yn y DU, gyda 28% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod wedi wynebu rhagfarn ar sail eu hoedran. Yn yr adran hon y categori oedran y rhoddir y sylw mwyaf iddo yw 65+, gan mai dyma'r band oedran sy'n wynebu'r gwahaniaethu mwyaf ar sail oedran. Mae dadansoddiad o ddata Cyfrifiad 2021 yn dangos bod trigolion Gogledd Cymru sy'n 65 oed neu'n hŷn yn fwy tebygol na'r rhai o dan 65 oed i:

- Fod â salwch hirdymor sy'n eu cyfyngu.
- Bod ag iechyd gwael.
- Bod yn byw ar eu pennau eu hunain.

---

<sup>3</sup> Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023b) Anabledd yn ôl Oedran, Rhyw ac Amddifadedd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021. Canfuwyd yn: [Anabledd, Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk/y-staterev/2023b/tables/tables)

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru (2022) Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru - Cyfrifiad 2021. Canfuwyd yn: [Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru \(Cyfrifiad 2021\) | LLYW.CYMRU](https://www.llyw.cymru/ethnig-hunaniaeth-genedlaethol-iaith-a-chrefydd-yng-nghymru-cyfrifiad-2021)

### **Bod heb fynediad at gar:**

- Bod yn darparu gofal di-dâl o 50 awr neu fwy yr wythnos.
- Bod yn byw mewn aelwyd heb wres canolog.

### **Roedd pobl dros 50 oed yn fwy tebygol na'r rhai o dan 50 oed i:**

- Fod yn byw ar eu pennau eu hunain.
- Bod yn ynysig ac wedi'u heithrio.
- Bod yn darparu gofal di-dâl, a
- Bod heb unrhyw gymwysterau.

Mae'r ffaith bod y boblogaeth yn heneiddio yn golygu y bydd yna oblygiadau ariannol ac o ran adnoddau am ei bod yn debygol mai dyma'r oedran lle mae anghenion iechyd a gofal cymdeithasol unigolion yn cynyddu.

## **Anabledd**

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan berson anabledd os oes ganddynt amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol hirdymor sylweddol ar allu'r person hwnnw i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Mae hyn yn gyson â diffiniad y broblem Cyfrifiad iechyd hirdymor sy'n cyfyngu.

Yn ôl data Cyfrifiad 2021, mae 20.7% o gyfanswm poblogaeth Gogledd Cymru yn dweud bod ganddynt anabledd a/neu gyflwr iechyd hirdymor. Y cyfartaledd cenedlaethol yng Nghymru yw 21.1% ac at ddibenion cymharu, mae'n 17.7% yn Lloegr<sup>5</sup>.

Mae cysylltiad agos rhwng anabledd ac oedran, gyda phobl hŷn yn fwy tebygol o fod yn anabl. Yng Ngogledd Cymru, mae data 2021 yn dangos mai'r grŵp oedran sydd â'r gyfran uchaf o bobl ag iechyd gwaeth na'r cyfartaledd yw'r rhai 65 oed a hŷn (12.5%), gyda'r gyfran isaf ymhlith y rhai 15 oed ac iau (0.5%). Gwelwyd hyn ym mhob awdurdod lleol gyda rhywfaint o fân amrywiad yn y canrannau.

---

<sup>5</sup> Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023c) Anabledd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021. Canfuwyd yn:

[www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/disabilityenglandandwales/census2021#:~:text=In%20Wales%2C%20in%202021%2C%20a,\(23.4%25%2C%20696%2C000\)](https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/disabilityenglandandwales/census2021#:~:text=In%20Wales%2C%20in%202021%2C%20a,(23.4%25%2C%20696%2C000))

Yng Ngogledd Cymru, roedd y ganran uchaf o fewn y boblogaeth 17 oed neu iau oedd ag iechyd gwaeth na'r cyfartaledd rhwng 16 ac 17 oed (1.2% o'r boblogaeth hon), ac roedd y ganran isaf yng Ngogledd Cymru ymhlith y rhai 2 oed ac iau (0.3 % o'r boblogaeth hon). Roedd rhywfaint o amrywiad yn yr awdurdodau lleol er bod y ganran uchaf ymhlith y rhai 16 i 17 oed ym mhob awdurdod lleol ac eithrio Syr Ddinbych lle'r oedd y ganran uchaf ymhlith y rhai 15 oed (1.7% o'r boblogaeth hon). Nid yw'n bosibl cymharu'r data hwn â'r data a gynhwyswyd yn yr adroddiad blaenorol gan y defnyddiwyd ffynhonnell ddata wahanol.

## Rhywedd

Yn ôl data Cyfrifiad 2021, poblogaeth Gogledd Cymru yn ôl rhywedd yw 51% benywaidd a 49% gwrywaidd. O'i gyfuno â ffactorau ychwanegol fel byw ar eich pen eich hun, statws cyflogaeth, incwm ariannol, anghenion iechyd a gofal cymdeithasol, mae ymchwil yn awgrymu y gall rhywedd person arwain at ganlyniadau anghyfartal. Mae pobl yn cael eu heffeithio'n anghyfartal gan eu rhywedd pan edrychwn ar wahanol gysyniadau gan gynnwys troseddau casineb a cham-drin domestig<sup>6</sup>, bwch cyflog rhwng y rhywiau ac incwm ariannol<sup>7</sup>, cael mynediad at ofal iechyd<sup>8</sup>, iechyd meddwl<sup>9</sup>, Cam-drin domestig<sup>10</sup> a gall unigolion hefyd brofi gwahaniaethu ac anghydraddoldebau oherwydd eu rhywedd<sup>11</sup>.

## Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae cyfeiriadedd rhywiol yn derm cyffredinol sy'n cwmpasu hunaniaeth rywiol, atyniad ac ymddygiad. Yn ôl Stonewall<sup>12</sup>, mae tua 7% o bobl yn nodi bod ganddynt gyfeiriadedd rhywiol sy'n golygu eu bod yn cael eu denu at bobl o fwy nag un rhywedd.

---

<sup>6</sup> Stop Hate (2023) Trosedd Gasineb ar sail Rhywedd, Canfuwyd yn [www.stophateuk.org/about-hate-trosedd/troseddau-casineb-ar-sail-rhywedd/](http://www.stophateuk.org/about-hate-trosedd/troseddau-casineb-ar-sail-rhywedd/)

<sup>7</sup> SYG (2022) Bwch Cyflog Rhwng y Rhyweddau 2022, Canfuwyd yn [www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/genderpaygapintheuk/2022](http://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/genderpaygapintheuk/2022)

<sup>8</sup> SYG (2022) Bwch Cyflog Rhwng y Rhyweddau 2022, Canfuwyd yn [www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/genderpaygapintheuk/2022](http://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/genderpaygapintheuk/2022)

<sup>9</sup> Sefydliad Iechyd Meddwl (2023) Dynion ac Iechyd Meddwl, Canfuwyd yn [www.mentalhealth.org.uk/explore-mental-health/a-z-topics/men-and-mental-health](http://www.mentalhealth.org.uk/explore-mental-health/a-z-topics/men-and-mental-health)

<sup>10</sup> SYG (2021) Dioddefwyr Cam-drin Domestig, Canfuwyd yn [www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabuse-victimcharacteristicsenglandandwales/yearendingmarch2022](http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabuse-victimcharacteristicsenglandandwales/yearendingmarch2022)

<sup>11</sup> Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (2023) Rhywedd Cydraddoldeb Gwaith, Canfuwyd yn [www.cipd.org/uk/views-and-insights/cipd-Viewpoint/gender-equality-work/](http://www.cipd.org/uk/views-and-insights/cipd-Viewpoint/gender-equality-work/)

<sup>12</sup> Stonewall (2022) Rainbow Britain Report, Canfuwyd yn: [www.stonewall.org.uk/system/files/rainbow\\_britain\\_report.pdf](http://www.stonewall.org.uk/system/files/rainbow_britain_report.pdf)

Yn ôl Cyfrifiad 2021<sup>13</sup>, mae 89.4% o boblogaeth Cymru yn nodi eu bod yn heterorywiol neu'n syth, 7.6% o'r boblogaeth 'heb ateb', gyda 3% o'r boblogaeth yn nodi eu bod yn Hoyw, Lesbiaidd, Deurywiol neu 'arall'.

Mae ymchwil i brofiad pobl o ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus wedi canfod bod pobl sy'n ystyried eu hunain yn Hoyw, Lesbiaidd, Deurywiol neu gyfeiriadedd heblaw heterorywiol, yn aml yn profi anghydraddoldeb a mynediad cyfyngedig. Er mai prin iawn yw'r ymchwil ar gyfer gwasanaethau tân ac achub, mae mynediad cyfyngedig wedi dod i'r amlwg mewn amryw o wasanaethau cyhoeddus gan gynnwys gofal iechyd<sup>14</sup>, awdurdodau'r Heddlu ac Awdurdodau Lleol<sup>15</sup>.

## Ailbennu Rhywedd

Diffinnir ailbennu rhywedd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel rhywun sy'n bwriadu mynd trwy, sy'n mynd trwy neu sydd wedi mynd trwy broses (neu ran o broses) at ddiben ailbennu eu rhyw trwy newid nodweddiol ffisiolegol neu briodoleddau rhyw eraill. Mae hyn yn golygu nad oes angen bod unigolyn wedi cael unrhyw driniaeth neu lawdriniaeth i gael eu diogelu gan y gyfraith. Mae tystiolaeth yn dangos, pan fydd pobl drawsryweddol (41%) a/neu anneuaidd (31%) yn datgelu eu hamrywiad rhywedd, eu bod yn agored i risg o wahaniaethu, bwlio a throseddau casineb<sup>16</sup>.

Roedd 67% o bobl drawsryweddol a 70% o bobl anneuaidd wedi profi iselder yn ystod y flwyddyn ddiwethaf<sup>17</sup>. Roedd bron i hanner y bobl a nododd eu bod yn drawsryweddol (46%) wedi meddwl am gymryd eu bywyd eu hunain yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; roedd 60% yn meddwl nad oedd eu bywyd yn werth ei fyw; ac roedd 12% wedi ceisio lladd eu hunain.

---

<sup>13</sup> SYG (2021) Cyfeiriadedd Rhywiol, Oedran a Rhyw, Cymru a Lloegr, Canfuwyd yn: [www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/sexuality/articles/sexualorientationageandsexenglandandwales/census2021](http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/sexuality/articles/sexualorientationageandsexenglandandwales/census2021)

<sup>14</sup> Stonewall (2018) LGBT+ in Britain Report 2018, Canfuwyd yn: [www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt\\_in\\_britain\\_health.pdf](http://www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt_in_britain_health.pdf)

<sup>15</sup> Stonewall (2017) LGBT+ in Britain: Hate Crime, Canfuwyd yn: [www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt\\_in\\_britain\\_hate\\_crime.pdf](http://www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt_in_britain_hate_crime.pdf)

<sup>16</sup> Stonewall (2018) LGBT+ in Britain: Trans Report, Canfuwyd yn: [www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt\\_in\\_britain\\_-\\_trans\\_report\\_final.pdf](http://www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt_in_britain_-_trans_report_final.pdf)

<sup>17</sup> Prifysgol Manceinion (2018) Canfuwyd yn: <https://sites.manchester.ac.uk/carms/2020/06/17/gender-identity-why-are-transgender-and-non-binary-people-more-at-risk-of-suicide/>

Mewn cymhariaeth, amcangyfrifir bod tua 20% o'r boblogaeth gyffredinol yn profi teimladau hunanladdol yn ystod eu hoes<sup>18</sup> a bod tua 13% yn hunan-niweidio<sup>19</sup>. Felly, mae pobl drawsryweddol ac anneuaidd mewn mwy o berygl o lawer o amrywiaeth o brofiadau hunanladdol, gan eu bod yn wynebu problemau iechyd meddwl a phrofiadau hunanladdol ar gyfraddau sylweddol uwch na'r boblogaeth gyffredinol, yn enwedig ymhlith pobl iau<sup>2021</sup>.

Mae ymchwil hefyd wedi canfod bod pobl yn tynnu a/neu anneuaidd yn wynebu anawsterau mawr o ran cael a defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth, ac weithiau rhagfarn<sup>22</sup>, gan y staff.

Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan Stonewall<sup>23</sup> nad oedd chwarter y staff iechyd a gofal cymdeithasol yn hyderus yn eu gallu i ymateb i anghenion gofal penodol cleifion a defnyddwyr gwasanaethau oedd yn bobl draws a/neu anneuaidd.

Mae nifer cynyddol o bobl draws yn mynd at Glinigau Hunaniaeth Rhywedd; nid yw'n glir a yw hyn yn cynrychioli cynnydd yn y boblogaeth draws neu bod mwy o'r boblogaeth draws yn defnyddio Gwasanaethau Hunaniaeth Rhywedd<sup>24</sup>.

Er nad oes unrhyw amcangyfrifon swyddogol o'r niferoedd sy'n ailbennu rhywedd yn genedlaethol na rhanbarthol, mae Stonewall yn amcangyfrif<sup>25</sup> bod tua 1% o'r boblogaeth yn nodi eu bod yn draws, gan gynnwys y rhai sy'n nodi eu bod yn anneuaidd. Felly, byddai'n rhesymegol amcangyfrif bod rhwng 6,000 a 7,000 o bobl yng Ngogledd Cymru yn profi rhywfaint o amrywiad rhywedd.

---

<sup>18</sup> Time To Change (2020). Suicidal feelings, Canfuwyd yn: <https://www.time-to-change.org.uk/about-mental-health/types-problems/suicidal-feelings#toc-2>

<sup>19</sup> Selfharm UK (2020) Ystadegau hunan-niweidio, Canfuwyd yn:

<https://www.selfharm.co.uk/get-information/the-facts/self-harm-statistics>

<sup>20</sup> Stonewall (2017) School Report, Canfuwyd yn: [www.stonewall.org.uk/resources/school-report-2017](http://www.stonewall.org.uk/resources/school-report-2017)

<sup>21</sup> Transgender Trend (2016) The Suicide Myth, Canfuwyd yn: [www.transgendertrend.com/the-suicide-myth/](http://www.transgendertrend.com/the-suicide-myth/)

<sup>22</sup> Coleg Nyrsio Brenhinol (2020) Fair Care for Trans and Non-Binary, Canfuwyd yn:

[www.rcn.org.uk/Professional-Development/publications/rcn-fair-care-trans-non-binary-uk-pub-009430](http://www.rcn.org.uk/Professional-Development/publications/rcn-fair-care-trans-non-binary-uk-pub-009430)

<sup>23</sup> Stonewall (2018) LGBT+ in Britain: Trans Report, Canfuwyd yn:

[www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt\\_in\\_britain\\_-\\_trans\\_report\\_final.pdf](http://www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt_in_britain_-_trans_report_final.pdf)

<sup>24</sup> LGBT Foundation (2017) Transforming Outcomes A review of the needs and assets of the trans community, Canfuwyd yn: <https://dx.fy8lrzbp.ywr.cloudfront.net/Files/acd2bcc5-a2d4-4203-8e22-aed9f4843921/TransformingOutcomesLGBTFdn.pdf>

<sup>25</sup> Prifysgol Bryste (2018) Ensuring trans people in Wales receive dignified and inclusive health and social care in later life: The Trans Ageing and Care (TrAC) project, 2016-18, Canfuwyd yn: [www.bristol.ac.uk/policybristol/policy-briefings/trans-ageing-and-care-project/](http://www.bristol.ac.uk/policybristol/policy-briefings/trans-ageing-and-care-project/)



## Beichiogrwydd a Mamolaeth

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl sy'n feichiog, sydd wedi rhoi genedigaeth yn ystod y 26 wythnos diwethaf (mewn cyd-destun lle nad ydynt yn gweithio) neu sydd ar absenoldeb mamolaeth (mewn cyd-destun gweithio) yn erbyn gwahaniaethu oherwydd eu beichiogrwydd.

Yn yr 20 mlynedd diwethaf, mae rhwng 7,086 a 7,826 o enedigaethau byw yng Ngogledd Cymru bob blwyddyn. Dros y cyfnod hwn, roedd y cyfrannau mwyaf o'r genedigaethau hyn yn y grŵp oedran 25 i 29 oed. Roedd yr ail gyfran fwyaf o enedigaethau yn y grŵp 30 i 34 oed, a'r grŵp dros 40 oed oedd yr isaf. Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae genedigaethau yn yr ardegau wedi cyfrif am rhwng 4.7% a 9.6% o holl enedigaethau Gogledd Cymru bob blwyddyn. Ac eithrio ambell flwyddyn, mae genedigaethau yn yr ardegau wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2003.

## Hil

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod hil yn cynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu darddiad cenedlaethol. Mae 96.8% o bobl Gogledd Cymru yn ystyried eu bod yn Wyn Cymreig/Prydeinig. Asiaidd neu Asiaidd Cymreig/Prydeinig oedd yr ail grŵp ethnig mwyaf (1.4%), ac yna grwpiau ethnig cymysg neu luosog (1.1%), grŵp ethnig arall (0.4%) a Du, Cymreig Brydeinig/Prydeinig, Caribiaidd neu Affricanaidd (0.3%).

Mae poblogaeth Gogledd Cymru yn llawer amrywiol llai o ran ethnigrwydd nag ar draws Cymru a Lloegr yn gyffredinol a nododd 96.8% o'r boblogaeth eu bod yn "Wyn" yng nghyfrifiad 2021. Yng Ngogledd Cymru, roedd y cyfrannau uchaf o bobl o "Unrhyw gefndir Gwyn arall" yn 2021 yn Wrecsam (4.8%) a Sir y Fflint (3.9%) a'r isaf yn Ynys Môn (1.9%).

Cafodd pandemig COVID-19 effaith anghyfartal ar bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig ac yn ddiweddar dangosodd Llywodraeth Cymru<sup>26</sup> bod llawer o bobl, gan gynnwys rhai a anwyd yng Nghymru, yn dal i brofi hiliaeth yn rheolaidd.

Roedd adroddiad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol<sup>27</sup> o 2016

---

<sup>26</sup> Llywodraeth Cymru (2022) Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Canfuwyd yn: [www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-06/cyflwyniad-i'r-cynllun-cymru-wrth-hiliol.pdf](http://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-06/cyflwyniad-i'r-cynllun-cymru-wrth-hiliol.pdf)

<sup>27</sup> Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2016) Healing a divided Britain, Canfuwyd yn:

yn trafod amryw o faterion sy'n dal i fod yn berthnasol yn 2023 i bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig sy'n parhau i wynebu gwahaniaethu ac anghydraddoldeb mewn addysg, byd gwaith, tai, a safonau byw, iechyd a'r system cyfiawnder troseddol.

Ymhlith pobl 65 oed a hŷn, roedd pobl Asiaidd/Prydeinig Asiaidd a phobl Ddu Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig yn fwy tebygol na phobl o gefndiroedd ethnig eraill o fod â salwch hirdymor oedd yn cyfyngu ac o fod ag iechyd gwael.

Roedd pobl o dras Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig gryn dipyn yn fwy tebygol o fod mewn iechyd gwael o'i gymharu â phob grŵp ethnig arall (15.9% o Sipsiwn/Teithwyr Gwyddelig o'i gymharu â 4.6% o bobl Wyn Brydeinig). Mae Sipsiwn a Theithwyr yn dal i gael eu hystyried fel y rhai sydd â'r iechyd gwaethaf a'r disgwyliad oes isaf yn y DU.

Roedd aelwydydd gyda phobl o gefndiroedd ethnig 'Gwyn arall', cymysg/lluosog, Asiaidd/Asiaidd Prydeinig, Du Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig a chefndiroedd ethnig 'eraill' i gyd yn fwy tebygol nag aelwydydd â phobl o gefndiroedd Gwyn Prydeinig o fod â llai o ystafelloedd gwely nag oedd eu hangen arnynt. Roedd pobl o gefndiroedd cymysg/lluosog a Du Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig yn fwy tebygol na grwpiau ethnig eraill o fyw mewn tai cymdeithasol. Roedd pobl o gefndiroedd Gwyn Prydeinig a Gwyn Gwyddelig yn llai tebygol na grwpiau ethnig eraill o fod yn byw mewn tai rhent preifat.

Roedd pobl o bob grŵp nad oeddent yn Wyn Prydeinig yn fwy tebygol na phobl Wyn Brydeinig o fod yn byw mewn cartref heb gar neu fan. Ymhlith pobl 25-34 oed, roedd pobl o gefndiroedd Gwyn yn llai tebygol o fod yn ddi-waith na phobl o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig. Ymhlith pobl 25-34 oed, roedd pobl o gefndiroedd Gwyn Gwyddelig ac Asiaidd/Asiaidd Prydeinig yn fwy tebygol o feddu ar gymwysterau lefel 4 (gradd neu uwch) na phobl Wyn Brydeinig, tra bod pobl o gefndir Du Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig, Gwyn 'eraill' a chefndiroedd ethnig 'eraill' yn llai tebygol na phobl Wyn Brydeinig o feddu ar y lefel hon o gymhwyster. Ymhlith pobl 16-24 oed, roedd pobl o gefndiroedd ethnig lluosog cymysg, Gwyddelig Gwyn, Gwyn 'eraill' ac 'eraill' i gyd yn fwy tebygol na phobl o gefndiroedd Gwyn Prydeinig o fod heb unrhyw gymwysterau. Yn yr un grŵp oedran, roedd pobl o gefndiroedd Asiaidd/Asiaidd Prydeinig yn llai tebygol

---

[www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/2021/healing-a-divided-britain-august-2016.pdf](http://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/2021/healing-a-divided-britain-august-2016.pdf)

na phobl Wyn Brydeinig o fod heb unrhyw gymwysterau. Roedd canran y bobl yn y grŵp oedran hwn heb unrhyw gymwysterau yn debyg ar gyfer pobl Ddu Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig a Gwyn Prydeinig.

Ymhlith pobl 25-49 oed, roedd pobl o gefndiroedd Gwyn Gwyddelig, Gwyn Prydeinig a Gwyn 'eraill' yn llai tebygol o fod yn ddi-waith na phobl o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig. Ymhlith pobl 25-49 oed, roedd pobl Wyn Gwyddelig ac Asiaidd/Asiaidd Prydeinig yn fwy tebygol o fod mewn swyddi rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch na phobl Wyn Brydeinig, tra bod pobl Ddu Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig, Gwyn 'eraill', cymysg/lluosog a chefnidiroedd ethnig 'eraill' yn llai tebygol na phobl Wyn Brydeinig o fod mewn galwedigaethau o'r fath.

## Crefydd a/neu Gred

Yn ôl Cyfrifiad 2021<sup>28</sup>, Cristnogaeth yw'r crefydd fwyaf cyffredin ym mhob oedran yng Ngogledd Cymru ac mae'n cynrychioli 49.8% o'r boblogaeth. Er bod y prif grŵp nesaf, ar 41.7%, wedi nodi nad oedd ganddynt unrhyw crefydd mae ystadegau'n dangos bod 1.8% o'r boblogaeth yn bobl sy'n dilyn crefyddau Budhaidd, Hindŵaidd, Iddewig, Mwslimaidd a Sikhaidd. Dewisodd 6.7% o bobl beidio â datgan eu crefydd neu gred.

I grynhoi, mae gan Ogledd Cymru gyfran uwch o bobl sy'n Gristnogion, heb unrhyw crefydd, neu heb ddatgan crefydd na'r ffigurau cenedlaethol. Mewn cyferbyniad, mae ganddi gyfran is o bobl sy'n dilyn crefydd heblaw Cristnogaeth, sy'n adlewyrchu cyfansoddiad ethnig y crefydd.

---

<sup>28</sup> Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) Crefydd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021 Canfuwyd yn:

<https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/religion/bulletins/religionenglandandwales/census2021>

## Priodas a Phartneriaeth Sifil

Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, nid yw priodas a phartneriaeth sifil yn dod o dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb (PSED) yn yr un modd â'r nodweddion gwarchoddedig eraill. Fodd bynnag mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn unigolion sydd mewn partneriaeth sifil, neu briodas, rhag wynebu gwahaniaethu. Mae'r Gwasanaeth wedi ystyried y nodwedd warchoddedig hon yn yr un modd, yn bennaf oherwydd bod statws perthynas person yn un o'r ffactorau niferus a all eu rhoi mewn mwy o 'risg' o dân yn y cartref. Er enghraifft, os yw pobl yn byw ar eu pen eu hunain, maent mewn mwy o berygl o gael tân yn y cartref. Mae pobl 65 oed a throsodd sy'n byw ar eu pen eu hunain mewn mwy fyth o berygl.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod yn briod yn gysylltiedig â gwell iechyd meddwl<sup>29</sup>, ac iechyd corfforol<sup>30</sup>. Mae llai o dystiolaeth ynglŷn â manteision bod mewn partneriaeth sifil, ond mae'n debygol bod yr un manteision hefyd i bobl mewn perthynas gadarn o'r fath fel partneriaethau sifil. Lle mae cyplau heterorywiol yn wahanol i barau mewn perthynas o'r un rhyw a phartneriaethau sifil, maent yn profi troseddau casineb, gwahaniaethu ac erledigaeth oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol<sup>31</sup> ac mae hyn yn debygol o gael effaith negyddol ar eu lles meddyliol a'u hymdeimlad o ddiogelwch. Gall hyn hefyd fod yn gysylltiedig â diffyg cydnabyddiaeth gyhoeddus a fframwaith cymdeithasol cyson y gellir adeiladu perthynas o'r fath arno<sup>32</sup>.

Ar draws grwpiau oedran hŷn, roedd dynion a menywod sy'n byw fel cwpl yn fwy tebygol o fod mewn iechyd da neu iechyd da iawn o'i gymharu â'r rhai nad oeddent yn byw fel cwpl, p'run a oedd y rhai nad oeddent yn byw fel cwpl yn byw gyda phobl eraill ai peidio<sup>33</sup>.

---

<sup>29</sup> Kiecolt-Glaser, J. K. & Newton, T. L. (2001) Marriage and health: his and hers. *Psychological bulletin*, Cyfrol 127(4), 472.

<sup>30</sup> Johnson, D.R. & Wu, J. (2002) An empirical test of crisis, social selection, and role explanations of the relationship between marital disruption and psychological distress: A pooled time-series analysis of four-wave panel data. *Journal of marriage and family*, Cyfrol 64(1), 211-224.

<sup>31</sup> King et al (2003) Mental health and quality of life of gay men and lesbians in England and Wales: controlled, cross-sectional study. *The British Journal of Psychiatry*, Cyfrol 183(6), 552-558.

<sup>32</sup> King, M. & Barlett, A. (2006) What same sex civil partnerships may mean for health Canfuwyd yn: [www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC2465551/](http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC2465551/)

<sup>33</sup> Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) Pobl Poblogaeth a Chymuned, Canfuwyd yn: [www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/ageing/articles/profileoftheolderpopulationlivinginenglandandwalesin2021andchangessince2011/2023-04-03](http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/ageing/articles/profileoftheolderpopulationlivinginenglandandwalesin2021andchangessince2011/2023-04-03)

Fel y byddech yn ei ddisgwyl, pobl 16-24 oed sydd fwyaf tebygol o fod yn sengl, a'r rhai 65+ oed yw'r grŵp oedran mwyaf tebygol o fod yn weddw neu'n bartner sydd ar ôl o bartneriaeth sifil o'r un rhyw<sup>34</sup>. Mae partneriaethau sifil o'r un rhyw yn fwyaf cyffredin ymhlith pobl 35–49 oed, lle maent yn cyfrif am 0.2% o gyfanswm y grŵp oedran. Mae cyfran y bobl sy'n briod, wedi gwahanu neu wedi ysgaru yn cynyddu gydag oedran, hyd at 65+ pan fydd yn dechrau gostwng, i ystyried y gyfran gynyddol o bobl sydd wedi colli partner.

## Ystyriaethau'r Gymraeg

Yn ôl Cyfrifiad 2021<sup>35</sup>, yn arwyddocaol, mae'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru i'w gweld yn siroedd Gwynedd (64.4%) ac Ynys Môn (55.8%) yng Ngogledd Cymru. Mae Gogledd Cymru fel rhanbarth yn gartref i dros draean o boblogaeth Cymru sy'n siarad Cymraeg.

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith y gweithle a'r gymuned, ac mae'n adrodd ar hyn yn flynyddol fel sy'n ofynnol o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) (2011). Ochr yn ochr â hyn, mae'r Gwasanaeth yn cefnogi strategaeth Gymraeg 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru gyda'r targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2017). Nod y strategaeth yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chreu amodau ffafriol i hyn ddigwydd, gan gynnwys cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector.

Mae mwy o wybodaeth wedi'i chyhoeddi yn adroddiad monitro'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol [Cliciwch yma](#).

## Ystyriaethau Economaidd-gymdeithasol

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru wedi'u crynhoi mewn trefi arfordirol a threfi ar y ffin yng Ngogledd Cymru<sup>36,37</sup>.

---

<sup>34</sup> Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) Pobl Poblogaeth a Chymuned, Canfuwyd yn: [www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/ageing/article/profileoftheolderpopulationlivinginenglandandwalesin2021andchangessince2011/2023-04-03](http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/ageing/article/profileoftheolderpopulationlivinginenglandandwalesin2021andchangessince2011/2023-04-03)

<sup>35</sup> Llywodraeth Cymru (2022) Y Gymraeg yng Nghymru, Canfuwyd yn: [www.llyw.cymru/y-gymraeg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html](http://www.llyw.cymru/y-gymraeg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html)

<sup>36</sup> Llywodraeth Cymru (2022) Dadansoddiad o nodweddion poblogaeth yn ôl amddifadedd ardal (Cyfrifiad 2021), Canfuwyd yn: [www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-nodweddion-poblogaeth-yn-ol-amddifadedd-ardal-cyfrifiad-2021](http://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-nodweddion-poblogaeth-yn-ol-amddifadedd-ardal-cyfrifiad-2021)

<sup>37</sup> Llywodraeth Cymru (2021) Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET): Ebrill 2020 i Fawrth 2021. Canfuwyd yn: [www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-](http://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-)

Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys Y Rhyl a Bae Cinmel. Yn Ne-orllewin Y Rhyl, mae amddifadedd yn effeithio ar tua 70% o aelwydydd yn ôl y map. Mae gan ardaloedd eraill, megis Abergele, Gorllewin Dinbych a Gronant gyfraddau uchel o amddifadedd hefyd, sef tua 60%. Mae o leiaf un math o amddifadedd yn effeithio ar tua 50% o gartrefi yn Llanelwy, Dyserth a Mostyn. Mae Cymuned Parc Caia yn Wrecsam o fewn y 10 ardal fwyaf difreintiedig o ran parthau incwm, addysg a diogelwch cymunedol. Mae ardaloedd difreintiedig eraill yn cynnwys cymunedau arfordirol ar draws Sir y Fflint megis Glannau Dyfrdwy, Delyn ac Alyn. Cynhaliwyd llawer o waith ymgysylltu yn yr ardaloedd difreintiedig hyn ac fe geir dadansoddiad llawn yn adroddiad llawn yr ymgynghoriad.

Gogledd Cymru (14.4%) sydd â'r gyfran uchaf o bobl ifanc (16 i 24 oed) nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET), o'i gymharu â 13.1% yn Ne Cymru sydd â'r isaf<sup>38</sup>. Gyda chroestoriadedd mewn golwg, roedd 55.8% (26,600) o ddynion 16 i 24 oed yn y categori NEET, o'i gymharu â 44.2% (21,100) o fenywod 16 i 24 oed. Mae pobl ifanc anabl yn fwy tebygol o fod yn y categori NEET na phobl ifanc nad ydynt yn anabl ac mae cyfran y bobl anabl sy'n NEET yn codi o 18.1% yn yr oedran 16 i 18, i 41.2% rhwng 19 a 24 oed<sup>39</sup>.

Y gyfradd gyflogaeth ar gyfer pobl rhwng 16 a 64 oed yng Nghymru oedd 73.0% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023, i lawr 0.6 pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol<sup>40</sup>.

Mae cyfraddau diweithdra yn amrywio ar draws Gogledd Cymru, fel a ganlyn: gyda Gwynedd (26.4%), Sir Ddinbych (26.1%), Sir Conwy (24.2%), Ynys Môn (22.6%), Wrecsam (22.1%) a Sir y Fflint (21.3%)<sup>41</sup>.

---

[versions/2022/10/1/1666014008/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet-ebrill-2020-i-fawrth-2021.pdf](https://www.llyw.cymru/versions/2022/10/1/1666014008/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet-ebrill-2020-i-fawrth-2021.pdf)

<sup>38</sup> Llywodraeth Cymru (2023) Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg ac yn y farchnad lafur: 2021 a 2022 (dros dro), Canfuwyd yn: [www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ac-yn-y-farchnad-lafur-2021-2022-dros-dro-html](https://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ac-yn-y-farchnad-lafur-2021-2022-dros-dro-html)

<sup>39</sup> Llywodraeth Cymru (2022) Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET): Ebrill 2020 i Fawrth 2021, Canfuwyd yn: [www.llyw.cymru/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet-ebrill-2020-i-fawrth-2021](https://www.llyw.cymru/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet-ebrill-2020-i-fawrth-2021)

<sup>40</sup> Llywodraeth Cymru (2023) Ystadegau'r farchnad lafur (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth): Ebrill 2022 i Fawrth 2023. Canfuwyd yn: [www.llyw.cymru/ystadegau-farchnad-lafur-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-2023-html](https://www.llyw.cymru/ystadegau-farchnad-lafur-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-2023-html)

<sup>41</sup> Llywodraeth Cymru (2023) Ystadegau'r farchnad lafur (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth): Ebrill 2022 i Fawrth 2023. Canfuwyd yn: [www.llyw.cymru/ystadegau-farchnad-lafur-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-2023-html](https://www.llyw.cymru/ystadegau-farchnad-lafur-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-2023-html)

Nid yw bod mewn cyflogaeth (neu weithio) yn gwarchod pobl rhag profi tlodi ac amddifadedd. Gwaith cyflog isel yw'r cyfrannwr mwyaf at dlodi mewn gwaith gan ei fod yn ei gwneud hi'n anodd iawn dianc rhag tlodi, yn bennaf oherwydd nad yw rhai pobl yn cael digon o gyflog neu nad oes llawer o swyddi sy'n talu'n dda mewn ardal benodol<sup>42</sup>. Mae bylchau cyflog a thlodi mewn gwaith yn effeithio llawer mwy ar rai grwpiau penodol nag eraill, ac mae'r risg o dlodi mewn gwaith yn fwy i weithwyr anabl a lleiafrifoedd ethnig<sup>43</sup>.

O ran iechyd, mae aelwyd yn cael ei hystyried yn un lle mae amddifadedd os yw iechyd cyffredinol unrhyw berson ar yr aelwyd yn wael neu'n wael iawn neu mae'n cael ei adnabod fel person anabl<sup>44</sup>. Gellir gweld dadansoddiad o anabledd yn yr adran berthnasol ar dudalen 12; mae'n werth nodi bod gan 21.1% o boblogaeth Gogledd Cymru anabledd a/neu gyflwr iechyd hirdymor<sup>45</sup>. Er mai Gwynedd (18.1%) ydy un o'r awdurdodau lleol sydd â'r gyfran isaf o bobl anabl yng Nghymru, mae canran gyfartalog pobl anabl ar draws y rhanbarth yn uwch na rhannau eraill o'r DU. Gyda chroestoriadedd mewn golwg, roedd 22.3% o ferched a 19.8% o ddynion yn anabl. Roedd canran y rhai sydd wedi'u cyfyngu ychydig yn 11.9% ar gyfer merched a 10.3% ar gyfer dynion. Nododd cyfran uwch o ferched na dynion eu bod wedi'u cyfyngu'n fawr; 10.4% a 9.5%, yn y drefn honno<sup>46</sup>.

Gyda chroestoriadedd mewn golwg, mae cysylltiad uniongyrchol rhwng yr argyfwng costau byw ac iechyd gyda 60% o bobl yng Nghymru yn dweud bod eu hiechyd wedi gwaethygu oherwydd costau cynyddol<sup>47</sup>.

---

<sup>42</sup> Joseph Rowntree Foundation (2020) UK Poverty Report 2019/20. Canfuwyd yn: [www.jrf.org.uk/report/uk-poverty-2019-20](http://www.jrf.org.uk/report/uk-poverty-2019-20)

<sup>43</sup> Llywodraeth Cymru (2019). Mae'r rhan fwyaf o blant sydd mewn tlodi yn byw ar aelwydydd sy'n gweithio. Canfuwyd yn: [www.llyw.cymru/maer-rhan-fwyaf-o-blant-sydd-mewn-tlodi-yn-byw-ar-aelwydydd-syn-gweithio-adroddiad-newydd](http://www.llyw.cymru/maer-rhan-fwyaf-o-blant-sydd-mewn-tlodi-yn-byw-ar-aelwydydd-syn-gweithio-adroddiad-newydd)

<sup>44</sup> Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) Newid yn amddifadedd y cartref: Cyfrifiad 2021, Canfuwyd yn: <https://cy.ons.gov.uk/census/census2021dictionary/variablesbytopic/demographyvariables/census2021/householddeprivation>

<sup>45</sup> Llywodraeth Cymru (2023) Iechyd, anabledd a darpariaeth gofal di-dâl yng Nghymru (Cyfrifiad 2021), Canfuwyd yn: <https://www.llyw.cymru/iechyd-anabledd-darpariaeth-gofal-di-dal-yng-nghymru-cyfrifiad-2021>

